Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Ionawr 2015

BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i Fil Llywodraeth Leol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 26 Ionawr 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

26 Ionawr 2015

Cynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH

6. Yr opsiynau
7. Costau a manteision
8. Asesiadau penodol o'r effaith
9. Asesiad o'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

Anecs 1 – Nodiadau Esboniadol

RHAN 1

1. Disgrifiad

1. Bwriedir i ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ganiatáu ar gyfer gwaith paratoi penodol i alluogi rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol ac mae'n cynnwys darpariaethau i hwyluso'r broses o uno gwirfoddol cynnar rhwng dau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol erbyn mis Ebrill 2018. Mae'r Bil hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r arolwg o gynghorwyr ac o ymgeiswyr aflwyddiannus) a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (mewn perthynas ag adolygiadau etholiadol).

2. Y cefndir deddfwriaethol

2. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 o atodlen 7.

3. Mae paragraffau 7 a 12 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn rhestru'r pynciau perthnasol sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud y darpariaethau sydd yn y Bil hwn. Caiff y paragraffau perthnasol eu hatgynhyrchu isod:

Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.

7 Fire and rescue services and fire safety

Fire and rescue services. Provision of automatic fire suppression systems in newly constructed and newly converted residential premises. Promotion of fire safety otherwise than by prohibition or regulation.

12 Local Government

Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

"Local authorities" does not include police authorities.

Exceptions —

Local government franchise.

Electoral registration and administration.

Registration of births, marriages, civil partnerships and deaths.

Licensing of sale and supply of alcohol, provision of entertainment and late night refreshment.

Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress.

Local land charges, apart from fees.

Sunday trading.

Provision of advice and assistance overseas by local authorities in connection with carrying on there of local government activities.

4. Nid oes unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Bil yn dod o dan unrhyw un neu rai o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, nac yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu'n dileu (neu'n rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru; nid ydynt ychwaith yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7, gan ystyried unrhyw eithriad i'r cyfyngiadau hynny sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

5. Prif amcan y Bil yw galluogi i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol a chaniatáu i Brif Awdurdodau Lleol uno'n wirfoddol erbyn mis Ebrill 2018. Bydd y Bil hefyd yn rhoi camau diogelu ar waith i atal a gwrthdroi gwaith gan Brif Awdurdodau Lleol presennol a allai wneud niwed i enw da neu niwed ariannol i unrhyw Brif Awdurdod Lleol newydd a gaiff ei greu drwy uno yn y dyfodol. Mae hefyd yn diwygio darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (yn ymwneud â Phanel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru a’r arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus) a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (yn ymwneud ag adolygiadau etholiadol) i sicrhau bod y statudau hynny'n gweithredu'n effeithiol.

Diwygio Llywodraeth Leol

6. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer pedwerydd tymor y Cynulliad. Ym Mhennod 2 o'r Rhaglen Lywodraethu, cyflwynwyd ymrwymiadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus.

7. Un o'r ymrwymiadau hyn oedd sefydlu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Ebrill 2013, a gofynnwyd iddo gynhyrchu adroddiad gonest, annibynnol a chadarn ar sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eu llywodraethu a'u darparu ar hyn o bryd, sut y mae angen i hyn newid er mwyn diwallu anghenion pobl heddiw, a sut i greu sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

8. Roedd adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014[1], yn cynnwys cyfres o argymhellion i weithredu arnynt. Roedd adroddiad y Comisiwn yn cyflwyno dadl gref o blaid newid sylweddol i wella gallu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r heriau cynyddol y maent yn eu hwynebu. Cyflwynwyd ei argymhellion fel pecyn a oedd yn ymdrin ag ystod eang o feysydd, gan gynnwys camau:

    - I symleiddio trefniadau cyflenwi a lleihau cymhlethdod;
    - I greu'r raddfa a'r gallu i gynnal a gwella gwasanaethau;
    - I gryfhau'r modd y caiff gwasanaethau eu llywodraethu a’u darparu a’r broses o graffu arnynt;
    - I ddatblygu'r arweinyddiaeth, y diwylliant a'r gwerthoedd iawn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus; ac
    - I wella perfformiad gwasanaethau a'r ffordd y caiff perfformiad ei reoli.

[1] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy

9. Wrth wneud ei argymhellion, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod gormod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a bod nifer o sefydliadau cyhoeddus yn rhy fach. Wrth ddod i'r casgliad hwn, dywedodd y Comisiwn bod gormod o sefydliadau cyhoeddus yn bodoli a bod eu rhyngberthynas yn rhy gymhleth. Roedd hyn yn wir yn achos strwythurau ffurfiol a'r rhyngberthynas rhyngddynt, a hefyd o ran partneriaethau llai ffurfiol a threfniadau cydweithredol. Fe allai rhai sefydliadau cyhoeddus bach yng Nghymru fod yn perfformio'n dda (a rhai sefydliadau mawr yn perfformio'n wael), ond roedd y sefydliadau llai yn wynebu risgiau niferus a difrifol o ran llywodraethu a darparu, a'r risgiau hynny'n debygol o waethygu yn y tymor canolig. Un o argymhellion y Comisiwn oedd y dylid cyfuno'r 22 Prif Awdurdod Lleol presennol, a hynny drwy uno Prif Awdurdodau Lleol sy'n bodoli'n barod i greu Awdurdodau newydd yn hytrach na thrwy ad-drefnu ffiniau. Cyflwynodd y Comisiwn bedwar opsiwn ar gyfer uno, i greu 12, 11 neu 10 Prif Awdurdod Lleol newydd.

10. Ym mis Gorffennaf 2014, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gyhoeddi 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru', sy'n amlinellu'r agenda newydd i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Un o brif elfennau'r agenda ddiwygio hon yw bod Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid lleihau nifer y Prif Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy broses o uno.

11. Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru 'Y Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol', a oedd yn amlinellu bwriad Gweinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru.

12. Yn y Papur Gwyn, dangoswyd bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio Opsiwn 1 o argymhellion y Comisiwn ar gyfer uno Awdurdodau Lleol h.y. gostwng nifer y Prif Awdurdodau Lleol o 22 i 12.

13. Yn y Papur, roedd Gweinidogion Cymru yn cydnabod dadl bwerus y Comisiwn ynghylch yr egwyddorion o blaid uno: y dylai ffiniau'r Prif Awdurdodau Lleol a fyddai'n cael eu huno hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig drwy gyd-fynd â ffiniau'r byrddau iechyd a'r heddlu, ac y dylai'r diwygiadau fod yn seiliedig ar uno er mwyn osgoi'r anhwylustod y byddai hollti'r Awdurdodau presennol yn ei greu. Yn unol â'r egwyddorion hyn, dywedodd Gweinidogion Cymru mai eu bwriad oedd y dylai unrhyw Brif Ardal newydd gael ei chreu o ganlyniad i uno dau neu ragor o Brif Ardaloedd cyfan sy'n bodoli eisoes.

14. Er hynny, roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod rhai Prif Awdurdodau Lleol wedi awgrymu y byddai'n well ganddynt drefniadau uno eraill. Nododd Gweinidogion Cymru eu bod yn parhau i fod yn agored i opsiynau eraill posibl, ond y byddai angen i unrhyw gynigion eraill fod yn seiliedig ar

dystiolaeth a chael eu cefnogi gan yr holl Brif Awdurdodau Lleol presennol yr effeithid yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt.

15. Yn ogystal ag amlinellu'r opsiwn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ffafrio ar gyfer yr uno, roedd y Papur Gwyn yn manylu ar y cynllun i gyflwyno rhaglen lawn o uno.

16. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod y byddai gostwng nifer y Prif Awdurdodau drwy broses o uno yn osgoi nifer o'r cymhlethdodau a'r heriau a fyddai ynghlwm wrth ad-drefnu ffiniau, ond ei bod serch hynny yn broses sylweddol i ymgymryd â hi. Mae Gweinidog Cymru o'r farn nad oes digon o amser i ddatblygu, cynllunio a deddfu ar gyfer rhaglen lawn o uno cyn etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016. Felly, yn y Papur Gwyn rhoddwyd manylion am fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Bil drafft i ymgynghori arno yn hydref 2015, a fydd yn amlinellu'r bwriadau ar gyfer uno Prif Awdurdodau Lleol a'r broses ehangach o ddiwygio Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd, yr awdurdodau lleol ac eraill i roi sylwadau ar y cynigion, gan roi cyfle i'r Llywodraeth a fydd yn dechrau ar ei gwaith yng Nghymru ar ôl mis Mai 2016 wneud penderfyniad cynnar am y modd y mae'n dymuno bwrw ymlaen â hyn, a hynny gyda budd cynnig deddfwriaethol datblygedig, a dealltwriaeth lawn o farn rhanddeiliaid.

17. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi a hwyluso'r Prif Awdurdodau Lleol hynny sy'n dymuno dechrau ar broses gynnar wirfoddol o uno, drwy wneud darpariaeth ddeddfwriaethol benodol, drwy'r Bil Llywodraeth Leol cyntaf i gael ei gyflwyno cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

18. Bydd y newid strwythurol sydd ynghlwm ag uno Awdurdodau Lleol yn gofyn am gynllunio trylwyr a gwaith paratoi cynhwysfawr. Felly, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr amser sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwnnw, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylai'r Bil cyntaf ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol gynnwys mesurau sy'n rhagbaratoi ar gyfer y rhaglen ddiwygio ac yn gwneud darpariaeth:
    - I alluogi i rywfaint o waith paratoi gael ei wneud ar gyfer dechrau ar y broses uno cyn gynted â phosibl; ac
    - I roi camau diogelu ar waith i atal neu wrthdroi gwaith gan Awdurdodau Lleol presennol a allai wneud niwed i enw da neu niwed ariannol i'r Prif Awdurdod newydd a gaiff ei greu gan uno yn y dyfodol.

19. Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yw'r cyntaf o'r ddau Fil arfaethedig ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r newidiadau sydd i'w gwneud gan y Bil i alluogi i waith ar Ddiwygio Llywodraeth Leol gael ei wneud.

Awdurdodau Lleol sy'n Uno'n Wirfoddol - Cynigion ar gyfer Uno *(Adrannau 3-10)*

20. Yn unol ag ymrwymiad Gweinidogion Cymru i gynorthwyo Prif Awdurdodau Lleol sy'n dymuno uno'n wirfoddol, mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer uno gwirfoddol cynnar.

21. Mae'r Bil yn darparu'r gallu i Weinidogion Cymru ddiddymu, drwy reoliadau, ddau neu ragor o'r Prif Ardaloedd a'u Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol perthnasol a sefydlu Prif Ardal ac Awdurdod newydd yn eu lle, pan fo'r Prif Awdurdodau Lleol dan sylw wedi cyflwyno cais ar y cyd ar gyfer uno gwirfoddol cynnar.

22. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth o ran y gofynion ar Brif Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chyflwyno cais ar y cyd ar gyfer uno.

23. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi lle canolog i atebolrwydd ac ymgysylltiad effeithiol â'r cyhoedd. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai pob achos o uno gwirfoddol gael ei ddatblygu drwy ymgynghori ac ymgysylltu'n llawn â phobl a chymunedau. Mae'r Bil, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Awdurdodai Lleol sydd am gyflwyno cais i uno'n wirfoddol ymgynghori ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau sy'n cynrychioli staff a gyflogir gan yr Awdurdodau, aelodau o'r Prif Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned mewn ardal y mae'r uno posibl yn effeithio arni, ynghyd â sefydliadau allweddol eraill y gwasanaeth cyhoeddus yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

24. Er mwyn llywio ac arwain y Prif Awdurdodau Lleol sydd am weithio gyda'i gilydd i uno'n gynnar ac yn wirfoddol, dywedodd y Gweinidogion yn y Papur Gwyn eu bod yn bwriadu cyhoeddi canllawiau. Felly, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau am geisiadau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Awdurdodau Lleol ystyried y canllawiau hynny wrth ddatblygu a chyflwyno cais ar y cyd ar gyfer uno gwirfoddol.

25. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau. Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y canllawiau hynny i'r Prif Awdurdodau Lleol ar ffurf 'Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno'n wirfoddol' ("y Prosbectws"). Roedd hwn yn nodi'r wybodaeth y byddai angen i'r Prif Awdurdodau Lleol ei darparu er mwyn dangos eu cynnig i uno.

26. Mae'r Prosbectws yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Awdurdodau Lleol nodi beth y byddai'r uno cynnar arfaethedig yn ceisio ei gyflawni ac mae'n nodi'r materion y mae'n rhaid i'r awdurdodau sy'n uno fynd i'r afael â nhw wrth lunio eu cynnig. Roedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sydd am uno'n wirfoddol fynegi diddordeb wrth Lywodraeth Cymru erbyn 28 Tachwedd 2014. Bydd Gweinidogion Cymru yn ymateb i'r rhain yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Yn amodol ar benderfyniad y Gweinidogion, gall Awdurdodau wedyn ddatblygu a mireinio cynigion manwl i uno i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 30 Mehefin 2015.

27. Yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan y Cynulliad, disgwylir y bydd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2015. Yna, bydd Gweinidogion Cymru wedi'u grymuso i brosesu'n ffurfiol geisiadau gan Awdurdodau Lleol sy'n dymuno uno'n gynnar.

28. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud is-ddeddfwriaeth cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016 er mwyn galluogi Prif Awdurdodau Lleol sy'n dymuno uno'n wirfoddol i wneud hynny'n gyflym, fel bod yr Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu erbyn mis Ebrill 2018. Mae'r amserlen yn hynod o dynn o ran cyflwyno a phasio Bil Llywodraeth Leol (Cymru) a gwneud a chymeradwyo rheoliadau uno cyn i dymor y Cynulliad ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2016 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

29. O ganlyniad, mae'r Bil yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i wneud ceisiadau i uno'n wirfoddol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, ond cyn i'w ddarpariaethau gychwyn, ac mae'n darparu modd i'r ceisiadau hynny gael eu trin fel petaent wedi'u cyflwyno wedi'r cychwyn. Mae'r Bil hefyd yn darparu modd i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â cheisiadau am reoliadau uno gwirfoddol cyn cychwyn y ddarpariaeth berthnasol (h.y. y Prosbectws) gael eu trin fel petaent wedi'u cyhoeddi wedi'r cychwyn. Yn yr un modd, mae gwaith ymgynghori a wneir gan y Prif Awdurdodau Lleol fel rhan o'r cais am uno gwirfoddol hefyd yn cael ei drin fel petai wedi'i gynnal wedi'r cychwyn.

Y Pŵer i Wneud Rheoliadau ar gyfer Uno *(Adran 3)*

30. Pan wneir cais am uno gwirfoddol i Lywodraeth Cymru, bwriad y polisi yw y bydd y Brif Ardal newydd yn cael ei chreu o 1 Ebrill 2018 ymlaen, gan ddiddymu'r Ardaloedd presennol o 31 Mawrth 2018. Felly, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddwyn Prif Awdurdodau Lleol ynghyd drwy eu huno, pan gaiff cais ei wneud ar y cyd i'r Gweinidogion gan y Prif Awdurdodau Lleol sydd am uno'n wirfoddol. Bydd y rheoliadau'n creu Prif Ardal newydd, yn pennu ei statws (fel Sir neu Fwrdeistref Sirol) ac yn creu cyngor ar gyfer yr Ardal newydd. Bydd y rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer diddymu a dirwyn i ben y Prif Ardaloedd presennol a'u Cynghorau a throsglwyddo swyddogaethau i'r Awdurdod newydd.

31. Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r rheoliadau uno i fynd i'r afael â'r holl broblemau a fydd yn codi yn ystod y cyfnod pontio cyn i'r Awdurdod newydd unedig ddod yn weithredol o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth o fewn y rheoliadau uno ar gyfer:

    - sefydlu, cyfansoddiad a swyddogaethau Awdurdodau Cysgodol a'u gweithrediaethau;
    - etholiadau i Awdurdodau newydd;
    - cynnal refferendwm pan fo gan un neu ragor o'r awdurdodau sy'n uno weithrediaeth maer a chabinet; ac

- unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

Awdurdodau Cysgodol *(Adran 7)*

32. Bydd angen gwneud penderfyniadau pwysig cyn i'r Awdurdod unedig newydd ddod i rym er mwyn galluogi'r Awdurdod newydd i weithredu'n effeithiol ac yn gyfreithiol o'r diwrnod cyntaf. Mae'r penderfyniadau allweddol yn cynnwys penodi uwch staff ar gyfer yr Awdurdod newydd, cytuno ar gynlluniau cychwynnol ar gyfer darparu gwasanaethau a phennu'r gyllideb a'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

33. Yn ystod newidiadau strwythurol blaenorol i Lywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr, mae Awdurdod Cysgodol wedi cael ei sefydlu neu ei ethol ar gyfer yr Ardal newydd gyfan yn y flwyddyn cyn i'r Prif Awdurdod Lleol newydd ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Awdurdod Cysgodol yn darparu corff cynrychiadol, sy'n atebol i etholwyr Llywodraeth Leol ar draws yr ardal newydd gyfan ac yn gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol yn enw'r Awdurdod newydd. Bydd yr Awdurdod Cysgodol yn arfer swyddogaethau penodol ac yn gweithio ochr yn ochr â'r cyd-bwyllgor pontio a'r Awdurdodau blaenorol i sicrhau bod y broses o newid i'r strwythur newydd mor llyfn ac effeithiol â phosibl.

34. Mewn prosesau ad-drefnu yn y gorffennol, fel arfer, mae'r Awdurdod Cysgodol wedi cael ei ethol yn y flwyddyn cyn y dyddiad (1 Ebrill) pan fo'r Awdurdod newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau. Mewn achosion o uno gwirfoddol, bydd y Prif Awdurdod Lleol newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Byddai angen i'r trefniadau ar gyfer wardiau etholiadol y Prif Awdurdod Lleol newydd gael eu cwblhau'n llawn cyn etholiadau'r Awdurdod Cysgodol. Byddai'r etholiadau hynny'n cael eu cynnal ym mis Mai 2017, a fyddai'n golygu bod yn rhaid i'r gwaith ar y wardiau etholiadol gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2016. Ni fydd hyn yn bosibl.

35. Felly, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau uno ddarparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Cysgodol, yn cynnwys pob aelod o'r Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno. Mae'r Bil yn galluogi'r Awdurdod Cysgodol i gael ei sefydlu cyn y diwrnod breinio ar gyfer unrhyw awdurdod newydd (y diwrnod pan fo'r Awdurdod newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau), a bydd rheoliadau uno'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodi Gweithrediaeth Gysgodol gan yr Awdurdod Cysgodol.

Etholiadau a Chynghorwyr *(Adran 8)*

36. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, y drefn yw bod etholiadau cyffredin i'r holl Brif Gynghorau a Chynghorau Cymuned yng Nghymru yn cael eu cynnal bob pedair blynedd ar ôl 2004, a'r cynghorwyr yn gwasanaethu am dymor o bedair blynedd. Ym mhob etholiad, mae pob sedd mewn Prif Gyngor yn destun etholiad. Cynhaliwyd etholiadau cyffredin ym mhob Prif Gyngor a Chyngor Cymuned yn 2008 ac ym mhob Prif Gyngor a Chyngor Cymuned, ac eithrio Ynys Môn, yn 2012. Cynhaliwyd etholiadau yn Ynys

Môn yn 2013. Cafodd cynghorwyr yn Ynys Môn eu hethol am dymor o bedair blynedd ac mae'r etholiadau nesaf wedi'u trefnu ar gyfer 2017.

37. O dan y trefniadau presennol, byddai'r etholiadau cyffredin nesaf yn cael eu cynnal ym mhob Awdurdod Lleol, ac eithrio Ynys Môn, yn 2016. Fodd bynnag, mae etholiadau i Senedd y DU bellach yn cael eu cynnal mewn cylch statudol o 5 mlynedd, ac mae'r etholiadau nesaf wedi'u trefnu ar gyfer 2015. Er mwyn osgoi cyd-daro rhwng etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal yn 2016. At hynny, er mwyn osgoi cynnal etholiadau'r Cynulliad ar yr un pryd ag etholiadau cyffredin nesaf Llywodraeth Leol, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, i ohirio'r etholiadau cyffredin sydd wedi'u trefnu ar gyfer 2016 tan 2017, gan ad-drefnu'r etholiadau ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Cafodd y Gorchymyn ei osod gerbron y Cynulliad ar 14/11/2014 a daeth i rym ar 10 Rhagfyr 2014.

38. O dan yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth diwygio Llywodraeth Leol, disgwylir y bydd y Bil hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2015, ac y bydd etholiadau cyffredin ar gyfer Awdurdodau Lleol yn cael eu cynnal 17 mis yn ddiweddarach, ym mis Mai 2017. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru adolygu holl ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd.

39. Ni fyddai'r amserlen bresennol ar gyfer y ddeddfwriaeth uno gwirfoddol yn caniatáu digon o amser i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wneud y gwaith sy'n ofynnol i wneud argymhellion mewn perthynas â'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr Ardaloedd newydd a sefydlir drwy reoliadau uno, cyn i'r cynghorwyr newydd gael eu hethol am y tro cyntaf i'r Prif Awdurdodau Lleol yn etholiadau mis Mai 2017. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru, fel rhan o'r rheoliadau uno, newid amserlenni'r etholiadau i Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol.

40. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ganslo etholiadau cyffredin ar gyfer Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol ac ymestyn tymhorau'r aelodau presennol yn y swyddi; i ddatgymhwyso, am gyfnod cyfyngedig, y gofyniad i lenwi swyddi achlysurol sy'n codi wrth uno Awdurdodau; i bennu dyddiad yr etholiadau cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r Prif Awdurdod Lleol a gaiff eu creu drwy uno gwirfoddol a'u cyfnodau yn y swydd; a'r pŵer i ohirio etholiadau ar gyfer Cynghorau Cymuned mewn Prif Ardaloedd sy'n uno'n wirfoddol. Bydd y gohirio'n golygu bod etholiadau i Gynghorau Cymuned yn gallu cyd-fynd ag etholiadau cyffredin i'r Prif Awdurdod Lleol newydd, fel sy'n digwydd gan amlaf. Y bwriad yw y bydd yr etholiadau cyntaf i'r Awdurdodau a gaiff eu creu drwy uno gwirfoddol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2018.

Awdurdodau â model gweithrediaeth maer a chabinet *(Adran 9)*

41. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Prif Ardaloedd yng Nghymru weithredu un o ddau fodel gweithrediaeth, naill ai arweinydd cyngor â model gweithrediaeth (a elwir yn weithrediaeth arweinydd a chabinet), neu fodel maer a etholir (yn uniongyrchol) a gweithrediaeth (a elwir yn weithrediaeth maer a chabinet). Ar hyn o bryd, mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn dilyn trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys arweinydd a chabinet. Fodd bynnag, mae Deddf 2000 yn rhoi cyfle i'r Prif Awdurdodau Lleol newid eu trefniadau gweithrediaeth, yn ystod tymor etholiadol, i gael Maer a etholir yn uniongyrchol. Os yw un o'r Awdurdodau sy'n rhan o broses arfaethedig o uno'n wirfoddol eisoes yn dilyn, neu wedi gwneud cynigion i ddilyn, model gweithrediaeth maer a chabinet, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cysgodol ar gyfer y Prif Awdurdod Lleol gynnal refferendwm ar draws yr ardal newydd gyfan ynghylch a ddylai'r Prif Awdurdod Lleol newydd ddilyn trefn o weithrediaeth maer a chabinet.

42. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys mewn rheoliadau uno ddarpariaeth sy'n atal Awdurdod sy'n uno rhag llunio a chymeradwyo cynigion i ddilyn trefn o weithrediaeth maer a chabinet, er enghraifft, lle y gallai hyn achosi oedi yn y broses uno.

Darpariaeth ganlyniadol etc. arall *(Adran 10)*

43. Wrth uno, bydd nifer o ystyriaethau manwl i'w gwneud, fel trosglwyddo asedau, trosglwyddo staff, parhau â hawliau a'r rhwymedigaethau, materion yn ymwneud â staff etc. Felly, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnwys, o fewn rheoliadau'r broses uno, unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol.

Awdurdodau Tân ac Achub, goblygiadau canlyniadol *(Adran 10(9))*

44. O dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004"), y Prif Awdurdod yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer ardal.

45. Yng Nghymru, mae tri Awdurdod Tân ac Achub cyfunol rhanbarthol (wedi'u llunio o gyfuniad o'r 22 Prif Awdurdod Lleol) wedi eu sefydlu, yn unol â'r pwerau yn Neddf Gwasanaethau Tân 1947. O ganlyniad, os bydd Prif Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn uno'n wirfoddol, bydd angen diwygio'r gorchymyn cynllun cyfunol Tân ac Achub cyfatebol i adlewyrchu'r newid. Pe bai Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno'n wirfoddol yn dod o fewn yr un ardal Awdurdod Tân ac Achub, y cyfan y byddai'r newidiadau i'r cynllun cyfunol yn ei olygu fyddai cyfnewid enwau'r hen Awdurdodau Lleol am enw'r Awdurdod newydd. Ni fyddai'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth gwasanaethau tân ac achub.

46. Ond pe bai Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno yn croesi ffin Awdurdod Tân ac Achub, byddai angen i'r ardal newydd gyfan gael ei gosod yn naill ai un ardal Awdurdod Tân ac Achub neu'r llall: nid yw'n bosibl nac yn synhwyrol i un Awdurdod Lleol gael ei wasanaethu gan ddau Awdurdod Tân ac Achub. Mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2004 i amrywio neu

ddiddymu gorchmynion cynllun cyfunol presennol yn destun cyn-ymgynghoriad â'r Prif Awdurdodau Lleol a'r Awdurdodau Tân ac Achub hynny yr effeithir arnynt o bosibl. Mae Deddf 2004 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal i'r amrywiad arfaethedig i orchymyn cynllun cyfunol, pan nad yw'r Prif Awdurdodau Lleol a'r Awdurdodau Tân ac Achub yr effeithir arnynt yn cytuno â'r amrywiad arfaethedig. Mae'n bosibl y gallai Awdurdod cyfagos, a allai gael ei effeithio'n anuniongyrchol gan y newid, wrthwynebu, a byddai angen cynnal ymchwiliad. Gallai unrhyw ymchwiliad fel hyn achosi oedi mawr yn y broses o wneud diwygiadau i'r gorchymyn cyfunol ac felly oedi yn y broses uno ei hun. Mae'n bosibl y gallai'r Awdurdodau hynny sy'n gwrthod cytuno ar yr amrywiadau wneud hynny gyda'r bwriad o rwystro neu oedi'r rhaglen uno.

47. Er mwyn osgoi'r risgiau hyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i atal y gofyniad ar Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad i ddiddymu neu ddiwygio'r gorchymyn cynllun cyfunol Tân ac Achub pan fo'r newidiadau arfaethedig yn dod o ganlyniad i uno gwirfoddol. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd i ymgynghori ar y newidiadau hyn yn dal i fod yn gymwys.

Pwyllgorau Pontio *(Adrannau 11-15)*

48. Mewn prosesau ad-drefnu blaenorol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru, bu gofyn sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol i ystyried materion pontio a chynghori'r Prif Awdurdodau Lleol oedd yn uno. Mae profiad blaenorol yn dangos bod y pwyllgorau hyn wedi gwneud gwaith gwerthfawr, ond y gallent fod wedi bod yn fwy defnyddiol pe baent wedi'u sefydlu ar sail statudol yn gynt yn y broses.

49. Felly, mae'r Bil yn gofyn ar i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Awdurdodau Lleol sydd wedi eu nodi ar gyfer uno, boed hynny'n wirfoddol neu fel arall, sefydlu pwyllgor pontio (un i bob Prif Ardal newydd arfaethedig). Rôl y pwyllgor pontio yw paratoi ar gyfer sefydlu Awdurdodau newydd drwy wneud gwaith paratoi (rhoddir manylion mewn canllawiau), yn ogystal ag ystyried unrhyw beth arall y mae'r pwyllgorau'n ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd y Prif Awdurdod Lleol yn gallu gweithio'n effeithiol o'r diwrnod y mae'n ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol.

50. Er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod paratoadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cyfnod pontio, mae'r Bil hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i bwyllgor neu bwyllgorau pontio, a rhaid i bwyllgor pontio gydymffurfio â'r cyfarwyddydau hynny.

51. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer y diben cyffredinol, aelodaeth, cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgor pontio. Mae'n ofynnol i Awdurdodau sy'n uno dalu costau pwyllgor pontio yn y cyfrannau y maent yn cytuno iddynt neu, os na cheir cytundeb, y cyfrannau y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu arnynt. Rhaid i awdurdodau sy'n uno hefyd ddarparu'r cyfleusterau a'r adnoddau (gan gynnwys staff) a

gwybodaeth y mae pwyllgor pontio'n gofyn amdani yn rhesymol er mwyn ymgymryd â'i swyddogaethau. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â phwyllgorau pontio yn gymwys ym mhob achos o uno, boed hynny i'w gyflawni drwy reoliadau uno gwirfoddol neu ei nodi gan ddarpariaeth yn yr ail Fil arfaethedig sydd i'w gyflwyno yn 2016.

Trefniadau etholiadol etc. ar gyfer prif ardaloedd newydd *(Adrannau 16-24)*

52. Caiff strwythur a swyddogaethau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eu nodi yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

53. Rôl y Comisiwn yw adolygu pob ardal Llywodraeth Leol yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd.

54. Fel rhan o'r rôl hon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob Prif Ardal yng Nghymru o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Ar gyfer pob adolygiad a gynhelir, mae'n ofynnol iddo gyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru fel y gwêl yn briodol, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt am weithredu'r argymhellion hynny ai peidio. Os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno gweithredu'r argymhellion, gydag addasiadau neu hebddynt, rhaid iddynt wneud hynny drwy orchmynion trefniadau etholiadol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â chymryd camau ar argymhellion y Comisiwn, ni fydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer yr ardal.

55. Fel rhan o unrhyw adolygiad o drefniadau etholiadol mae'r Comisiwn yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar gyfanswm nifer y cynghorwyr i'w hethol i'r Cyngor ar gyfer Prif Ardal; nifer y wardiau etholiadol y bydd y Brif Ardal yn cael eu rhannu iddynt at ddibenion ethol cynghorwyr, a ffiniau'r wardiau hynny; a yw'r wardiau etholiadol yn mynd i fod yn wardiau unigol neu'n wardiau amlaelod (gan gynnwys nifer yr aelodau ar gyfer pob ward amlaelod); ac enw pob ward etholiadol.

56. Fel rhan o'r rhaglen arfaethedig ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob un o'r Prif Ardaloedd newydd a gaiff eu creu drwy uno. Mae'r agweddau ymarferol ar gynnal yr adolygiadau hyn - sy'n cynnwys gwneud ymchwil, ymgynghori ar gynigion drafft a chwblhau argymhellion, ynghyd â gweithredu unrhyw argymhellion gan Weinidogion Cymru - yn golygu bod yr amserlen safonol ar gyfer cwblhau'r broses adolygu gyfan yn gallu bod yn 27 mis o leiaf.

57. Yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, ni all Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ond cynnal adolygiadau o Brif Ardaloedd sydd eisoes wedi'u sefydlu gan statud. Mae hyn yn golygu na fyddai'r Comisiwn yn gallu dechrau cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol Prif Ardaloedd newydd tan i'r ddeddfwriaeth i sefydlu'r ardal newydd gael ei phasio gan y Cynulliad.

58. Mae hyn, ynghyd â'r amser sydd ei angen i gwblhau adolygiadau, yn golygu y byddai angen i Weinidogion Cymru ganiatáu tua 2 flynedd rhwng gwneud y ddeddfwriaeth ar gyfer creu'r Prif Awdurdodau Lleol newydd a chynnal yr etholiadau cyntaf i'r Awdurdodau hyn. O dan yr amserlen bresennol, rhagwelir y bydd yr etholiadau cyntaf i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd a gaiff eu creu drwy uno gwirfoddol, yn cael eu cynnal ym mis Mai 2018, ac ni fyddai modd cadw at yr amserlen hon o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

59. Er mwyn galluogi pob Cyngor newydd a gaiff ei greu gan y rhaglen uno i gael ei sefydlu ar sail trefniadau etholiadol a luniwyd gan y corff a sefydlwyd at y diben, mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i'w galluogi i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, drwy gyfarwyddyd, adolygu a gwneud argymhellion mewn perthynas â threfniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardal newydd a gaiff ei sefydlu trwy gyfrwng deddfwriaeth ddilynol (naill ai rheoliadau uno neu Ddeddf bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru). Wrth gynnal yr adolygiadau hynny, mae'n rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru roi sylw i'r un ystyriaethau ag sy'n ofynnol ar hyn o bryd wrth gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol y Prif Ardaloedd presennol.

60. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer amseriad a threfniadaeth adolygiad; y materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried; ac ar gyfer adrodd ar ei argymhellion wrth Weinidogion Cymru. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar yr adolygiad, gydag addasiadau neu hebddynt.

61. Mae'r Bil hefyd yn galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau penodol ar lefel gymunedol, ond dim ond pan fo'r newidiadau hynny'n deillio'n gyfan gwbl o'r argymhellion ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer y Brif Ardal newydd arfaethedig. Bydd yn rhaid i ystyriaethau ar gyfer unrhyw newidiadau eraill ar lefel gymunedol aros tan yr adolygiad cymunedol nesaf.

62. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn sefyllfa i roi adroddiad ac argymhellion i Weinidogion Cymru o fewn yr amserlen a roddir gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd. Gallai'r sefyllfa hon arwain at oedi yn y rhaglen uno. Felly mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau etholiadol mewn Prif Ardal arfaethedig. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddo a allai lywio'r broses o wneud y rheoliadau hyn. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau hyn, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal ei adolygiad cyntaf o'r Brif Ardal newydd, o dan adran 29 o Ddeddf

Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r Prif Awdurdod Lleol newydd.

63. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol pob Prif Awdurdod Lleol o fewn cylch adolygu o ddeng mlynedd, gan ddechrau yn 2013. Fodd bynnag, bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer uno Llywodraeth Leol yn peri bod angen i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol ar gyfer pob un o'r Prif Ardaloedd newydd arfaethedig fel bod yr holl etholiadau cyntaf ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd wedi'u cynnal erbyn mis Mai 2019. Dylai'r cylch adolygu deng mlynedd nesaf ddechrau ar ôl i'r adolygiadau cychwynnol ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd gael eu cwblhau a phan fo'r trefniadau ar waith. Felly, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i newid (h.y. ailosod) yr amserlen ar gyfer y cyfnod adolygu.

Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol etc. ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol Newydd *(Adrannau 25-27)*

64. Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") yn 2007. Ei ddiben yn wreiddiol oedd pennu ystod a lefel y lwfansau sy'n daladwy gan Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol i'w haelodau etholedig, ac i'w haelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gwnaed darpariaeth ar gyfer parhau â'r Panel, estynnwyd ei gylch gwaith i gynnwys aelodau o Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, a phennwyd cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Panel.

65. Mae'r Panel yn gyfrifol am nodi'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n gwneud aelodau o gyngor yn gymwys i gael taliadau ac i nodi'r mathau o daliadau i'w gwneud, er enghraifft y taliad cyflog sylfaenol i aelodau etholedig neu amrywiaeth o uwch-gyflogau sy'n daladwy i arweinwyr y cynghorau. Mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am bennu naill ai swm gwirioneddol y taliad y mae'n rhaid i Awdurdod wneud i aelod, neu'r lefel uchaf o daliad y gellid ei dalu. Gall y Panel bennu gwahanol symiau o dâl ar gyfer gwahanol rolau mewn gwahanol Awdurdodau. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i'r Panel gyhoeddi manylion yr amrywiol daliadau mewn adroddiad blynyddol. Gall y Panel hefyd gyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol a all amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol. Cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol, rhaid anfon fersiwn ddrafft at Weinidogion Cymru i'w hystyried. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddydau i ailystyried darpariaeth yn yr adroddiad drafft, ac mae'n rhaid i'r Panel eu hystyried; os yw'r Panel yn penderfynu peidio â newid y drafft yn unol â chyfarwyddyd, mae'n rhaid iddo ymateb gan roi rheswm dros ei benderfyniad.

66. Fel rhan o'r cynnig i sefydlu Prif Awdurdodau Lleol newydd, bydd y Panel yn gyfrifol am ystyried a phennu'r amrywiol daliadau i aelodau'r

Awdurdodau newydd hyn. Fodd bynnag, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Panel wedi'i gyfyngu i wneud penderfyniadau ar gyfer y Prif Ardaloedd a'u Cynghorau pan fo'r Brif Ardal a'r Cyngor eisoes wedi'u sefydlu gan statud.

67. Felly, mae'r Bil yn darparu y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Panel ystyried a gwneud penderfyniadau o ran taliadau i aelodau Prif Awdurdod Lleol newydd arfaethedig cyn i'r Awdurdod newydd hwnnw ddod i rym o dan y ddeddfwriaeth. Gall cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru gael ei amrywio neu ei ddiddymu ar unrhyw adeg gan gyfarwyddyd dilynol. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau y mae rhaid i'r Panel roi sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan delerau'r cyfarwyddyd.

68. Fel y nodir uchod, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Awdurdod Cysgodol, mewn perthynas ag uno Awdurdodau'n wirfoddol. Caiff darpariaeth ei gwneud yn yr ail Fil Llywodraeth Leol ar gyfer sefydlu Awdurdodau Cysgodol i Awdurdodau a gaiff eu huno o dan y Bil hwnnw. Bydd gan yr Awdurdod Cysgodol gyfrifoldeb dros nifer o swyddogaethau paratoadol allweddol cyn i'r Prif Awdurdod Lleol ysgwyddo'n ffurfiol yr ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol ar y diwrnod breinio. Bydd gan Awdurdodau Cysgodol rôl allweddol i'w chwarae yn y broses uno. Felly, mae'r Bil hwn yn edrych i'r dyfodol ac yn gwneud darpariaeth, drwy gyfarwyddyd, i alluogi'r Panel i wneud penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw daliadau i aelodau'r Awdurdodau Cysgodol, pan fyddant wedi ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol. Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys mewn perthynas â phob Awdurdod Cysgodol, p'un a ydynt wedi'u sefydlu'n unol â rheoliadau uno o dan y Bil hwn neu ar gyfer Prif Awdurdod newydd yn unol â darpariaeth yn yr ail Fil.

69. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am daliadau i gynghorwyr mewn Awdurdod Cysgodol yn cael eu gwneud mewn da bryd cyn y diwrnod breinio, a'r diwrnod pan fydd y taliadau'n weithredol, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyhoeddi ei ganfyddiadau mewn adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol ac yn darparu amserlen ar gyfer eu cyhoeddi.

70. Wrth gynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau am daliadau i aelodau o Awdurdodau Cysgodol, mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar y Panel i osod gofynion ar gyfer osgoi dyblygu taliadau sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau. Felly, wrth wneud penderfyniadau am daliadau mewn perthynas ag aelodau o Awdurdodau Cysgodol, byddai'n rhaid i'r Panel ystyried a yw'r aelodau hynny hefyd yn aelodau sy'n gwasanaethu un o'r Awdurdodau presennol sy'n rhan o'r broses uno arfaethedig.

Datganiad Polisi Tâl *(Adran 28)*

71. Mae profiad o newidiadau strwythurol blaenorol ym maes Llywodraeth Leol wedi arwain at Weinidogion yn cyflwyno darpariaethau i atal Awdurdodau Lleol rhag gweithredu'n amhriodol mewn perthynas â pholisïau tâl a thaliadau cyn uno.

72. O dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae'n ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol baratoi, cymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl yn flynyddol. Mae'n rhaid i Ddatganiad Polisi Tâl egluro polisïau'r cyngor ei hun ar amrywiaeth o faterion mewn perthynas â thâl ei weithlu, yn arbennig ei brif swyddogion a'r gweithwyr sy'n cael eu talu leiaf. Mae'n ofynnol i Ddatganiad Polisi Tâl pob Prif Awdurdod Lleol gael ei ystyried a'i gymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn sy'n agored i'r cyhoedd. Rhaid i'r datganiadau cymeradwy ar bolisi tâl gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar unrhyw ffurf arall sy'n briodol ym marn y Cyngor.

73. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cysgodol baratoi a chymeradwyo Datganiad Polisi Tâl a fydd yn gymwys i'r Awdurdod Cysgodol a'r Prif Awdurdod newydd yn eu blwyddyn weithredol gyntaf. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pontio, a sefydlir gan yr Awdurdodau sy'n uno, wneud a chyhoeddi argymhellion ar gyfer yr Awdurdod Cysgodol ar y Datganiadau Polisi Tâl sydd i'w paratoi a'u cymeradwyo ganddynt. Mae penodi prif swyddogion gan Awdurdod Cysgodol wedi'i wahardd tan i'r Datganiad Polisi Tâl gael ei gymeradwyo. Dylai estyn gweithdrefnau mewn perthynas â Datganiad Polisi Tâl roi sicrwydd sylweddol na allai Cynghorau presennol roi codiad cyflog anghyfrifol i'w huwch-swyddogion na'u hailraddio mewn modd amhriodol cyn y broses uno.

Cyfyngiadau ar Drafodion gan Awdurdodau sy'n Uno *(Adrannau 29-32)*

74. Pan wnaethpwyd newidiadau strwythurol yn y gorffennol ym maes Llywodraeth Leol, cafwyd gwrthwynebiad gan nifer o randdeiliaid allweddol a oedd, drwy amrywiol ffyrdd fel gwrthod ymgysylltu a gwrthod rhannu gwybodaeth, yn llesteirio'r gwaith o gydgynllunio'n effeithiol ar gyfer y cyfnodau yn ystod ac ar ôl y newidiadau.

75. Mae Gweinidogion Cymru am sicrhau bod y cyfnodau cyn pob proses uno yn ddidrafferth, yn adeiladol ac mor gynhyrchiol â phosibl. Gall y cyfnodau hyn gael eu defnyddio'n effeithiol gan randdeiliaid perthnasol i wneud paratoadau cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod pontio i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd, a'r broses o'u sefydlu. I'r perwyl hwnnw, mae Gweinidogion Cymru am annog ymddygiad positif a gochel rhag gwahanol ymddygiadau negyddol posibl a allai darfu ar y broses uno.

76. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gyfle i ymddwyn yn negyddol a niweidiol, a hynny mor gynnar ag y modd yn y broses. Mae'n cyflwyno gweithdrefnau lle mae'n rhaid i Brif Awdurdod Lleol sy'n uno ac sy'n cynnig prynu neu werthu tir neu adeiladau, sy'n mynd i gontract neu gytundebau, neu sy'n rhoi unrhyw gymorth ariannol, yn fwy na rhai symiau ym mhob achos, yn gyntaf ofyn barn y pwyllgor pontio perthnasol, lle nad oes Awdurdod Cysgodol wedi'i sefydlu eto. Pan fydd Awdurdod Cysgodol wedi'i sefydlu nid oes gofyniad i ofyn barn y pwyllgor pontio. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar weithrediad y darpariaethau hyn y mae rhaid i Awdurdodau sy'n uno, Awdurdodau Cysgodol a phwyllgorau pontio roi sylw iddynt.

Gofynion Gwybodaeth *(Adrannau 33-34)*

77. Oherwydd yr anawsterau a oedd ynghlwm wrth newidiadau strwythurol blaenorol, a'r potensial i randdeiliaid darfu ar y broses uno drwy ddal gwybodaeth yn ôl, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Brif Awdurdod Lleol sicrhau bod unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn berthnasol i broses uno arfaethedig mewn perthynas â'r Awdurdod dan sylw, yn cael ei rhoi i'r Gweinidogion.

78. Er mwyn hwyluso'r broses uno drwy fod yn agored a thryloyw a thrwy rannu gwybodaeth, mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Brif Awdurdod Lleol sy'n uno sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r broses uno arfaethedig ar gael i'r Prif Awdurdod Lleol arall sy'n rhan o'r broses uno honno, i'r pwyllgor pontio a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r uno, ac i'r Awdurdod Cysgodol ar gyfer y Brif Ardal newydd.

Estyniad dros dro i swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â Phenaethiaid Gwasanaethau i Brif Swyddogion *(Adrannau 35-36)*

79. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"), caiff y Panel wneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw bolisi yn Natganiad Polisi Tâl Cyngor sy'n ymwneud â chyflog, neu unrhyw newid arfaethedig i gyflog, pennaeth gwasanaeth cyflogedig (Prif Weithredwr) Prif Awdurdod Lleol. Mae Mesur 2011 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Awdurdodau Lleol ymgynghori â'r Panel ar unrhyw newid arfaethedig i gyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig nad yw'n gymesur â'r newid yng nghyflog aelodau eraill ei staff, ac i roi sylw i unrhyw argymhellion gan y Panel wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig ai peidio.

80. Dylai'r ddeddfwriaeth bresennol ddarparu dulliau amddiffyn sylweddol i gyfyngu ar y risg y gallai Cynghorau presennol weithredu mewn modd amhriodol mewn perthynas â dyfarniadau cyflog i benaethiaid gwasanaeth cyflogedig cyn uno. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu camau diogelu ychwanegol drwy ehangu ar gyfrifoldebau presennol y Panel mewn perthynas â phenderfyniadau yn ymwneud â phenaethiaid gwasanaethau cyflogedig, i gynnwys pob prif swyddog mewn Cyngor tan 31 Mawrth 2020. Mae'r cyfrifoldeb estynedig hwn yn berthnasol i bob Prif Awdurdod Lleol yng Nghymru, nid dim ond y rheini a nodwyd ar gyfer uno, boed hynny'n wirfoddol ai peidio.

81. Mae estyn cyfrifoldebau'r Panel i gynnwys penderfyniadau am holl brif swyddogion Cyngor tan 31 Mawrth 2020, yn golygu cynnydd sylweddol yn llwyth gwaith y Panel. Ar hyn o bryd mae Mesur 2011 yn cyfyngu ar faint y Panel i 5 aelod; h.y. nifer yr aelodau ar hyn o bryd. Er mwyn ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n ofynnol gan Fil Llywodraeth Leol (Cymru), bydd angen cynyddu maint y Panel. Felly mae'r Bil hefyd yn diwygio Mesur 2011, i gynyddu maint y Panel i 6 aelod. Mae hefyd yn rhoi pŵer i

Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid nifer yr aelodau ar y Panel, i adlewyrchu newidiadau yn llwyth gwaith y Panel yn y dyfodol.

Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Arall *(Adrannau 37-38)*

82. Mae Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle a roddir gan y Bil i wneud nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol sy'n ofynnol er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'n effeithiol y darpariaethau perthnasol dan sylw. Caiff y rhain eu disgrifio isod.

Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na lwyddodd i gael eu hethol yn gynghorwyr *(Adran 37)*

83. Mae Mesur 2011 yn darparu ar gyfer arolwg i fonitro amrywiaeth ymysg cynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr na lwyddodd i gael eu hethol yn gynghorwyr. Mae Mesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Awdurdod gynnal yr arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin i Gyngor y Prif Awdurdod Lleol a Chynghorau Cymuned yn ei ardal ac yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ganiatáu i gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus ddarparu gwybodaeth yn ddienw. Nid yw'n ofynnol i gynghorwyr ymateb i'r arolwg, ond mae'n rhaid i'r Prif Awdurdodau Lleol ddarparu'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg i Weinidogion Cymru o fewn 6 mis ar ôl yr etholiad, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru greu adroddiad ar yr arolwg o fewn 6 mis arall.

84. Ym mis Mehefin 2013, sefydlodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, Lesley Griffiths AC, Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol. Cafodd y Grŵp y dasg o adolygu canlyniadau'r arolwg cychwynnol o ymgeiswyr o etholiadau cyffredin 2012, a gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r broses. Un o'r argymhellion hynny gan y Grŵp, a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru, oedd caniatáu i'r arolwg gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr cyn yr etholiadau, a oedd yn golygu bod modd i'r arolwg ddechrau cyn i'r etholiadau gael eu cynnal. Felly, mae'r Bil yn diwygio Mesur 2011, yn unol â'r argymhellion hyn, i ddileu'r gofyniad ar Brif Awdurdod Lleol i gynnal yr arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin. Bydd hyn yn golygu bod Prif Awdurdod Lleol yn rhydd i gynnal yr arolwg naill ai ar ôl etholiad cyffredin, neu drwy ofyn i ymgeiswyr gwblhau'r arolwg cyn etholiad.

85. O ganlyniad i'r newid hwn, mae'r Bil yn diwygio Mesur 2011 mewn perthynas â'r darpariaethau yn yr arolwg o ran bod yn anhysbys. Mae'r gofyniad o dan Fesur 2011 i gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn golygu bod gwaith dadansoddi ar wahân yn cael ei gynnal ar ymgeiswyr aflwyddiannus ac ymgeiswyr llwyddiannus mewn etholiad. Ar hyn o bryd, yn ymarferol, mae ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn cael ffurflenni gwahanol, fel bod modd gwahaniaethu rhyngddynt. Mae hyn yn golygu bod modd gwneud y gwaith dadansoddi gan ganiatáu i'r ymatebion fod yn ddienw o hyd. Fodd bynnag, pe bai ymgeiswyr sy'n cwblhau'r arolwg cyn etholiadau yn cael darparu ymateb yn ddienw, ni fyddai'n bosibl gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr llwyddiannus ac ymgeiswyr aflwyddiannus a darparu'r dadansoddiad hwnnw.

86. Mae'r Bil, felly, yn gwneud darpariaeth i ddiwygio Mesur 2011 i ddileu'r gofyniad i drefnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n ddienw. Fodd bynnag, parheir â'r gofyniad ym Mesur 2011 bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a ddaw i law beidio â chael ei chyhoeddi na'i rhannu ar unrhyw ffurf sy'n golygu bod modd adnabod unigolyn. Mae hefyd yn dal yn fwriad gan Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth ddienw gael ei dychwelyd atynt gan y Prif Awdurdodau Lleol ac i ganlyniadau'r arolwg gael eu cyhoeddi'n ddienw.

87. Roedd y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol hefyd wedi argymell y dylai Awdurdod Lleol allu cyflawni ei ddyletswydd i gynnal arolwg naill ai drwy gynnal yr arolwg ei hun neu drwy drefnu i'r arolwg gael ei gynnal ar ei ran gan rywun arall. Yn unol â hynny, mae'r Bil yn diwygio Mesur 2011 i ddarparu y caiff Awdurdod Lleol gynnal yr arolwg neu drefnu i'r arolwg gael ei gynnal ar ei ran.

Cynigion a gyflwynwyd cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gychwyn *(Adran 38)*

88. Yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cafodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ei ailenwi'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Y bwriad oedd y byddai adran 74 o Ddeddf 2013 yn caniatáu i unrhyw adolygiadau ac adroddiadau a gynhaliwyd eisoes gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru cyn i'r Ddeddf gael ei phasio, gael eu harbed, ac i argymhellion yr adolygiadau hynny gael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru drwy orchmynion, er mwyn atal Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru rhag gorfod ailddechrau adolygiadau sydd wedi'u gwneud yn rhannol, neu ail-gynnal adolygiadau sydd wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, nodwyd y gallai geiriad presennol adran 74 arwain at anawsterau wrth wneud gorchmynion i gyflwyno argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae'r geiriad presennol yn cyfyngu'r broses o ystyried adroddiadau, ac o roi rheoliadau ar waith wedi hynny, i'r adroddiadau hynny lle'r oedd adolygiadau wedi cychwyn, ond heb eu cwblhau, erbyn i Ran 3 o Ddeddf 2013 ddod i rym (30 Medi 2013). Nid yw felly'n cynnwys yr adolygiadau hynny a oedd wedi'u cychwyn a'u cwblhau erbyn hynny.

89. Er mai'r bwriad polisi y tu ôl i'r ddeddfwriaeth oedd caniatáu i adroddiadau sydd wedi'u cwblhau'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gael eu harbed, ac i argymhellion gael eu gweithredu'n hwyrach, gallai geiriad y ddarpariaeth olygu bod lle i herio proses o weithredu adolygiad sydd wedi'i gwblhau. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ddiwygio Adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 er mwyn estyn y ddarpariaeth arbed i gynnwys adolygiadau a gwblhawyd erbyn 30 Medi 2013. Byddai hynny'n dileu unrhyw ansicrwydd cyfreithiol ac yn cael gwared ar unrhyw amheuaeth bod y gallu gan Weinidogion Cymru i weithredu argymhellion adolygiadau sydd wedi'u cychwyn ac wedi'u cwblhau.

Darpariaethau eraill *(Adrannau 39-41)*

90. Mae darpariaethau eraill y Bil yn rhoi manylion y gweithdrefnau ar gyfer gwneud y rheoliadau, y dehongliadau a ddefnyddir a'r cyfnodau cychwyn ar gyfer darpariaethau.

4. Ymgynghori

91. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon â'n partneriaid wrth lunio deddfwriaeth. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, ar 8 Gorffennaf 2014 cyhoeddodd yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Bapur Gwyn o'r enw "Diwygio Llywodraeth Leol". Gallwch weld copi yn:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy

92. Prif ddiben y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol oedd nodi cynigion ar gyfer Bil (y Bil hwn), i'w gyflwyno yn Ionawr 2015 i fraenaru'r tir ar gyfer rhaglen o uno a diwygio Awdurdodau Lleol. Dechreuodd y Papur Gwyn nodi gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r tu hwnt. O ran y Bil hwn, roedd y Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer uno gwirfoddol a chynnar rhwng Prif Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Roedd hefyd yn cynnwys cynigion i alluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ymgymryd â'u swyddogaethau (hy adolygu trefniadau etholiadol a thâl a phensiynau aelodau cynghorau) mewn perthynas ag Awdurdodau newydd arfaethedig, p'un a ydynt yn cael eu creu drwy gyfrwng uno gwirfoddol neu beidio. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn nodi cynigion ar gyfer camau diogelu i atal a rhwystro gweithgareddau gan Brif Awdurdodau Lleol presennol a allai wneud niwed i enw da unrhyw Brif Awdurdod Lleol sy'n cael ei greu gan uniad yn y dyfodol neu beri niwed ariannol iddo Ymgynghorwyd yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos a ddaeth i ben ar 1 Hydref 2014. Daeth 170 o ymatebion i law gan y mathau canlynol o sefydliadau. O'r rhain, daeth 15 i law ar ôl y dyddiad cau, ond mae'r sylwadau wedi cael eu hystyried lle y bo'n bosibl.

Math o Ymatebydd	**Nifer**	**%**
Cynghorau Cymuned a Thref	62	36
Aelod o'r cyhoedd	25	15
Asiantaeth Llywodraeth / Sector Cyhoeddus arall	20	12
Cyrff Proffesiynol a Chymdeithasau	13	8
Cyngor Sir / Cyngor Bwrdeistref Sirol	11	6
Grŵp / Plaid Wleidyddol	8	5
Aelod Etholedig	7	4
Arall	7	4
Trydydd Sector	6	3.5
Undeb Lafur	6	3.5
Corff Cynrychiolwyr Llywodraeth Leol	3	2
Busnes	2	1
Pob ymatebydd	**170**	**100**

93. Nid yw'r holl gynigion a drafodwyd yn y Papur Gwyn yn cael eu rhoi ar waith yn y Bil hwn. Roedd llawer o'r cynigion yn ymwneud â pholisïau nad oes angen cyflwyno deddfwriaeth newydd i'w rhoi ar waith, neu sy'n ymwneud â deddfwriaeth arfaethedig ar gyfer ail Fil a fydd yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer uno a diwygio Llywodraeth Leol – proses y mae'r Bil hwn yn braenaru'r ffordd ar ei chyfer.

94. Mae'r adran isod yn amlinellu'r cynigion yn y Papur Gwyn nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil hwn:

- Diwygio Llywodraeth Leol - Cryfhau democratiaeth, cynnal a gwella gwasanaethau;
- Sut mae gwneud Llywodraeth Leol yn fwy atebol a thryloyw? – Democratiaeth a Chraffu;
- Craffu a Llywodraethu - Awdurdodau Tân ac Achub;
- Sut y gallwn ni roi llais cryfach i bobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt? – Llywodraethu Cymunedol;
- Cydweithio mewn Partneriaeth;
- Trefniadau Partneriaeth Cenedlaethol;
- Sut mae sicrhau bod perfformiad Llywodraeth Leol yn gwella ac yn parhau i wella?
- Gwaredu eiddo ac asedau;
- Materion staffio;
- Cyllid Llywodraeth Leol.

95. Gallwch weld adroddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy

96. Yn yr ymgynghoriad, rhoddwyd cyfle i unigolion roi sylwadau ar ddatganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyn yn ceisio barn am y weledigaeth a oedd wedi'i hamlinellu ynddo ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru, a sut y gellid datblygu'r weledigaeth hon ymhellach yn y dyfodol. Er bod cyfle i roi sylwadau ar y cynigion ar gyfer creu deddfwriaeth yn y Bil hwn, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn ymwneud yn bennaf â'r materion uno a diwygio ehangach a gynhwysir yn y Papur Gwyn a'r cynigion polisi hynny y gellid eu cyflwyno o dan yr ail Fil sydd i'w gyflwyno yn 2016.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

97. Ceir darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 i wneud is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddydau a phenderfyniadau, a chyhoeddi canllawiau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, penderfyniadau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn:

a. yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
b. ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
c. priodoldeb y pŵer dirprwyedig; a
d. y weithdrefn Cynulliad a gymhwysir (cadarnhaol neu negyddol) os o gwbl, ynghyd â'r rheswm pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

98. Er mwyn helpu i ddeall sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, mae Datganiad o Fwriad y Polisi wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil.

5.1 Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 3(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru osod dyddiad amgen ar gyfer derbyn ceisiadau uno gwirfoddol ffurfiol yn y dyfodol.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Manylyn gweithdrefnol yw pwnc y rheoliadau. Pŵer disgresiynol yw hwn ac, os bydd gofyn, mae'n debygol y bydd angen defnyddio'r pŵer ar frys i fynd i'r afael ag oedi o ran rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Bil er enghraifft. Bydd ceisiadau uno o'r fath yn rhai gwirfoddol ac mae'r weithdrefn yn ceisio hwyluso'r broses wirfoddol hon.
Adran 6(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i geisiadau gan Brif Awdurdodau sy'n dymuno uno'n gynnar ac yn wirfoddol. Yn hwyluso darpariaeth ddeddfwriaethol sydd wedi'i haddasu i'r amgylchiadau penodol ynghylch cynnig i uno.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau uno yn rhoi pwerau sylweddol pellach i Weinidogion Cymru ac mae'n briodol bod y rheoliadau'n cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn. Fodd bynnag, ni chaiff y rheoliadau ond eu gwneud i wireddu ewyllys y Prif Awdurdodau sy'n uno a thrwy gymeradwyaeth eu Cynghorau. Hefyd, bydd ymgynghoriad estynedig yn cael ei gynnal ar y cais ffurfiol gan yr Awdurdodau hynny.
Adran 10(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth cymhwyso cyffredinol at ddibenion rheoliadau uno (o dan adran 6) neu ddod â rheoliadau o'r fath i rym.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau cymhwyso cyffredinol yn rhoi pwerau sylweddol pellach i Weinidogion Cymru ac mae'n briodol bod y rheoliadau'n cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn. Fodd bynnag, byddai unrhyw reoliadau o'r fath yn cael eu gwneud i

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					gefnogi rheoliadau uno, a fyddai'n cael eu gwneud dim ond i wireddu ewyllys y Prif Awdurdodau sy'n uno a thrwy gymeradwyaeth eu Cynghorau.
Adran 10(10)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio rheoliadau uno (a wneir o dan adran 6) neu i amrywio neu ddirymu rheoliadau sy'n cael eu cymhwyso'n gyffredinol (a wneir o dan adran 10(2)) at ddiben rheoliadau uno neu i roi effaith i reoliadau o'r fath.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau sy'n amrywio rheoliadau uno neu sy'n amrywio neu'n dirymu rheoliadau sy'n cael eu cymhwyso'n gyffredinol yn cyflwyno pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru. Mae'n briodol bod y rheoliadau'n dilyn yr un weithdrefn â'r rheoliadau y byddent yn eu hamrywio / dirymu, ac felly'n cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn. Byddai rheoliadau o'r fath, er hynny, yn cael eu gwneud yn unig i gefnogi rheoliadau uno a fyddai, yn eu tro, yn cael eu gwneud yn unig i roi effaith i ewyllys y Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno a chyda chymeradwyaeth eu Cynghorau.
Adran 11	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i sefydlu pwyllgor pontio (un i bob Prif Ardal newydd arfaethedig) gan Brif Awdurdodau sy'n uno o dan reoliadau uno neu o dan ddarpariaethau mewn Bil a gyflwynir i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu Ddeddf sy'n cael ei phasio gan y	Cadarnhaol	Mae hyn yn swyddogaeth bwysig i Weinidogion Cymru ac mae'n briodol bod y rheoliadau'n cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Cynulliad Cenedlaethol, i hwyluso gwaith paratoi cynnar ar gyfer uno.		
Adran 22(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi ar waith (o'u haddasu neu beidio) argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â threfniadau etholiadol ar gyfer darpar Brif Ardaloedd.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cael eu cyfrif yn "orchmynion lleol". Fel rhan o'r weithdrefn adolygu, bydd y materion y bydd y rheoliadau'n mynd i'r afael â nhw ac argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn destun cryn dipyn o ymgynghori cyhoeddus.
Adran 22(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirymu neu amrywio unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â threfniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardaloedd arfaethedig	Dim gweithdrefn Cynulliad	Rhaid i reoliadau sy'n rhoi argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gael eu cyfrif yn "orchmynion lleol" ac nid ydynt yn destun gweithdrefn Cynulliad. Credir ei bod yn briodol y dylai unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu darpariaethau rheoliadau o'r fath gael eu cyfrif yn "orchmynion lleol" ac ni ddylent felly fod yn destun unrhyw weithdrefn Cynulliad.
Adran 23(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau etholiadol y darpar Brif Ardaloedd cyn etholiadau cyntaf Cynghorau'r ardaloedd hynny lle nad	Dim gweithdrefn Cynulliad	Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer adolygiadau trefniadau etholiadol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			yw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyflwyno argymhellion terfynol, fel nad oes oedi wrth greu Prif Gynghorau newydd.		cael eu cyfrif yn "orchmynion lleol". Fel rhan o'r weithdrefn adolygu, bydd y materion y bydd y rheoliadau'n mynd i'r afael â nhw ac unrhyw argymhellion gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn destun cryn dipyn o ymgynghori cyhoeddus.
Adran 23(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirymu neu amrywio unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â threfniadau etholiadol i Brif Ardaloedd arfaethedig lle nad yw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyflwyno argymhellion terfynol.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Rhaid i reoliadau ar gyfer trefniadau etholiadol y Prif Ardaloedd gael eu cyfrif yn "orchmynion lleol" ac nid ydynt yn destun gweithdrefn Cynulliad. Credir ei bod yn briodol y dylai unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu darpariaethau rheoliadau o'r fath gael eu cyfrif yn "orchmynion lleol" ac ni ddylent felly fod yn destun unrhyw weithdrefn Cynulliad.
Adran 24	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ailosod y dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod adolygu trefniadau etholiadol 10 mlynedd nesaf Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ar ôl uno a sefydlu Awdurdodau newydd.	Negyddol	Manylyn cymharol fach yw pwnc y rheoliadau hyn yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer trefniadau llywodraeth leol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a thechnegol ei natur. Mae hyn ond yn ailosod y dyddiad cychwyn ar gyfer y cyfnod adolygu 10 mlynedd nesaf, felly mae'n gyson â strwythur newydd llywodraeth leol wedi i'r rhaglen

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ddiwygio gael ei chwblhau.
Adran 32(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio gwerth penodedig y trafodion a allai fod yn destun y drefn adrodd (pwyllgorau pontio) neu'r drefn gydsynio (Awdurdodau Cysgodol) i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau.	Negyddol	Manylyn cymharol fach yw pwnc y rheoliadau hyn yn y darpariaethau deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer cyfyngiadau ar drafodion gan Awdurdodau sy'n uno.
Adran 36 (yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau yn y Mesur hwnnw)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru newid nifer y personau a benodir yn aelodau o'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.	Negyddol	Manylyn cymharol fach yw pwnc y rheoliadau hyn yn y darpariaethau deddfwriaethol cyffredinol ynghylch y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

5.2 Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a phenderfyniadau a chyhoeddi canllawiau

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 5(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Priodol ar gyfer canllawiau gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i fframio meini prawf a phroses i gynorthwyo Prif Awdurdodau i lunio ceisiadau uno gwirfoddol.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau'n ymwneud â phroses yn bennaf, felly nid yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 7(4)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyfer Awdurdodau a gweithrediadaethau cysgodol ynghylch arfer swyddogaethau wrth baratoi ar gyfer sefydlu Awdurdodau newydd.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau'n ymwneud â phroses yn bennaf, felly nid yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 12(3)	Gweinidogion Cymru	Penderfyniad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar nifer yr aelodau ar bwyllgor pontio, os nad oes cytundeb gan Awdurdodau sy'n uno, yn addas at amgylchiadau penodol yr uno.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Pŵer cyfyngedig yw hwn i hwyluso rhoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith. Mae'n debygol y bydd angen i Weinidogion Cymru weithredu ar frys fel nad yw anghytuno gwirioneddol nac amwysedd gweinyddol posibl yn amharu ar waith y pwyllgor pontio.
Adran 13(1)(c)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y materion (mewn perthynas â chynnig i uno) y dylai pwyllgor pontio roi cyngor neu argymhellion yn eu cylch i'r Awdurdodau sy'n uno neu	Dim gweithdrefn Cynulliad	Pŵer cyfyngedig yw hwn i hwyluso rhoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith. Mae'n debygol y bydd angen i Weinidogion Cymru weithredu ar frys fel nad yw ansicrwydd nac amwysedd gweinyddol posibl yn amharu ar waith y pwyllgor pontio.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Awdurdod Cysgodol.		
Adran 13(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo pwyllgorau pontio (yn unigol, pob un neu grŵp) i gymryd cam penodedig i baratoi ar gyfer uno (e.e. os nad ydynt wedi llunio cynllun iaith drafft neu ddatganiad drafft ar bolisi tâl)	Dim gweithdrefn Cynulliad	Pŵer cyfyngedig yw hwn i hwyluso rhoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith. Mae'n debygol y bydd angen i Weinidogion Cymru weithredu ar frys fel nad yw amwysedd gweinyddol posibl yn amharu ar waith y pwyllgor pontio.
Adran 13(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i bwyllgorau pontio ar arfer eu swyddogaethau.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau'n ymwneud â phroses yn bennaf, felly nid yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 15(2)	Gweinidogion Cymru	Penderfyniad	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar rannu costau pwyllgor pontio, os nad oes cytundeb gan Awdurdodau sy'n uno, yn addas at amgylchiadau penodol yr uno.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Pŵer cyfyngedig yw hwn i hwyluso rhoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar waith. Mae'n debygol y bydd angen i Weinidogion Cymru weithredu ar frys fel nad yw anghytuno gwirioneddol nac amwysedd gweinyddol posibl yn amharu ar waith y pwyllgor pontio.
Adran 16(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol y darpar Brif Ardaloedd newydd a sefydlir	Dim gweithdrefn Cynulliad.	Mae'r pŵer i roi cyfarwyddydau yn berthnasol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn unig a bydd yn cael ei ddefnyddio dim ond mewn perthynas â'r darpar Brif Ardaloedd penodedig. Mae rhoi cyfarwyddydau yn adlewyrchu'r

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			trwy gyfrwng deddfwriaeth ddilynol (naill ai rheoliadau uno neu Ddeddf bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) cyn yr etholiadau cyntaf ar gyfer Awdurdodau'r ardaloedd hynny.		weithdrefn bresennol mewn perthynas â gwaith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch trefniadau llywodraeth leol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
Adran 17(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau cyffredinol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch trefn adolygiadau cychwynnol a'r materion y mae'n rhaid iddynt eu hystyried.	Dim gweithdrefn Cynulliad. Yn destun ymgynghoriad gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a chyrff cynrychioliadol awdurdodau lleol.	Bydd y pŵer hwn i roi cyfarwyddydau gyda darpariaethau cyffredinol ynghylch sut i gynnal adolygiadau (o dan adran 17) yn berthnasol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn unig, a bydd yn hwyluso'r adolygiadau hynny. Mae'n briodol bod gofyniad i ymgynghori â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru cyn rhoi cyfarwyddydau o'r fath.
Adran 17(8)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru e.e. ar ystyriaethau cyffredinol wrth gynnal yr adolygiadau cychwynnol (e.e. cysylltiadau cymunedol, y Gymraeg).	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn bennaf yn ymwneud â materion lle nad yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 25(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth	Dim gweithdrefn Cynulliad	Mae'r pŵer hwn i roi cyfarwyddydau yn berthnasol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn unig a

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Ariannol i arfer ei swyddogaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil) mewn perthynas â thâl a phensiynau aelodau awdurdodau cysgodol a Phrif Awdurdodau sy'n uno.		bydd yn berthnasol dim ond i daliadau i aelodau awdurdodau cysgodol penodedig a phrif awdurdodau sy'n uno. Bydd hyn yn galluogi'r Panel i wneud ei waith.
Adran 27(3)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan y Bil.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn bennaf yn ymwneud â materion lle nad yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 28(6)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i bwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol ar swyddogaethau paratoi datganiadau polisi tâl.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â materion lle nad yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 32(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau sy'n uno, Awdurdodau Cysgodol a phwyllgorau pontio ynghylch gweithredu'r darpariaethau ataliaeth yn y Bil.	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau'n ymwneud â phroses yn bennaf, felly nid yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.
Adran 35(3)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r	Dim gweithdrefn Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i gyhoeddi canllawiau hwyluso'r broses o gymhwyso'r

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Y ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Y weithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ynghylch arfer ei swyddogaethau newydd mewn perthynas â thâl prif swyddogion.		ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn bennaf yn ymwneud â materion lle nad yw gweithdrefn Cynulliad yn briodol.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi). Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n golygu y bydd yn rhaid codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6. Arfarnu opsiynau

1. Fel yr eglurir uchod, bwriad arfaethedig y Bil yw galluogi gwaith paratoi ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol a galluogi Prif Awdurdodau Lleol i uno'n wirfoddol erbyn mis Ebrill 2018.

2. Nod y Bil yw:
   - Sicrhau y cynhelir adolygiad ac y cyflwynir argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig y mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu bod yn bwriadu eu sefydlu, cyn cynnal etholiadau cyntaf Awdurdodau Lleol yr ardaloedd hynny.

   - Penderfynu ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol a sefydlir cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd ddod i fodolaeth.

   - Sicrhau y sefydlir trefniadau cydweithio er mwyn hwyluso gwaith blaengynllunio effeithiol yng nghyswllt yr Awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd hynny'n cynnwys cymryd camau i atal a rhwystro ymddygiad negyddol gan Awdurdodau presennol, a fyddai'n niweidiol i'w holynwyr.

   - Darparu ar gyfer galluogi Gweinidogion Cymru i uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

   - Sicrhau bod modd gweithredu, drwy reoliadau, yr adolygiadau a gwblhawyd eisoes gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a gafodd ei ailenwi yn 2013 yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) rhwng 2010 a 2012 ynghylch trefniadau etholiadol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

   - Ei gwneud yn bosibl cynnal, cyn yr etholiadau, yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus, a sefydlwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac egluro bod modd i Awdurdod Lleol drefnu bod trydydd parti'n cynnal yr arolwg ar ei ran.

3. Cafodd nifer o opsiynau o ran polisi eu hystyried yng nghyswllt cyflawni pob un o'r bwriadau uchod. Mae pob un o'r opsiynau a nodwyd wedi'u harchwilio o safbwynt y graddau y byddent yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o ran polisi. Caiff yr opsiynau eu hamlinellu isod ac mae costau a manteision pob opsiwn i'w gweld ym Mhennod 7. Mae natur y darpariaethau'n golygu mai mewn termau ansoddol i raddau helaeth y trafodir y manteision a nodwyd; nid ydynt wedi'u mesur ac nid yw eu gwerth ariannol wedi'i bennu. Rhagolygon yw unrhyw gostau sydd wedi'u cynnwys. I adlewyrchu hynny, mae'r holl gostau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf er mwyn lleihau'r risg o unrhyw ffug fanylder yn y

dadansoddi. Mae Atodiad A yn cynnwys esboniad manwl o'r modd y cyfrifwyd y costau.

Bwriad polisi 1: Sicrhau y cynhelir adolygiad ac y cyflwynir argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig y mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu bod yn bwriadu eu sefydlu, cyn cynnal etholiadau cyntaf Awdurdodau Lleol yr ardaloedd hynny.

4. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Opsiwn 1: Gwneud dim: Byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau â'i raglenni gwaith presennol ac ni fyddai modd iddo gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig nes y byddai'r Awdurdodau newydd hynny wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, h.y. mewn rheoliadau ar gyfer uno'n gynnar yn wirfoddol neu mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.

    - Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gwaith yn gynnar ar yr adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig.

5. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau â'i raglenni gwaith presennol ac ni fyddai modd iddo gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardal newydd arfaethedig nes y byddai'r Ardaloedd newydd hynny wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, h.y. mewn rheoliadau ar gyfer uno'n gynnar yn wirfoddol neu mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru), y disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol yn 2017, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

6. Mae rôl bresennol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnwys cadw golwg ar yr holl ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hynny, a chyflwyno unrhyw gynigion i Weinidogion Cymru yr ymddengys eu bod yn ddymunol o safbwynt sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

7. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond os yw Prif Ardal yn un sydd wedi'i sefydlu eisoes drwy statud y gall Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol.

8. Dan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"), mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob un o'r Prif Ardaloedd yng Nghymru o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu o ddeng mlynedd. Dechreuodd y cylch o gyfnodau adolygu deng mlynedd pan ddaeth adran 29 o Ddeddf 2013 i rym ym mis Medi 2013.

9. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau â'i raglenni gwaith eraill ond ni fyddai modd iddo gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardal newydd arfaethedig nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u ffurfio mewn deddfwriaeth, h.y. yn achos unrhyw uno gwirfoddol, pan fyddai'r rheoliadau angenrheidiol wedi'u gwneud (rhagwelir y byddai hynny'n digwydd yn ystod gwanwyn 2016) neu, yn achos unrhyw uno arall, mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a fyddai, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad, yn cael ei basio yn 2017.

10. Byddai'n amhosibl i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gwblhau'r holl adolygiadau ar gyfer yr Awdurdodau newydd a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn pryd ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r Awdurdodau newydd wedi iddynt gael eu creu mewn deddfwriaeth (2018 ar gyfer Awdurdod newydd a sefydlir drwy reoliadau a 2019 ar gyfer Awdurdodau a sefydlir drwy ail Fil). Byddai hynny, felly, yn arwain at oedi yn y broses o gynnal etholiadau i Awdurdodau newydd. Dan Opsiwn 1, gallai colli dau neu dri mis beryglu amserlen y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol ardaloedd o'r fath mewn pryd ar gyfer yr etholiadau cyntaf i Awdurdodau sydd wedi uno'n wirfoddol, y bwriedir eu cynnal ym mis Mai 2018.

11. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau dan rwymedigaeth statudol i gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol Prif Awdurdodau Lleol presennol, er y byddai disgwyl i

rai o'r Awdurdodau hynny gael eu diddymu. Byddai gwaith o'r fath yn ddiwerth ar ôl sefydlu'r Awdurdodau newydd a diddymu'r hen rai.

12. Dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau'r Awdurdodau Lleol presennol yn parhau fel y cytunwyd gan Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiadau blaenorol, a byddai hynny'n wir hefyd am gyfanswm nifer y cynghorwyr, nes y byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cwblhau'r holl adolygiadau ar gyfer yr ardaloedd newydd ac y byddai'r etholiadau i Awdurdodau newydd wedi'u cynnal.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal adolygiadau.

13. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 2), byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gwaith yn gynnar ar adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig a chyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd y mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu bod yn bwriadu eu sefydlu.

14. Dan yr opsiwn hwn, byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn dechrau cynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardal newydd arfaethedig (boed yn un sy'n uno'n wirfoddol drwy reoliadau neu'n un sy'n uno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru)) yn fuan wedi i'r Bil hwn gael ei basio, yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

15. Yr opsiwn hwn sy'n cyflawni'r bwriad polisi yn y modd mwyaf synhwyrol. Mae'n sicrhau bod modd cynnal etholiadau mewn da bryd ac wedi i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau llawn o drefniadau etholiadol, a fyddai'n fantais. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig eglurder i randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, cynghorwyr ac ymgeiswyr a swyddogion etholiadol, a'r opsiwn hwn sy'n bodloni orau'r amcan a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 o safbwynt sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

16. Byddai'r gwaith sy'n ymwneud ag adolygu trefniadau etholiadol ardaloedd sy'n uno'n wirfoddol yn cael blaenoriaeth a byddai'r pŵer cyfarwyddo'n darparu ar gyfer hynny.

Bwriad polisi 2: Penderfynu ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol a sefydlir cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd ddod i fodolaeth.

17. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Opsiwn 1: Gwneud dim: Byddai penderfyniadau ar daliadau i aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno, ac aelodau unrhyw Awdurdodau Cysgodol, yn cael eu cwblhau'n rhan o gwrs gwaith arferol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond ni fyddai modd dechrau'r gwaith nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, sef yn ystod gwanwyn 2016 ar gyfer ardal newydd a sefydlir drwy reoliadau, ac yn ystod 2017 ar gyfer ardaloedd a sefydlir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

    - Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth er mwyn galluogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddechrau ar y gwaith yn gynnar a phenderfynu ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol a sefydlir cyn i Brif Awdurdod Lleol newydd ddod i fodolaeth.

18. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Byddai penderfyniadau ar daliadau i aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno, ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol, yn cael eu cwblhau'n rhan o gwrs gwaith arferol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond ni fyddai modd dechrau'r gwaith nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, sef yn ystod gwanwyn 2016 ar gyfer ardal newydd a sefydlir drwy reoliadau, ac yn ystod 2017 ar gyfer ardaloedd a sefydlir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

19. Sefydlwyd y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn wreiddiol i benderfynu ar ystod a lefelau'r lwfansau sy'n daladwy gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i'w haelodau etholedig ("cynghorwyr") ac aelodau cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio. Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gorff statudol sy'n annibynnol ar reolaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.

20. Cadarnhaodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") y byddai'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau ac mae'r Mesur, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2013, yn sail i gyfrifoldebau a swyddogaethau'r Panel.

21. Yn ôl Mesur 2011, bydd y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried taliadau i aelodau "Awdurdodau Lleol", sy'n cynnwys "cynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau sir yng Nghymru" ("prif gynghorau"), a bydd yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Nid yw'r Mesur yn cynnig unrhyw ddisgrifiad arall o Awdurdodau Lleol y gall y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu harchwilio. Y casgliad cyfreithiol sy'n deillio o absenoldeb unrhyw ddisgrifiad arall o Awdurdodau Lleol yw mai dim ond aelodau Awdurdodau sydd wedi'u sefydlu eisoes drwy statud y caiff y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu hystyried a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

22. Bydd y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn dod yn gyfrifol am ystyried unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd a gaiff eu creu drwy drefniadau uno, ac yn dod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yn eu cylch. Bydd y cyfrifoldeb hwnnw'n cael ei ysgwyddo'n awtomatig, cyhyd â bod yr Awdurdodau newydd yn cael eu sefydlu o fewn y fframwaith statudol presennol ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

23. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), ni fyddai'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gallu cynnal adolygiad o'r taliadau priodol i gynghorwyr y Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig nes y byddai'r Awdurdodau newydd hynny wedi'u ffurfio mewn deddfwriaeth, h.y. yn achos unrhyw uno gwirfoddol, pan fyddai'r rheoliadau angenrheidiol wedi'u gwneud (rhagwelir y byddai hynny'n digwydd yn ystod gwanwyn 2016) neu, yn achos unrhyw uno arall, mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a fyddai, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad, yn cael ei basio yn 2017. Ni fyddai hynny'n caniatáu i benderfyniadau ar daliadau i aelodau'r Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig gael eu gwneud yn gynnar, yn enwedig yng nghyswllt achosion arfaethedig o uno gwirfoddol ac yng nghyswllt eu Hawdurdodau Cysgodol.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth sy'n ymestyn swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn ei alluogi i ddechrau ar y gwaith yn gynnar a phenderfynu ar daliadau i aelodau'r Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol a sefydlir cyn i Brif Awdurdod Lleol newydd ddod i fodolaeth.

24. Wrth weithredu rhaglen o drefniadau uno, dylai aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno fod â'r hawl i gael taliadau priodol yng nghyswllt eu cyfrifoldebau, o Ddiwrnod Breinio'r Awdurdod newydd ymlaen, h.y. y diwrnod y bydd yr Awdurdod newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol.

25. Mae'n bosibl hefyd y bydd gan aelodau etholedig sy'n gwasanaethu mewn Awdurdodau Cysgodol yr hawl i gael taliadau yng nghyswllt eu cyfrifoldebau, er y cydnabyddir nad yw'r Awdurdodau Cysgodol yn cyflawni'r ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol.

26. Ni fyddai digon o amser gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (rhwng dyddiad pasio deddfwriaeth sy'n sefydlu Prif Awdurdod Lleol newydd i'r diwrnod y mae'r Awdurdod newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol ("Diwrnod Breinio")) i ystyried taliadau i aelodau'r Prif Awdurdod Lleol newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol yn briodol, a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Mae hynny'n arbennig o wir os caiff sawl Awdurdod newydd eu creu gan yr un ddeddfwriaeth ac os byddant yn dilyn yr un amserlen wrth nesáu at y Diwrnod Breinio.

27. Mae'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn ymestyn swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn ei alluogi i ddechrau ar y gwaith o benderfynu ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol, pan fydd yr Awdurdodau newydd arfaethedig wedi'u nodi gan Weinidogion Cymru a chyn i'r ddeddfwriaeth ar gyfer eu sefydlu gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

28. Byddai maint daearyddol Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig o'r fath yn cael ei gyfleu i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.

29. Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni'r bwriad polisi. Mae'n sicrhau y byddai gan aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno yr hawl i gael taliadau priodol yng nghyswllt eu cyfrifoldebau, o'r Diwrnod Breinio ymlaen. Byddai hefyd yn sicrhau y gallai fod gan aelodau etholedig sy'n gwasanaethu mewn Awdurdodau Cysgodol yr hawl i gael taliadau yng nghyswllt eu cyfrifoldebau, a byddai'n galluogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i osod gofynion er mwyn osgoi dyblygu taliadau sy'n ymwneud â busnes swyddogol yr aelodau. Byddai hefyd yn darparu eglurder yn gynharach i'r Awdurdodau newydd ac ymgeiswyr posibl. Byddai hefyd yn sicrhau dull

agored a thryloyw o bennu cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr, o safbwynt yr Awdurdodau newydd.

Bwriad polisi 3: Sicrhau y sefydlir trefniadau cydweithio er mwyn hwyluso gwaith blaengynllunio effeithiol yng nghyswllt yr Awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd hynny'n cynnwys cymryd camau i atal a rhwystro ymddygiad negyddol gan Brif Awdurdodau Lleol presennol, a allai niweidio sefyllfa ariannol ac enw da eu holynwyr.

30. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi uchod. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Opsiwn 1: Gwneud dim: Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i sefydlu, ar eu liwt eu hunain, gyd-bwyllgorau i ystyried materion sydd o ddiddordeb cyffredin neu faterion y rhennir cyfrifoldeb amdanynt. Gallai Awdurdodau sy'n uno sefydlu cyd-bwyllgor pontio er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw uno arfaethedig, ond ni fydd yn ofynnol iddynt sefydlu pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai dim mewn deddfwriaeth chwaith i arwain gwaith pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai unrhyw welliannau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i ddeddfwriaeth er mwyn rhwystro ac atal ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno.

    - Opsiwn 2: Deddfu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod Prif Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol, gan gynnwys yr Awdurdodau hynny sy'n cynnig uno'n wirfoddol, yn sefydlu cyd-bwyllgorau pontio, a rhoi arweiniad a chyfarwyddydau ynghylch sut y dylent weithredu a pha faterion y dylent fynd i'r afael â nhw. Ochr yn ochr â'r mesur hwn, darparu ar gyfer atal a rhwystro gwahanol fathau o ymddygiad mewn Awdurdodau yn ystod y cyfnod cyn uno, a allai niweidio sefyllfa ariannol ac enw da'r Awdurdodau newydd.

    - Opsiwn 3: Peidio â mynd i'r afael â'r bwriad polisi nes y ceir ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru), na chaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn 2016. Yn achos Prif Awdurdodau Lleol a gaiff eu huno drwy ail Fil, mae'n bosibl na fyddai'n ofynnol iddynt sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol i baratoi ar gyfer unrhyw uno a nodir, tan haf 2017. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig y bwriedir iddi rwystro ac atal ymddygiad negyddol hefyd yn cael ei gohirio tan haf 2017. Gallai ail Fil gynnwys darpariaethau'n ymwneud â phwyllgorau pontio statudol a chamau i rwystro ac atal ymddygiad negyddol mewn Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol, ond byddai hynny'n rhy hwyr i ddarpariaethau o'r fath gael effaith ymarferol.

31. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i sefydlu, ar eu liwt eu hunain, gyd-bwyllgorau i ystyried materion sydd o ddiddordeb cyffredin neu faterion y rhennir cyfrifoldeb amdanynt. Gallai Awdurdodau sy'n uno sefydlu cyd-bwyllgor pontio er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw uno arfaethedig, ond ni fydd yn ofynnol iddynt sefydlu pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai dim mewn deddfwriaeth chwaith i arwain gwaith pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai unrhyw welliannau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i ddeddfwriaeth er mwyn rhwystro ac atal ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno.

32. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i sefydlu cyd-bwyllgorau pontio, felly mae cyfle i Awdurdodau sefydlu cyd-bwyllgor o'r fath ar eu liwt eu hunain os ydynt yn rhan o drefniant uno arfaethedig (boed yn drefniant uno gwirfoddol neu'n drefniant uno a ddeddfir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru)). Fodd bynnag, er y byddai rhai Awdurdodau Lleol efallai'n sefydlu pwyllgorau anffurfiol, mae'n bosibl na fyddai Awdurdodau Lleol eraill yn gwneud y gwaith paratoi angenrheidiol yn ddigon buan i sicrhau bod gwaith cynllunio effeithiol yn digwydd.

33. Diben cyd-bwyllgorau pontio statudol fyddai cynghori'r Awdurdod Cysgodol olynol ynghylch unrhyw fylchau, unrhyw anghysondebau ac unrhyw achosion o ddyblygu rhwng y ddau Awdurdod sy'n uno, o ran eu swyddogaethau, a sicrhau bod yr Awdurdod newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r Diwrnod Breinio.

34. Pe bai Awdurdod Lleol yn dewis sefydlu cyd-bwyllgor pontio, ni fyddai unrhyw ganllawiau statudol ar gael ynghylch cylch gorchwyl posibl y cyd-bwyllgor, yr hyn y dylai ei ystyried neu'r dogfennau y dylai eu cynhyrchu. Yn ogystal, ni fyddai unrhyw ganllawiau ynghylch maint y cyd-bwyllgor, pwy a ddylai fod yn bresennol a pha adnoddau dynol a ddylai gael eu dyrannu. Felly, byddai ansawdd a chysondeb gwaith paratoi'n dibynnu ar ddidwylledd a chraffter yr Awdurdodau Lleol presennol.

35. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n arwain at drefniadau cynllunio anhrefnus yng nghyswllt yr Awdurdodau newydd. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn cyflawni gwaith paratoi trylwyr iawn ynghylch rhai materion, tra bydd materion eraill efallai'n cael eu hanwybyddu'n llwyr. Os bydd Awdurdodau Lleol presennol yn methu â darparu cyngor digonol i Awdurdodau Cysgodol, ni fydd yr Awdurdodau Cysgodol hynny mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol ynghylch y modd y caiff yr Awdurdodau newydd eu cynllunio a'u gweithredu yn y dyfodol.

36. Gallai hynny arwain, ymysg goblygiadau eraill, at benodi uwch-swyddogion ar frys. Os na chaiff cyngor amserol ei roi ynghylch gwaith cynllunio'r gweithlu, gallai enw da'r Awdurdodau newydd gael ei beryglu o safbwynt gweithdrefnau'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy. Pe bai'r cyhoedd yn darganfod na lynwyd wrth y prosesau priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, byddai hynny'n tanseilio canfyddiadau'r cyhoedd a swyddogion ynghylch didwylledd, tegwch a thryloywder y broses ddiwygio. Gallai hefyd ddwysáu pryder hirdymor ymysg y cyhoedd ynghylch gweithdrefnau gwneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion.

37. Yn ogystal, os nad ymdrechir i atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno, mae'n debygol y bydd sïon ac amheuon yn codi ynghylch y rhaglen ddiwygio ar gyfer Llywodraeth Leol.

38. Yn ystod y cyfnod cyn uno, ni fyddai unrhyw gorff swyddogol yn gyfrifol am ystyried effaith penderfyniadau Awdurdod Lleol ar yr ardal llywodraeth leol ehangach ar ôl yr uno. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod cyn i Awdurdodau Lleol presennol gael eu diddymu, gallai'r Awdurdodau hynny benderfynu ymrwymo i gontractau hirdymor na fyddent, o bosibl, o fudd i'r Awdurdod Lleol newydd.

39. Yn ogystal, ceir risg y gallai rhai Awdurdodau Lleol fabwysiadu polisi o beidio â chydweithredu a pheidio â thrafod o safbwynt darparu gwybodaeth hanfodol wrth wynebu sefyllfa lle mae'n uno ag Awdurdod arall. Bydd hynny'n achosi llawer o rwystrau a dryswch, gan arafu'r gweithgareddau paratoi hanfodol y bydd angen iddynt ddigwydd o flaen llaw.

Opsiwn 2. Deddfu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod Prif Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol yn sefydlu cyd-bwyllgorau pontio, a rhoi arweiniad a chyfarwyddydau ynghylch sut y dylent weithredu. Ochr yn ochr â'r mesur hwn, darparu ar gyfer atal a rhwystro gwahanol fathau o ymddygiad mewn Prif Awdurdodau Lleol yn ystod y cyfnod cyn uno, a allai niweidio sefyllfa ariannol ac enw da'r Awdurdodau newydd.

40. Yn achos uno gwirfoddol, bydd yn ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol presennol sefydlu cyd-bwyllgor pontio, un i bob Prif Ardal newydd arfaethedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ar ôl i'r rheoliadau perthnasol ynghylch uno gael eu cyflwyno yn ystod gwanwyn 2016.

41. Yn achos uno o ganlyniad i ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru), bydd Gweinidogion Cymru yn mynnu bod Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol yn sefydlu cyd-bwyllgor pontio o'r adeg pan gaiff ail Fil ei gyflwyno i'r Cynulliad (yn ystod hydref 2016).

42. Bydd gofyn i Brif Awdurdodau Lleol ddarparu adnoddau priodol (gan gynnwys staff cymorth) i'r cyd-bwyllgor pontio. Bydd gan bob cyd-bwyllgor o leiaf pum aelod o bob Awdurdod cyfansoddol presennol, a'r Awdurdodau eu hunain fydd yn gyfrifol am gytuno ar union faint y cyd-bwyllgor.

43. Prif ddiben sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol yw sicrhau y caiff diwylliant o gydweithio ei sefydlu'n gynnar yn y broses bontio. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau i egluro union gylch gorchwyl ac union weithgareddau'r cyd-bwyllgorau pontio. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y canllawiau'n egluro y bydd yn ofynnol i'r cyd-bwyllgorau archwilio'r trefniadau o ran gwasanaethau a chyfundrefnau yn yr Awdurdodau presennol, cymharu trefniadau o'r fath, a chynnig cyngor i'r Awdurdod Cysgodol olynol ynghylch unrhyw fylchau, unrhyw anghysondebau ac unrhyw achosion o ddyblygu, fel y bo'n briodol.

44. Byddant hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor er mwyn galluogi'r Awdurdod Cysgodol a'r tîm gweithredol i ystyried materion, a gwneud penderfyniadau ynghylch materion, a fydd yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r diwrnod y bydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol (y Diwrnod Breinio).

45. Yn ogystal, bydd llai o gyfle i Awdurdodau Lleol, cynghorwyr a swyddogion ymddwyn mewn modd negyddol a niweidiol yn ystod y cyfnod cyn i'r Awdurdodau hynny gael eu diddymu gan y broses uno. Cyn i'r Awdurdodau Cysgodol newydd ddod i fodolaeth bydd y cyd-bwyllgorau pontio'n cynnig cyngor, safbwyntiau ac argymhellion gyda'r bwriad o helpu'r Awdurdodau presennol i wneud penderfyniadau na fyddant yn niweidio sefyllfa ariannol ac enw da'r Awdurdod newydd. Pe bai'r Awdurdod presennol yn penderfynu cymryd camau sy'n groes i'r farn a roddwyd gan y cyd-bwyllgor pontio, byddai'n rhaid i'r Awdurdod presennol gyhoeddi ei resymau dros gymryd camau o'r fath.

46. Pan fydd yr Awdurdodau Cysgodol wedi'u sefydlu yn ystod y cyfnod cyn uno, bydd angen i Awdurdodau presennol ofyn am "gydsyniad priodol" gan yr Awdurdod Cysgodol olynol perthnasol ynghylch rhai trafodion. Diben hynny yw diogelu rhag y posibilrwydd y gallai Awdurdodau presennol wneud penderfyniadau sydd â goblygiadau ariannol neu oblygiadau eraill a allai fynd yn groes i fuddiannau hirdymor yr Awdurdod newydd olynol.

47. Os na fydd Awdurdod Lleol presennol yn cydweithredu â'i bartneriaid yn ystod y cyfnod cyn uno, bydd pwerau yn y Bil i fynnu bod yr Awdurdod hwnnw'n sicrhau bod gwybodaeth sy'n berthnasol i drefniant uno arfaethedig ar gael i'r Awdurdodau Lleol eraill sy'n rhan o'r un trefniant uno. Byddai hynny'n osgoi unrhyw risg y gallai Awdurdodau Lleol, cyn iddynt gael eu diddymu, achosi llawer o rwystrau a dryswch i waith blaengynllunio a pharatoi ar gyfer uno, drwy ddal gwybodaeth yn ôl.

48. Bydd gan yr holl gyd-bwyllgorau pontio un swyddogaeth benodol, sef paratoi copi drafft o Ddatganiad ar Bolisïau Tâl, cytuno arno a'i roi i'r Awdurdod Cysgodol ar gyfer yr Awdurdod newydd arfaethedig. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Cysgodol baratoi, mabwysiadu a chyhoeddi Datganiad ar Bolisïau Tâl cyn i unrhyw uwch-swyddogion gael eu penodi ar gyfer yr Awdurdod newydd. Bydd y datganiadau hyn yn egluro polisïau'r Awdurdod ei hun ynghylch ystod o faterion sy'n ymwneud â thaliadau i'w weithlu, yn enwedig ei 'brif swyddogion' a'i weithwyr sy'n cael y taliadau isaf.

49. Byddai'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael pwerau i gyflwyno argymhellion ynghylch Datganiadau Awdurdodau Lleol ar Bolisïau Tâl tan 1 Ebrill 2020 yng nghyswllt taliadau pob Prif Swyddog (yr unig bwerau sydd gan y Panel ar hyn o bryd yw pwerau i gyflwyno argymhellion ynghylch taliadau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig, sef y Prif Weithredwr fel rheol). Yn ogystal, byddai'n rhaid ymgynghori â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Swyddog, nad oedd yn gymesur â Datganiad yr Awdurdod ar Bolisïau Tâl. Byddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion y byddent yn eu cael gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch newidiadau o'r fath. Byddai'r cyfrifoldeb hwn yn cryfhau'r modd y creffir ar benderfyniadau Awdurdodau Lleol ynghylch taliadau uwch-swyddogion, a byddai'n helpu i sicrhau yr eir i'r afael â phryderon hirdymor y cyhoedd ynghylch taliadau uwch-swyddogion.

Opsiwn 3. Peidio â mynd i'r afael â'r mater hwn nes y ceir ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Byddai ail Fil yn cynnwys darpariaethau sy'n mynnu bod Prif Awdurdodau Lleol sy'n rhan o drefniadau uno'n sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Byddai hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n atal ac yn rhwystro ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno.

50. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 3), ni fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei chyflwyno nes y byddai ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol (yn ystod haf 2017).

51. Byddai'r gofyniad i sefydlu cyd-bwyllgorau pontio a'r camau i gyflwyno mesurau at ddiben atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn dod i rym chwe mis yn unig cyn y byddai unrhyw Awdurdod a sefydlir drwy drefniant uno gwirfoddol yn dod i fodolaeth, a dwy flynedd cyn y byddai unrhyw Awdurdod a sefydlir drwy ail Fil yn dod i fodolaeth.

52. Yn achos unrhyw uno gwirfoddol, byddai hynny yn golygu'n ymarferol na fyddai unrhyw gyd-bwyllgor pontio statudol yn cael ei sefydlu. Erbyn haf 2017, pe bai ail Fil yn cael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol, byddai'r cyfnod pontio ar gyfer unrhyw uno gwirfoddol wedi pasio a byddai Awdurdodau Cysgodol ar fin cael eu sefydlu. Ychydig iawn o effaith y byddai deddfwriaeth at ddibenion atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn ei chael hefyd, gan na fyddai'n dod i rym tan ddiwedd y cyfnod pontio.

53. Er ei bod yn debygol y byddai'r Awdurdodau Lleol presennol sy'n rhan o unrhyw drefniant uno gwirfoddol yn cydweithio'n agos yn ystod y cyfnod pontio, byddai ansawdd a chysondeb y gwaith paratoi a wneir yn ystod y cyfnod hwnnw'n dibynnu'n fawr ar ddidwylledd a chraffter yr Awdurdodau Lleol presennol.

54. Yn achos unrhyw Awdurdodau Lleol a fyddai'n uno drwy ail Fil, byddai deddfwriaeth a gyflwynir ddwy flynedd cyn yr uno'n cael llai o effaith. Byddai'r gofyniad i Awdurdodau Lleol presennol sefydlu pwyllgorau pontio'n cael ei gyflwyno flwyddyn yn ddiweddarach nag y byddai dan Opsiwn 2.

55. Dan Opsiwn 2, byddai'n ofynnol i Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno sefydlu pwyllgorau pontio pan gaiff ail Fil *ei gyflwyno* i'r Cynulliad Cenedlaethol (yn ystod hydref 2016). Dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu pwyllgorau pontio nes y byddai ail Fil *wedi'i basio*, sef ym mis Medi 2017 yn amodol ar ewyllys y Cynulliad.

56. Felly, bydd gan gyd-bwyllgorau pontio oes fyrrach (dwy flynedd o gymharu â thair blynedd dan Opsiwn 2) i gwblhau gwaith paratoi. Yn ogystal, byddai deddfwriaeth i atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn cael ei chyflwyno ddwy flynedd, yn hytrach na thair blynedd, cyn yr uno.

Bwriad polisi 4: Darparu ar gyfer galluogi Gweinidogion Cymru i uno dau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

57. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim: Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

- Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pŵer gwneud rheoliadau. Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth hefyd yn diwygio adran 4 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol.

58. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

59. Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru annog yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n dymuno dechrau proses o uno'n gynnar yn wirfoddol.

60. Nid yw achosion unigol o uno'n wirfoddol yn bosibl dan y ddeddfwriaeth bresennol. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol yn gynnar, hyd yn oed pe bai'r Awdurdodau yn dymuno gwneud hynny.

61. O ganlyniad, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb yn gadarnhaol i geisiadau ar y cyd gan Awdurdodau Lleol i fwrw ymlaen i uno'n gynnar yn wirfoddol. Ni fyddai'n bosibl i Awdurdodau Lleol uno nes y byddai ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) wedi'i basio.

62. Ni fyddai Awdurdodau Lleol a oedd wedi cydnabod manteision uno ac a oedd yn cydweithio i'r perwyl hwnnw'n gallu cwblhau'r broses a gwireddu'r manteision am ddwy flynedd arall.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pŵer gwneud rheoliadau. Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth hefyd yn diwygio adran 4 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol.

63. Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r Awdurdodau Lleol hynny sy'n dymuno dechrau proses o uno'n gynnar yn wirfoddol.

64. Byddai'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol benodol sy'n galluogi Awdurdodau Lleol bodlon ac ymroddedig i fynd ati'n fuan i uno'n llawn os ydynt wedi nodi achos dros wneud hynny.

65. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

66. Ar ôl i'r Bil ddilyn ei hynt, bydd Awdurdodau Lleol yn gallu cyflwyno ceisiadau ffurfiol i uno'n gynnar yn wirfoddol. Yna, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael a phrosesu'r ceisiadau hyn.

67. Byddai galluogi Awdurdodau Lleol i uno'n gynnar yn wirfoddol yn darparu sicrwydd deddfwriaethol cynnar i'r Awdurdodau hynny. Byddai'n golygu cynnal un set yn llai o etholiadau wrth fynd ati i greu strwythurau newydd, byddai'n adeiladu ar ymrwymiad Awdurdodau presennol i gynllunio ar gyfer pontio a byddai'n cynnwys cyfnod o weithredu cysgodol, ar sail yr Awdurdodau presennol. Byddai'r Awdurdodau sy'n symud yn gynnar wedi'u breinio'n llawn ddwy flynedd cyn yr Awdurdodau eraill, a fyddai'n galluogi'r Awdurdodau newydd sydd wedi mynd drwy broses uno'n gynnar i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid gwasanaethau'n fwy cyflym.

68. Dim ond yng nghyswllt Awdurdodau sydd wedi cyflwyno cynnig ar y cyd y byddai'r pŵer gwneud rheoliadau'n cael ei arfer. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu peidio â gweithredu ynghylch cynnig.

<u>Datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol</u>

69. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth hefyd yn diwygio adran 4 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol.

70. Caiff Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru eu creu dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004"). Yng Nghymru, mae Awdurdod Lleol yn Awdurdod Tân ac Achub. Gallai Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gyflwyno cynllun i greu Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer

ardal gyfun sy'n cynnwys dau neu ragor o Awdurdodau Lleol. 'Gorchmynion cyfuno' a wnaed ar wahân dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 ac a gedwir gan adran 4 o Ddeddf 2004 sydd wedi creu'r tri Awdurdod Tân ac Achub presennol; caiff pob un ei ddiffinio drwy gyfeirio at ardal ei Awdurdodau Lleol cyfansoddol.

71. Pe bai dau neu ragor o Awdurdodau Lleol sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu gan Awdurdodau Tân ac Achub gwahanol yn uno'n wirfoddol, byddai angen i orchmynion cyfuno'r ddau Awdurdod Tân ac Achub gael eu diwygio'n sylweddol er mwyn gosod yr ardal newydd gyfan yn y naill Awdurdod Tân ac Achub neu'r llall. Gan fod Awdurdodau Tân ac Achub, drwy ddiffiniad, naill ai'n Awdurdodau Lleol neu (yn achos y tri Awdurdod Tân ac Achub sydd yng Nghymru) yn gyfuniadau o Awdurdodau Lleol, nid yw'n bosibl i un Awdurdod Lleol gael ei wasanaethu gan ddau Awdurdod Tân ac Achub.

72. Mae adran 4 o Ddeddf 2004 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru amrywio gorchymyn cyfuno, ond mae'n gosod rhai amodau ar y pŵer hwnnw. Yn benodol, ni chaiff Gweinidogion Cymru amrywio gorchymyn cyfuno oni bai eu bod:

    - wedi ymgynghori â'r Awdurdodau (Lleol a Thân) y mae'r amrywiad yn effeithio arnynt, ac unrhyw bobl briodol eraill; ac

    - wedi cynnal ymchwiliad lleol i'r amrywiad arfaethedig, er y caiff y gofyniad hwnnw ei ddatgymhwyso os bydd yr Awdurdodau (Lleol a Thân) yr effeithir arnynt yn cytuno â'r amrywiad; neu os yw'n angenrheidiol gwneud yr amrywiad yn ddi-oed er mwyn diogelwch y cyhoedd.

73. Byddai unrhyw newid sylweddol i orchmynion cyfuno'n golygu y byddai'n ofynnol ymgynghori a chynnal ymchwiliad lleol pe na bai'r Awdurdodau yr effeithir arnynt yn cytuno â'r newid. Yn achos trefniant uno gwirfoddol a fyddai'n croesi ffin Awdurdod Tân ac Achub, ni fyddai modd i drefniant uno o'r fath fynd yn ei flaen oni bai bod gorchmynion cyfuno sydd wedi'u diwygio ar waith. Heb hynny, ni fyddai gan unrhyw sefydliad gyfrifoldeb clir am Wasanaethau Tân ac Achub yn yr ardal newydd.

74. Gallai'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol, pe na bai'r Awdurdodau yr effeithir arnynt yn barod i gytuno i amrywio gorchymyn cyfuno, arwain at oedi sylweddol o safbwynt cyflwyno gwelliannau i'r gorchmynion, ac felly o safbwynt uno'r Awdurdodau Lleol hefyd. Byddai hynny'n digwydd er gwaethaf unrhyw gynnig i uno'n wirfoddol sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad lleol estynedig.

75. Mae hynny'n creu risg o safbwynt amseru a gweithredu trefniadau uno gwirfoddol dan y Bil. Gallai Awdurdod Tân ac Achub yr effeithir arno wrthod cytuno â'r newid, fel y gallai Awdurdodau Lleol eraill yr effeithir arnynt. Yn naturiol, byddai unrhyw fath o wrthwynebiad yn tanseilio'r egwyddor y dylai trefniadau uno gwirfoddol gael eu gweithredu'n fuan. Byddai hefyd yn golygu y gallai Awdurdod Tân ac Achub neu Awdurdod Lleol arall ddifetha

dymuniad dilys dau Awdurdod Lleol sy'n dymuno uno'n wirfoddol, ar ôl ymgynghori â phawb sydd â budd yn yr ardal leol.

76. Mae'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn diwygio adran 4 o Ddeddf 2004 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol.

77. Byddai'r ddarpariaeth yn nodi na ddylai grym fod yn perthyn i'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol, os caiff gorchymyn cyfuno ei amrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol – ni waeth a yw'r Awdurdodau yr effeithir arnynt yn cytuno â'r newid ai peidio.

78. Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni'r bwriad polisi, wrth baratoi ar gyfer y posibilrwydd y bydd angen i Weinidogion Cymru gymryd camau cyflym o ganlyniad i gais i uno'n wirfoddol, sy'n ymwneud â dau neu ragor o Awdurdodau Lleol sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub.

79. Gweithredwyd yn yr un modd yng nghyswllt trefniadau uno gwirfoddol Awdurdodau Lleol yn Lloegr dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

Bwriad polisi 5: Sicrhau bod modd gweithredu, drwy reoliadau, yr adolygiadau a gwblhawyd eisoes gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a gafodd ei ailenwi yn 2013 yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) rhwng 2010 a 2012 ynghylch trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol.

80. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi hwn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Opsiwn 1: Gwneud dim: Peidio â diwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"), na fyddai fel y mae wedi'i geirio ar hyn o bryd yn ei gwneud yn bosibl i rai adolygiadau a gwblhawyd eisoes gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gael eu gweithredu drwy reoliadau.

    - Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 er mwyn sicrhau bod modd i adolygiadau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a gwblhawyd eisoes ynghylch trefniadau etholiadol, gael eu gweithredu drwy reoliadau.

81. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Peidio â diwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, na fyddai fel y mae wedi'i geirio ar hyn o bryd yn ei gwneud yn bosibl i bump o adolygiadau a gwblhawyd eisoes gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gael eu gweithredu.

82. Roedd gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a gafodd ei ailenwi'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gan Ddeddf 2013) ddyletswydd statudol i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion ynghylch newid ardaloedd llywodraeth leol, creu ardaloedd llywodraeth leol newydd, diddymu ardaloedd llywodraeth leol a newid trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol.

83. Mae'r adolygiadau o drefniadau etholiadol yn cynnwys y trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol. Mae trefniadau etholiadol yn cynnwys nifer y cynghorwyr ar gyfer yr ardal gyfan; nifer y cynghorwyr ar gyfer unrhyw adran etholiadol yn yr ardal; nifer a ffiniau'r adrannau etholiadol ac enwau unrhyw adrannau etholiadol.

84. Yn unol â'i ddyletswydd statudol, gan ddilyn cyfarwyddydau a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn 2009, dechreuodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar gylch gwaith er mwyn cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol pob Prif Awdurdod Lleol yng Nghymru. Roedd y gwaith hwnnw'n cynnwys pump o adolygiadau gorffenedig ynghylch trefniadau etholiadol Prif Awdurdodau Lleol, y cyflwynodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru adroddiadau terfynol yn eu cylch rhwng 2010 a 2012. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr adroddiadau terfynol ac wedi cytuno eu bod yn dderbyniol. Fel rheol, byddai'r rheoliadau angenrheidiol yn cael eu gwneud er mwyn gweithredu'r trefniadau etholiadol a argymhellir.

85. Y pum ardal dan sylw yw Sir Ddinbych, Powys, Conwy, Ceredigion a Gwynedd. Fodd bynnag, amharwyd ar y broses weithredu'n dilyn cyhoeddi adroddiad annibynnol ym mis Mehefin 2011 a oedd yn datgan nad oedd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn addas at ei ddiben.

86. O ganlyniad, gohiriwyd y broses o weithredu'r argymhellion yn y pum adolygiad hyn. Canlyniad adroddiad 2011 oedd Deddf 2013 a ddiwygiodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Roedd Deddf 2013 yn cynnwys darpariaeth y bwriedid iddi "gadw" gwaith a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru cyn y broses ddiwygio, a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu ar sail y gwaith a oedd wedi'i gwblhau eisoes. Fodd bynnag, ceir amheuaeth ynghylch a yw'n bosibl gweithredu argymhellion yr adolygiadau hyn oherwydd y modd y mae adran 74 o Ddeddf 2013 wedi'i geirio ar hyn o bryd.

87. Mae Deddf 2013 yn nodi bod modd i unrhyw adolygiad sy'n cael ei gynnal ar 30 Medi 2013 gael ei weithredu gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn (hy rheoliadau). Mae'r geiriad hwn yn codi amheuon ynghylch a oes modd i'r argymhellion yn y pum adolygiad uchod gael eu gweithredu, gan fod yr adolygiadau eisoes wedi'u cynnal a'u cwblhau cyn 30 Medi 2013.
88. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), efallai na fydd yn bosibl gweithredu'r argymhellion sydd yn y pum adolygiad. Os na chaiff yr argymhellion eu

gweithredu, gallai Llywodraeth Cymru gael ei beirniadu am ddiystyru'r gwaith a gwblhawyd.

89. Diben yr argymhellion yn yr adolygiadau yw sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn y Prif Awdurdodau Lleol a adolygwyd. Mae'r adroddiadau'n argymell gostyngiad bach yn nifer y cynghorwyr ar gyfer pedwar Prif Awdurdod Lleol, sef Sir Ddinbych, Ceredigion, Conwy a Phowys, ac yn argymell y dylid cynyddu nifer y cynghorwyr ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Felly, gallai peidio â gweithredu'r argymhellion arwain at ganfyddiad cyffredinol bod yr ardaloedd hyn yn cael eu gorgynrychioli (yn achos y pedair ardal gyntaf) neu'u tangynrychioli (yn achos Sir Gaerfyrddin).

90. Er y cynigion ynghylch uno Awdurdodau Lleol, disgwylir i'r etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y pum Awdurdod Lleol dan sylw (yn amodol ar unrhyw gynigion ynghylch uno gwirfoddol gan yr Awdurdodau hynny) gael eu cynnal yn 2017. Byddai'n briodol i'r etholiadau hynny fynd yn eu blaen ar sail trefniadau etholiadol sydd wedi'u diweddaru, yn hytrach na threfniadau y nodwyd bod angen eu newid sawl blwyddyn yn flaenorol.

91. Un opsiwn amgen fyddai i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau newydd o'r Awdurdodau dan sylw, gan fynd i'r gost a ddaw yn sgil pob adolygiad o'r fath.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 er mwyn sicrhau bod modd i adolygiadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch trefniadau etholiadol gael eu gweithredu.

92. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 2), byddai unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i weithredu'r argymhellion yn yr adolygiadau'n cael ei dileu, a byddai'r argymhellion yn cael eu gweithredu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Bil gael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol.

93. Byddai gweithredu'r argymhellion yn sicrhau cydraddoldeb etholiadol i'r pum Prif Awdurdod Lleol a adolygwyd, sef Sir Ddinbych, Powys, Conwy, Ceredigion a Gwynedd. Gan fod yr adroddiadau'n argymell gostyngiad bach yn nifer y cynghorwyr ar gyfer pedair o'r pum ardal dan sylw, byddai hynny hefyd yn arwain at arbediad bach o ran cost i'r Awdurdodau Lleol dan sylw, o ran cyflogau cynghorwyr.

Bwriad polisi 6: Ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, ac egluro bod modd i Brif Awdurdod Lleol drefnu bod trydydd parti'n cynnal yr arolwg ar ei ran.

94. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

    - Opsiwn 1: Gwneud dim: Ni fyddai geiriad presennol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ddiwygio. Byddai Awdurdodau Lleol yn parhau i gynnal yr arolwg *ar ôl* etholiadau lleol, a'r *awgrym* o hyd fydd bod yn rhaid i Awdurdodau gynnal eu harolygon eu hunain yn hytrach na'u bod yn gallu defnyddio trydydd partïon i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

    - Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, ac egluro bod modd i Awdurdodau gyflogi trydydd partïon i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

95. Caiff pob opsiwn ei egluro isod.

Opsiwn 1. Gwneud dim: Ni fyddai geiriad presennol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ddiwygio. Byddai Prif Awdurdodau Lleol yn parhau i gynnal yr arolwg *ar ôl* etholiadau lleol, a'r *awgrym* o hyd fydd bod yn rhaid i Awdurdodau gynnal eu harolygon eu hunain yn hytrach na'u bod yn gallu cyflogi trydydd parti i gynnal yr arolwg ar eu rhan.

96. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") yn mynnu bod Awdurdodau yn cynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl pob etholiad cyffredin (hy etholiad y cyngor cyfan) ar lefel Prif Awdurdod Lleol ac ar lefel cynghorau cymuned.

97. Diben yr arolwg yw ei gwneud yn bosibl monitro proffil ymgeiswyr a chynghorwyr llywodraeth leol er mwyn asesu amrywiaeth y grwpiau hyn a mesur effaith unrhyw bolisïau y bwriedir iddynt wella amrywiaeth. Nid oes gorfodaeth ar unigolion i ymateb i'r arolwg, a bydd y wybodaeth a ddaw i law mewn ymateb i arolwg yn cael ei chadw'n ddienw.

98. Mae geiriad presennol adran 1(1) ac adran 1(2) o'r Mesur yn mynnu bod Awdurdodau yn cynnal yr arolwg ar ôl etholiadau lleol, ac mae'r geiriad hwn yn awgrymu bod yn rhaid i'r arolwg gael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol ei hun:

- *Rhaid i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau o dan yr adran hon, gynnal arolwg –*

(a) o gynghorwyr yn ei ardal, a
(b) o ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol i swydd cynghorydd yn ei ardal.

- *Rhaid i awdurdod lleol gynnal arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin –*

(a) ar gyfer cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol, a
(b) ar gyfer cyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol.

99. Tynnodd adroddiad diweddar gan y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol sylw at y canlynol:

- *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu methodoleg sy'n golygu bod modd dosbarthu holiaduron yr arolwg wrth ddelio â phapurau enwebu, cyn yr etholiadau.*

- *Dylai Llywodraeth Cymru gytuno â llywodraeth leol i gyflogi un darparwr ymchwil, megis Uned Data Llywodraeth Leol, i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yn yr etholiadau nesaf.*

100. At hynny, roedd y Grŵp Arbenigol o'r farn bod gweinyddu'r arolwg yn dilyn yr etholiadau yn 2012 (2013 yn Ynys Môn) wedi cael effaith negyddol ar y gyfradd ymateb gyffredinol. Gwelwyd hefyd mai'r Awdurdodau Lleol a oedd wedi defnyddio trydydd parti i weinyddu'r holiadur a gafodd y nifer mwyaf o ymatebion.

101. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), ni fyddai Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp

Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol. Byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn golygu bod yr arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr yn parhau i gael ei gynnal ar ôl etholiadau, a byddai'n awgrymu bod yn rhaid i Awdurdodau gynnal eu harolygon eu hunain yn hytrach na chyflogi trydydd parti i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, ac egluro bod modd i Awdurdodau lleol gyflogi trydydd partïon i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

102. Mae'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn ystyried argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ynghylch yr Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

103. Mae'r opsiwn hwn yn diwygio'r ddarpariaeth yn adran 1 o Fesur 2011, sy'n mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cynnal arolwg o gynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr aflwyddiannus "ar ôl pob etholiad cyffredin". Daeth y Grŵp Arbenigol i'r casgliad y byddai modd sicrhau cyfradd ymateb uwch pe bai'r arolwg yn cael ei gynnal cyn yr etholiadau, yn ystod y cyfnod enwebu. Felly, mae'r opsiwn hwn yn ceisio dileu'r geiriau "ar ôl" ac ychwanegu "yng nghyswllt" yn adran 1(2) o Fesur 2011.

104. Er mwyn i'r cynnig hwn weithio'n llwyddiannus, mae'r opsiwn hwn hefyd yn ceisio dileu'r ddarpariaeth yn adran 1(6) o Fesur 2011, sy'n mynnu bod Awdurdodau yn trefnu bod y wybodaeth yn yr arolwg yn cael ei darparu'n ddienw. Bydd hynny'n helpu'r sawl sy'n cynnal yr arolwg i wybod pa ymatebion a roddwyd gan ymgeiswyr a gafodd eu hethol, a chynnal dadansoddiad ar wahân o'r rheini fel sy'n ofynnol gan Fesur 2011. Y dewis arall fyddai cynnal ail arolwg o'r sawl a etholwyd i Brif Awdurdodau Lleol neu gynghorau cymuned, ar ôl yr etholiadau.

105. Yn ogystal, mae'r opsiwn hwn yn ceisio diwygio adran 1(1) fel ei bod yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol "drefnu bod arolwg yn cael ei gynnal" yn hytrach na'i bod yn ofynnol iddynt gynnal arolwg. Byddai hynny'n ei gwneud yn glir bod modd i Awdurdodau Lleol gontractio â darparwr allanol a allai, yn ei dro, gynnal arolygon ar ran mwy nag un Awdurdod. Dyma'r opsiwn a gaiff ei ffafrio o gofio cyfraddau ymateb uchel yr Awdurdodau Lleol hynny a ddefnyddiodd drydydd parti i weinyddu'r holiadur yn 2012.

7. Costau a manteision

106. Mae'r Bennod hon yn dadansoddi costau a manteision yr opsiynau a nodwyd ym Mhennod 6. Rhoddwyd gwerth ariannol i'r costau, ac maent yn ymdrin â'r cyfnodau a nodir. O safbwynt nifer o fwriadau polisi, mae natur y manteision a nodir yn golygu y caiff disgrifiad ansoddol o'r manteision ei gyflwyno. Gan nad oes modd mesur y manteision, mae'n anodd cymharu'r costau a'r manteision mewn modd gwrthrychol ac mae'n rhaid llunio barn ynghylch a yw'r manteision yn cyfiawnhau'r costau ychwanegol.

107. Mae'r asesiad yn cyflwyno'r amcangyfrif gorau o gostau ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Mae nodyn ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y costau i'w weld yn Atodiad A. Mae nifer o ragdybiaethau wedi'u defnyddio wrth ddadansoddi, felly mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf er mwyn adlewyrchu hynny.

Bwriad polisi 1: Sicrhau y cynhelir adolygiad ac y cyflwynir argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardaloedd newydd arfaethedig y mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu bod yn bwriadu eu sefydlu, cyn cynnal etholiadau cyntaf Awdurdodau Lleol yr ardaloedd hynny.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau â'i raglenni gwaith presennol ond ni fyddai modd iddo gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardal newydd arfaethedig nes y byddai'r ardaloedd newydd hynny wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, h.y. mewn gorchymyn ar gyfer uno'n gynnar yn wirfoddol neu mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.

Costau

108. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau â'i raglenni gwaith eraill ond ni fyddai modd iddo ddechrau ar waith a chynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu drwy ddeddfwriaeth, h.y. yn achos unrhyw uno gwirfoddol, pan fyddai'r rheoliadau angenrheidiol wedi'u gwneud (rhagwelir y byddai hynny'n digwydd yn ystod gwanwyn 2016) neu, yn achos unrhyw uno arall, mewn ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) (a fyddai'n cael ei basio yn 2017, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad).

109. Os na fydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cael y pŵer i ymgymryd â gwaith yn gynnar, byddai costau'r gwaith y byddai angen o hyd ei gwblhau ynghylch y trefniadau etholiadol yn parhau i ddigwydd, ond byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn digwydd yn ystod 2017-2020. Byddai angen o hyd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gael £884,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal yn amserol, ar ôl creu'r Awdurdodau newydd. Mae manylion y costau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod. Byddai ychwanegu'r swm hwn at y lefel gyllido bresennol yn golygu mai cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru fyddai £4,004,000. Bydd yr arian ychwanegol yn galluogi'r Comisiwn i gynyddu ei gapasiti cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr arian yn talu am gostau staff ychwanegol a chostau gweinyddu ychwanegol, megis teithio a chynhaliaeth, hyfforddiant a TG.

Tabl 1: Costau i Lywodraeth Cymru: y cyllid y mae ei angen ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adolygu trefniadau etholiadol y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig, rhwng 2015 a 2021 (£).

	Cyfanswm y cyllid y mae ei angen, sef:	Y lefel gyllido bresennol	Y cyllid ychwanegol y mae ei angen
2015-16	520,000	520,000	0
2016-17	520,000	520,000	0
2017-18	770,000	520,000	250,000
2018-19	770,000	520,000	250,000
2019-20	770,000	520,000	250,000
2020-21	654,000	520,000	134,000
Cyfanswm y costau	4,004,000	3,120,000	**884,000**

Manteision

110. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

111. Mae'r opsiwn hwn yn gohirio, ond nid yw o reidrwydd yn osgoi, y costau sy'n gysylltiedig ag ariannu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gyflawni gwaith sy'n ymwneud ag ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd newydd arfaethedig a chyflwyno argymhellion yn eu cylch.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gwaith yn gynnar ar yr adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Ardaloedd newydd arfaethedig.

Costau

112. Mae'r costau a nodir dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn ymwneud â sicrhau bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cyflawni'r gwaith gofynnol mewn pryd ar gyfer cynnal yr etholiadau cyntaf yn dilyn uno. Cynhelir yr etholiadau hynny ym mis Mai 2018 ar gyfer Awdurdodau Lleol a ffurfir drwy drefniant uno gwirfoddol, ac ym mis Mai 2019 ar gyfer Awdurdodau Lleol a ffurfir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

113. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif mai £884,000 fydd y costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig ag adolygu'r trefniadau etholiadol mewn pryd ar gyfer cynnal yr etholiadau cyntaf. Caiff y gost hon ei thalu gan gymhorthdal a roddir i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gan Lywodraeth Cymru. Byddai ychwanegu'r swm hwn at y lefel gyllido bresennol yn golygu mai cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru fyddai £4,004,000. Bydd yr arian ychwanegol yn galluogi'r Comisiwn i gynyddu ei gapasiti cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr arian yn talu am gostau staff ychwanegol a chostau gweinyddu ychwanegol, megis teithio a chynhaliaeth, hyfforddiant a TG.

Tabl 2: Costau i Lywodraeth Cymru: y cyllid y mae ei angen ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adolygu trefniadau etholiadol y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig, rhwng 2015 a 2021 (£).

	Cyfanswm y cyllid y mae ei angen, sef:	**Y lefel gyllido bresennol**	**Y cyllid ychwanegol y mae ei angen**
2015-16	641,000	520,000	121,000
2016-17	697,000	520,000	177,000
2017-18	861,000	520,000	341,000
2018-19	591,000	520,000	71,000
2019-20	589,000	520,000	69,000
2020-21	625,000	520,000	105,000
Cyfanswm y costau	4,004,000	3,120,000	**884,000**

Manteision

114. Dan yr opsiwn hwn, byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gwaith yn gynnar ar adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig a chyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau

etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Awdurdod Lleol newydd y mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu bod yn bwriadu ei sefydlu.

115. Dan yr opsiwn hwn, byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn dechrau cynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw Brif Ardal newydd arfaethedig (boed yn un sy'n uno'n wirfoddol drwy orchymyn neu'n un sy'n uno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru)) yn fuan wedi i'r Bil hwn gael ei basio, yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

116. Yn ogystal, bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i'r adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y Prif Ardaloedd newydd arfaethedig gael eu cynnal a'u gweithredu mewn da bryd ar gyfer cynnal yr etholiadau cyntaf, naill ai yn 2018 (ar gyfer Awdurdod newydd a sefydlir yn wirfoddol drwy reoliadau ynghylch uno) neu yn 2019 (ar gyfer Awdurdodau a sefydlir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru)). Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r angen i gynnal momentwm sefydliadol, ac mae'n sicrhau bod yr Awdurdodau newydd a gaiff eu creu gan y rhaglen uno'n cael eu lansio'n amserol. Mae'n darparu eglurder yn gynharach i randdeiliaid, sy'n cynnwys y cyhoedd, cynghorwyr, ymgeiswyr a swyddogion etholiadol. Mae hefyd yn agored ac yn dryloyw, gan y byddai'r adolygiadau etholiadol yn cael eu cynnal yn gyhoeddus gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

117. Opsiwn 2 sy'n cyflawni'r bwriad polisi yn y modd mwyaf synhwyrol. Caiff trefniadau ar gyfer wardiau eu hadolygu gan gorff amhleidiol y mae ganddo arbenigedd a phrofiad sy'n berthnasol i'r ymarfer penodol hwnnw, a hynny mewn pryd ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd.

Bwriad polisi 2: Penderfynu ar daliadau i aelodau'r Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdod Cysgodol a sefydlir cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd ddod i fodolaeth.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Byddai penderfyniadau ar daliadau i aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno, ac aelodau unrhyw Awdurdodau Cysgodol, yn cael eu cwblhau'n rhan o gwrs gwaith arferol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond ni fyddai modd dechrau'r gwaith nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu mewn deddfwriaeth, sef yn ystod gwanwyn 2016 ar gyfer ardal newydd a sefydlir drwy reoliadau, ac yn ystod 2017 ar gyfer ardaloedd a sefydlir drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

Costau

118. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), byddai penderfyniadau ar daliadau i aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Awdurdod sydd newydd fynd drwy broses uno, ac aelodau etholedig sy'n gwasanaethu mewn unrhyw Awdurdodau Cysgodol, yn cael eu cwblhau'n rhan o gwrs gwaith arferol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ni fyddai modd dechrau'r gwaith hwn nes y byddai'r Awdurdodau newydd wedi'u sefydlu drwy ddeddfwriaeth (sef yn ystod gwanwyn 2016 ar gyfer ardal sydd wedi deillio o drefniant uno gwirfoddol drwy reoliadau, ac yn ystod 2017 ar gyfer ardaloedd a gaiff eu huno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru)). Ni fyddai hynny'n caniatáu i benderfyniadau ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig gael eu gwneud yn ddigon buan, yn enwedig yng nghyswllt achosion arfaethedig o uno gwirfoddol ac yng nghyswllt eu Hawdurdodau Cysgodol.

119. Byddai unrhyw adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gynnal yn rhan o gwrs gwaith arferol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol; fodd bynnag, byddai rhai goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru. Byddai'n rhaid i'r Panel gynnal adolygiad yn hwylus pan fyddai'r ddeddfwriaeth ar gyfer yr Awdurdodau newydd wedi'i phasio. Byddai angen £20,000 yn ychwanegol am flwyddyn i gefnogi cyfarfodydd, ymgynghoriadau a gwaith ysgrifennu adroddiadau a fyddai'n gysylltiedig â'r adolygiad.

120. Nid yw'r opsiwn hwn yn rhoi digon o amser i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyflawni ei ymchwil ei hun, casglu tystiolaeth yn drwyadl a chyd-drafod, er y gellid cynnal rhyw fath o adolygiad o safbwynt ymarferol. Byddai amserlenni'n dynnach, a byddai hynny'n effeithio ar ansawdd ac ystod y gwaith ymgysylltu, ymgynghori a myfyrio a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw adolygiad, ac yn effeithio felly ar ansawdd ac ystod unrhyw adroddiadau terfynol hefyd. Ni fyddai cywasgu diwrnodau gwaith ychwanegol i mewn i un flwyddyn yn sicrhau bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael y cyfnodau priodol o amser sy'n ofynnol i ymgysylltu, ymgynghori neu fyfyrio'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid allweddol.

121. Wrth weithredu rhaglen o drefniadau uno Awdurdodau Lleol, dylai aelodau etholedig sy'n gwasanaethu neu sy'n dal swyddi uchel mewn Prif Awdurdod Lleol sydd newydd fynd drwy broses uno fod â'r hawl i gael taliadau priodol yng nghyswllt eu cyfrifoldebau mewn Awdurdod Cysgodol ac o'r Diwrnod Breinio ar gyfer yr Awdurdod newydd. Dan yr opsiwn hwn, ceir risg na fyddai hynny efallai'n digwydd, yn enwedig yng nghyswllt unrhyw ardaloedd sy'n uno'n wirfoddol yn ystod 2016. O ganlyniad, gallai cynghorwyr sy'n gwasanaethu mewn Awdurdod Cysgodol ac mewn Awdurdod llawn weld bod eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau wedi'i gyfyngu, neu gallent fod mewn sefyllfa lle nad ydynt yn cael cydnabyddiaeth briodol am eu gwaith. Mae cyfnod yr Awdurdod Cysgodol a blwyddyn gyntaf Awdurdod newydd sy'n gweithredu'n llawn yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y Prif Awdurdod Lleol newydd. Ni ddylid tynnu sylw cynghorwyr oddi ar y prif faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw ac ni ddylid eu hatal rhag canolbwyntio ar y materion hynny.

Tabl 3: Costau i Lywodraeth Cymru: cyllid ar gyfer y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, 2017-18.

Gradd	Cyflog (£)	Amser (diwrnodau)	Cost (£)
3 Aelod o'r Panel	200 (y dydd)	18	11,000
1 Is-gadeirydd	230 (y dydd)	18	4,000
1 Cadeirydd	260 (y dydd)	18	5,000
Cyfanswm y gost			**20,000**

122. Bydd yn ofynnol i Is-adran Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ysgrifenyddol ychwanegol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol pan fydd angen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyfarfod. Yn ogystal, bydd angen i'r Is-adran reoli llwyth gwaith ychwanegol a fydd yn gysylltiedig â monitro cyllideb y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Tabl 4: Costau cyfle i Lywodraeth Cymru o safbwynt cefnogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, 2017-18.

Gradd	Cyflog blynyddol gros (£)	Amser (diwrnodau)	Cost (£)
Swyddog Polisi (Gradd 7)	69,000	10	3,000
Swyddog Polisi (Swyddog Gweithredol Uwch)	41,000	20	3,000
Swyddog Polisi (Cymorth Tîm)	26,000	20	2,000
Cyfanswm y gost			**8,000**

Manteision

123. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth er mwyn galluogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddechrau ar y gwaith yn gynnar a phenderfynu ar daliadau i aelodau'r Awdurdodau newydd arfaethedig ac aelodau unrhyw Awdurdodau Cysgodol a sefydlir cyn i Brif Awdurdod Lleol newydd ddod i fodolaeth.

Costau

124. Amcangyfrifir y bydd yn costio oddeutu £20,000 yn ychwanegol bob blwyddyn am ddwy flynedd (2016-17 a 2017-18) i gynnal ymchwil ac adolygiadau mewn pryd er mwyn darparu ar gyfer yr Awdurdodau Cysgodol arfaethedig a'r Prif Awdurdodau Lleol newydd; mae hynny'n gyfanswm o £40,000. Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd ychwanegol ac ymgyngoriadau a drafftio adroddiadau, a Llywodraeth Cymru fyddai'n gorfod eu talu.

Tabl 5: Costau i Lywodraeth Cymru: cyllid ar gyfer y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, rhwng 2016-17 a 2017-18.

Gradd	Cyflog (£)	Amser (diwrnodau)	Cost (£)
3 Aelod o'r Panel	200 y dydd	18	11,000
1 Is-gadeirydd	230 y dydd	18	4,000
1 Cadeirydd	260 y dydd	18	5,000
		Cyfanswm y gost flynyddol	20,000
		Cyfanswm y gost ar gyfer 2 flynedd	**40,000**

125. Yn ogystal, bydd costau cyfle ychwanegol yn dod i ran Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr Is-adran Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi, a fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ystod y cyfnod hwn.

Tabl 6: Costau cyfle i Lywodraeth Cymru o safbwynt cefnogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, rhwng 2016-17 a 2017-18.

Gradd	Cyflog blynyddol gros (£)	Amser (diwrnodau)	Cost (£)
Swyddog Polisi (Gradd 7)	69,000	10	3,000
Swyddog Polisi (Swyddog Gweithredol Uwch)	41,000	20	3,000
Swyddog Polisi (Cymorth Tîm)	26,000	20	2,000
Cyfanswm y gost flynyddol			8,000
Cyfanswm y gost ar gyfer 2 flynedd			**16,000**

Manteision

126. Mae'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn rhoi digon o amser i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyflawni ei ymchwil ei hun, casglu tystiolaeth yn drwyadl a chyd-drafod. Mae cynnal adolygiad dros gyfnod o ddwy flynedd yn sicrhau bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael y cyfnodau priodol o amser sy'n ofynnol i ymgysylltu, ymgynghori a myfyrio'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid allweddol.

127. Byddai disgwyl i gynghorwyr sy'n gwasanaethu yn y Prif Awdurdod Lleol sydd newydd fynd drwy broses uno, ac a grëwyd drwy'r cynigion presennol, allu cael taliadau yng nghyswllt eu cyfrifoldebau a'u gwasanaeth yn yr Awdurdod newydd o'r Diwrnod Breinio ymlaen. Byddai gwneud penderfyniadau ar daliadau i aelodau Awdurdodau Cysgodol ac Awdurdodau newydd arfaethedig yn ei gwneud yn bosibl i fframwaith cydnabyddiaeth ariannol fod yn ei le cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd gael eu sefydlu. Byddai hefyd yn darparu eglurder yn gynharach i gynghorwyr ac ymgeiswyr.

128. Byddai hynny'n sicrhau y gallai aelodau Awdurdodau Cysgodol a Phrif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig gael cydnabyddiaeth deg a phriodol am eu cyfrifoldebau newydd, a fyddai'n gysylltiedig â maint unrhyw Awdurdodau newydd. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn galluogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i osod gofynion er mwyn osgoi dyblygu taliadau sy'n ymwneud â busnes swyddogol yr aelodau a allai fod yn gwasanaethu mewn Awdurdod Cysgodol ac mewn Awdurdod presennol ar yr un pryd.

129. Mae'r opsiwn hwn yn galluogi'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ystyried yn llawn y newidiadau sydd ar ddod, ac ystyried y newidiadau hynny yn eu hadroddiadau, am gost ychwanegol o £20,000.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

130. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a gaiff ei ffafrio. Er y bydd yn golygu costau sydd ychydig yn uwch, ystyrir ei bod yn hanfodol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gael digon o amser i wneud penderfyniadau ystyriol ar daliadau i gynghorwyr, cyn i'r Prif Awdurdodau Lleol newydd a'r Awdurdodau Cysgodol gael eu sefydlu.

Bwriad polisi 3: Sicrhau y sefydlir trefniadau cydweithio er mwyn sicrhau gwaith blaengynllunio effeithiol yng nghyswllt y Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig. Bydd hynny'n cynnwys cymryd camau i atal a rhwystro ymddygiad negyddol.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i sefydlu, ar eu liwt eu hunain, gyd-bwyllgorau i ystyried materion sydd o ddiddordeb cyffredin neu faterion y rhennir cyfrifoldeb amdanynt. Gallai Awdurdodau sy'n uno sefydlu cyd-bwyllgor pontio er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw uno arfaethedig, ond ni fydd yn ofynnol iddynt sefydlu pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai dim mewn deddfwriaeth chwaith i arwain gwaith pwyllgorau o'r fath. Ni fyddai unrhyw welliannau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i ddeddfwriaeth er mwyn rhwystro ac atal ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno.

Costau

131. Os na chaiff trefniadau statudol eu sefydlu ar gyfer cydweithio ac os na chaiff deddfwriaeth ei chreu i rwystro ac atal ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno, gallai hynny arwain at amryw ganlyniadau yng nghyswllt y Prif Awdurdodau Lleol newydd a gaiff eu ffurfio drwy uno.

132. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n arwain at drefniadau cynllunio anhrefnus yng nghyswllt yr Awdurdodau newydd arfaethedig. Byddai'r Prif Awdurdodau Lleol presennol yn rhydd i benderfynu faint o adnoddau (os o gwbl) y dylid eu neilltuo i weithgareddau cynllunio ar gyfer yr Awdurdod newydd.

133. Efallai y bydd rhai Prif Awdurdodau Lleol yn cyflawni gwaith paratoi trylwyr iawn mewn rhai meysydd, tra bydd meysydd eraill efallai'n cael eu hanwybyddu'n llwyr. Ar sail profiad hanesyddol, ceir risg y gallai rhai Prif Awdurdodau Lleol hyd yn oed fabwysiadu polisi o beidio â chydweithredu a pheidio â thrafod â Phrif Awdurdodau Lleol eraill sy'n rhan o drefniant uno arfaethedig.

134. Os na fydd yr Awdurdodau Cysgodol newydd yn cael digon o gyngor a gwybodaeth gan yr Awdurdodau presennol yn ystod y cyfnod cyn i'r Awdurdodau presennol gael eu diddymu, ni fydd yr Awdurdodau Cysgodol mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol ynghylch gwaith cynllunio'r Prif Awdurdodau Lleol newydd ar gyfer y dyfodol, a bydd eu gallu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sefydlu gwasanaethau lleol, cost-effeithiol o safon wedi'i gyfyngu'n ddifrifol.

135. Gallai hynny arwain hefyd at benodi uwch-swyddogion ar frys. Os na chaiff cyngor amserol ei roi ynghylch gwaith cynllunio'r gweithlu ac ynghylch Datganiadau ar Bolisïau Tâl, bydd angen i'r Awdurdod Cysgodol newydd lunio Datganiad hollol newydd ar Bolisïau Tâl mewn cyfnod byr er mwyn dechrau ar y broses benodi ar gyfer y Prif Awdurdod Lleol mewn pryd ar gyfer y Diwrnod Breinio. Pe bai'r cyhoedd yn darganfod na lynwyd wrth y prosesau priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, byddai hynny'n tanseilio canfyddiadau'r cyhoedd a swyddogion ynghylch didwylledd, tegwch a thryloywder y broses ddiwygio.

136. Gallai rhai achosion godi lle cynigir cyflogau uwch mewn hysbysebion er mwyn denu'r arbenigedd cywir i'r swyddi uwch newydd yn y Prif Awdurdodau Lleol newydd. Gallai hynny ddwysáu pryder hirdymor ymysg y cyhoedd ynghylch gweithdrefnau gwneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion.

137. Os nad oes unrhyw systemau ffurfiol ar waith i sicrhau bod buddiannau'r Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig yn cael eu hystyried gan y Prif Awdurdodau Lleol presennol, mae'n debygol y bydd sïon ac amheuon yn codi ynghylch cymhelliant cynghorwyr a swyddogion wrth iddynt wneud (neu beidio â gwneud) rhai penderfyniadau yn ystod y cyfnod cyn uno.

138. Wrth ad-drefnu llywodraeth yn flaenorol yng Nghymru ac yn y DU, roedd sïon ar led bod Awdurdodau Lleol yn cymryd camau bwriadol i niweidio buddiannau'r Awdurdodau newydd arfaethedig yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd sïon ar led bod Awdurdodau presennol yn ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol a fyddai efallai'n amhosibl eu fforddio yn yr hirdymor. Pe bai sïon tebyg yn mynd ar led yn ystod y broses ddiwygio hon, heb fod systemau ar waith i ymdrin â'r gweithgareddau a allai achosi sïon o'r fath, gallai hynny gael effaith niweidiol barhaol ar enw da llywodraeth leol yng Nghymru.

Manteision

139. Dim un. Y Prif Awdurdodau Lleol presennol yn unig fyddai'n gyfrifol am baratoi ar gyfer yr uno, felly ni fyddai dim sicrwydd bod yr Awdurdodau yn gweithio gyda'i gilydd neu'n cynllunio ar gyfer rhai materion ac yn gweithredu yn eu cylch yn ystod y cyfnod cyn uno.

Opsiwn 2: Deddfu er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fynnu bod Prif Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol yn sefydlu cyd-bwyllgorau pontio, a rhoi cyfarwyddydau ynghylch sut y dylent weithredu. Ochr yn ochr â'r mesur hwn, darparu ar gyfer atal a rhwystro gwahanol fathau o ymddygiad mewn Prif Awdurdodau Lleol, a allai niweidio sefyllfa ariannol ac enw da'r Prif Awdurdodau Lleol newydd yn ystod y cyfnod cyn uno.

Costau

140. Bydd gofyn i Brif Awdurdodau Lleol ddarparu adnoddau priodol (gan gynnwys staff cymorth) i hwyluso'r cyd-bwyllgor pontio ar gyfer eu Prif Ardal newydd. Bydd costau'r cymorth yn oddeutu £77,000 y flwyddyn i bob pwyllgor, a byddant yn cael eu rhannu rhwng yr Awdurdodau cyfansoddol. Y Prif Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r un trefniant uno fydd yn gyfrifol am benderfynu sut yn union y bydd y swm hwn yn cael ei rannu rhyngddynt. Bydd unrhyw gostau o'r fath yn cael eu talu o gyllidebau'r Prif Awdurdodau Lleol presennol.

Tabl 7: Y costau blynyddol i Lywodraeth Leol ar gyfer pob cyd-bwyllgor pontio.

Costau staff/cynghorwyr	Cyflog blynyddol gros a amcangyfrifir (£)	Amser	Cost (£)
Swyddog Craffu Llywodraeth Leol (llawn amser)	53,000	100%	53,000
Swyddog Gweinyddol (rhan amser)	26,000	50%	13,000
Cynghorwyr (5)	13,000	10%	7,000
Costau teithio a chynhaliaeth i aelodau'r cabinet			4,000
Lwfans cyfrifoldeb ychwanegol i gynghorwyr sy'n gadeiryddion (un i bob Awdurdod Lleol)			10,000*
		Cyfanswm y gost	**77,000**

*Mae hwn yn amcangyfrif sy'n seiliedig ar achos lle mae dau Brif Awdurdod Lleol yn uno. Y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylai fod gan gadeirydd pwyllgor pontio yr hawl i gyflog sy'n cyfateb i gyflog uwch-swyddog. Y Prif Awdurdodau Lleol cyfansoddol fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylai'r cadeirydd gael ei ddewis o'r naill Awdurdod a'r llall, am yn ail. Gallai'r ffigur fod yn uwch pe bai tri Phrif Awdurdod Lleol yn uno, oherwydd gallai'r cadeirydd gael ei ddewis o bob un o'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol yn eu tro. Y Prif Awdurdodau Lleol fydd yn gyfrifol am ddarparu'r cyllid ar gyfer y cyflogau a gaiff eu talu i gadeiryddion.

141. O ran Prif Awdurdodau Lleol sy'n uno'n wirfoddol, bydd y rheoliadau ynghylch uno'n pennu pryd y bydd y pwyllgorau pontio'n cael eu sefydlu. Rhagdybir y bydd y pwyllgorau'n cael eu sefydlu cyn gynted ag y bo'n

ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud, sef o oddeutu mis Ebrill 2016 ymlaen, fwy na thebyg. O ran Awdurdodau a gaiff eu huno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru), caiff y pwyllgorau pontio eu sefydlu, drwy reoliadau, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, sef o fis Medi 2016 ymlaen, fwy na thebyg. Yn y ddau achos, bydd y pwyllgorau pontio'n dod i ben yn ffurfiol pan fydd yr "hen" Awdurdodau cyfansoddol a fu'n gyfrifol am eu sefydlu'n cael eu diddymu a phan fydd yr Awdurdod newydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau.

142. Bydd yn rhaid i'r pwyllgorau pontio drosglwyddo'r gwaith paratoi i'r Awdurdodau Cysgodol pan fyddant wedi'u sefydlu. Mae natur a diben y gwaith hwn yn golygu y bydd rôl (a chost) y pwyllgorau pontio yn gostwng i 10% yn ystod y cyfnod pan fyddant yn cydfodoli â'r Awdurdodau Cysgodol, neu'n gostwng i sero hyd yn oed yn ystod y misoedd olaf. Bydd y cyfnod hwn o lai o weithgarwch ar gyfer y pwyllgorau pontio'n digwydd rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018 ar gyfer Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol, a rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020 ar gyfer Awdurdodau sy'n uno drwy ail Fil Llywodraeth Leol.

143. Ceir elfen o ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch nifer yr achosion o uno gwirfoddol a fydd yn digwydd. Mae hynny'n effeithio ar faint ac amseru'r costau dan yr opsiwn hwn. Mae Tabl 8 yn cyflwyno dau senario – mae'r senario cyntaf yn seiliedig ar un achos o uno gwirfoddol ac wyth achos o uno drwy ail Fil, ac mae'r ail senario'n seiliedig ar ddau achos o uno gwirfoddol a saith achos o uno drwy ail Fil. Mae cyfanswm cost yr ail senario'n is na chyfanswm cost y senario cyntaf oherwydd (fel yr esbonnir uchod) bydd y pwyllgorau pontio ar gyfer achosion o uno gwirfoddol yn eu lle am gyfnod byrrach na'r pwyllgorau pontio ar gyfer achosion o uno drwy ail Fil.

Tabl 8: Costau Cymru gyfan i Lywodraeth Leol yng nghyswllt cyd-bwyllgorau pontio (£)*.

Math o uno	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm
Un achos o uno gwirfoddol / wyth achos o uno drwy'r brif raglen uno	385,000	659,000	616,000	339,000	**1,999,000**
Dau achos o uno gwirfoddol / saith achos o uno drwy'r brif raglen uno	424,000	624,000	539,000	297,000	**1,884,000**

*Mae dadansoddiad manylach o'r costau yn y tabl hwn i'w gael yn Atodiad A.

144. Rôl y pwyllgor fydd darparu cyngor ynghylch unrhyw fylchau, unrhyw anghysondebau ac unrhyw achosion o ddyblygu rhwng y ddau Awdurdod sy'n uno. Er enghraifft, gallai fod gan ddau Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r un trefniant uno drefniadau tebyg iawn o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Yn wir, efallai y byddant eisoes yn rhannu rhai trefniadau ar

gyfer gwasanaethau. Ar y llaw arall, efallai y bydd ganddynt drefniadau gwahanol iawn o ran tai a chasglu sbwriel.

145. Yn ogystal, bydd gan uwch-swyddogion yn y Prif Awdurdodau Lleol presennol ddyletswyddau o safbwynt cyd-bwyllgorau pontio. Efallai y bydd yn ofynnol iddynt fynychu rhai cyfarfodydd pwyllgorau, ac efallai y gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu adroddiadau i'r pwyllgor ynghylch y maes penodol y maent yn gyfrifol amdano. Fodd bynnag, ar yr un pryd bydd y swyddogion hynny'n gweld gostyngiad cyfatebol yn eu cyfrifoldebau o ran cynllunio ar gyfer yr Awdurdodau presennol. Cydnabyddir y bydd angen i uwch-swyddogion gydbwyso'r galwadau ar eu hamser yn ofalus.

146. Yn ogystal, bydd cost cyfle yn dod i ran Llywodraeth Cymru o safbwynt cynhyrchu'r canllawiau a roddir i gyd-bwyllgorau pontio, a fydd yn egluro eu hunion gylch gorchwyl a'u hunion weithgareddau.

Tabl 9: Costau i Lywodraeth Cymru o safbwynt cynhyrchu canllawiau ynghylch y modd y bydd cyd-bwyllgorau pontio'n gweithredu.

Gradd	Cost flynyddol y radd (£)	Amser	Cost (£)
Swyddog Polisi (Dirprwy Gyfarwyddwr)	101,000	5 diwrnod	2,000
Swyddog Polisi (Gradd 7)	69,000	20 diwrnod	6,000
Cyfreithiwr (Gradd 7)	69,000	5 diwrnod	1,000
		Cyfanswm	**9,000**

147. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau ychwanegol o ran yr angen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ystyried Datganiadau Prif Awdurdodau Lleol ar Bolisïau Tâl yng nghyswllt Prif Swyddogion a chyflwyno argymhellion yn eu cylch. Bydd angen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gael mwy o gapasiti yn ystod y cyfnod hwn, yn gyntaf er mwyn paratoi canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch paratoi argymhellion a chytuno ar argymhellion ar gyfer copi drafft o Ddatganiad ar Bolisïau Tâl, ac yn ail er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb parhaus sy'n ymwneud â chyflwyno argymhellion ynghylch unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Swyddog, nad oedd yn gymesur â Datganiad y Prif Awdurdod Lleol ar Bolisïau Tâl.

148. Bydd angen recriwtio aelod ychwanegol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ar gyfer y cyfnod diwygio o bedair blynedd (rhwng 2016-17 a 2019-20). Yn ogystal, bydd angen i'r Panel gael cymorth gweinyddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r costau hynny wedi'u hamlinellu yn Nhabl 10 isod.

Tabl 10: Costau i Lywodraeth Cymru o safbwynt cynyddu capasiti'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, rhwng 2016-17 a 2019-20.

Gradd	Cyflog (£)	Amser	Cost (£)
Swyddog Gweithredol (cymorth gan Lywodraeth Cymru)	30,000 y flwyddyn	Llawn amser	30,000
Aelod ychwanegol o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol	200 (y dydd)	24 diwrnod	5,000
Cyfanswm y gost flynyddol			35,000
Cyfanswm y costau ar gyfer y cyfnod diwygio rhwng 2016-17 a 2019-20			**140,000**

Manteision

149. Prif ddiben sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol yw sicrhau y caiff diwylliant o gydweithio ei sefydlu'n gynnar yn y broses bontio. Bydd y pwyllgorau'n archwilio'r trefniadau o ran gwasanaethau a chyfundrefnau yn yr Awdurdodau presennol, yn cymharu trefniadau o'r fath rhyngddynt, ac yn cynnig cyngor i'r Awdurdod Cysgodol olynol ynghylch unrhyw fylchau, unrhyw anghysondebau ac unrhyw achosion o ddyblygu, fel y bo'n briodol.

150. Byddant hefyd yn darparu gwybodaeth, safbwyntiau a chyngor er mwyn galluogi'r Awdurdod Cysgodol a'r tîm gweithredol i ystyried materion, a gwneud penderfyniadau ynghylch materion, a fydd yn sicrhau bod y Prif Awdurdod Lleol newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r diwrnod y bydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol (y Diwrnod Breinio). Bydd cyd-bwyllgorau pontio'n helpu i sicrhau bod gwaith paratoi cynhwysfawr ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod cyn uno. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y Prif Awdurdodau Lleol newydd yn y sefyllfa orau posibl ar y dechrau i sefydlu gwasanaethau cost-effeithiol sydd o safon.

151. Byddant hefyd yn helpu i leihau'r cyfle i Awdurdodau, cynghorwyr a swyddogion presennol ymddwyn mewn modd negyddol a niweidiol yn ystod y cyfnod cyn uno. Cyn i'r Awdurdodau Cysgodol newydd ddod i fodolaeth bydd y 'cyd-bwyllgorau pontio' yn cynnig cyngor, safbwyntiau ac argymhellion er mwyn helpu'r cyrff hynny i wneud penderfyniadau na fyddant yn niweidio sefyllfa ariannol neu enw da'r Prif Awdurdod Lleol newydd. Pe bai'r Awdurdod Cysgodol yn penderfynu cymryd camau sy'n groes i'r farn a roddwyd gan y pwyllgor pontio, byddai'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei resymau dros gymryd camau o'r fath.

152. Dylai'r mesurau ychwanegol a gymerir i atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn ystod y cyfnod cyn uno atal camau o'r fath rhag digwydd a thawelu unrhyw sïon bod y Prif Awdurdodau Lleol presennol yn ymddwyn mewn

modd niweidiol neu negyddol, gan ddiogelu Llywodraeth Leol rhag y risg o orfod dioddef niwed posibl i'w sefyllfa ariannol a'i henw da.

153. Bydd y gofyniad i Brif Awdurdodau Lleol sy'n uno ofyn am "gydsyniad priodol" gan yr Awdurdod Cysgodol olynol (neu gyfeirio materion er mwyn cael barn y cyd-bwyllgorau pontio, cyn i'r Awdurdodau Cysgodol gael eu sefydlu) yn diogelu rhag y posibilrwydd y gallai Prif Awdurdodau Lleol ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol a allai fod yn amhosibl eu fforddio neu a allai fod yn groes i fuddiannau hirdymor y Prif Awdurdod Lleol newydd.

154. Bydd y gofynion o ran y gwaith paratoi sydd i'w gwblhau yng nghyswllt Datganiadau ar Bolisïau Tâl yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch taliadau ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd yn cydymffurfio o'r dechrau â gweithdrefnau sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy.

155. Bydd y gofyniad i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyflwyno argymhellion ynghylch Datganiad Prif Awdurdod Lleol ar Bolisïau Tâl yng nghyswllt yr holl Brif Swyddogion yn cryfhau trefniadau craffu ar daliadau i uwch-swyddogion, ac yn helpu i ddiogelu enw da Llywodraeth Leol yn ystod y cyfnod cyn uno a thu hwnt.

156. Byddai'r gofyniad i Brif Awdurdodau Lleol sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i drefniant uno arfaethedig ar gael i'r Prif Awdurdodau Lleol eraill sy'n rhan o'r un trefniant uno, yn ystod y cyfnod pontio, yn lleihau unrhyw risg y gallai Prif Awdurdodau Lleol, yn ystod y cyfnod cyn iddynt gael eu diddymu, achosi llawer o rwystrau a dryswch drwy ddal gwybodaeth yn ôl.

Opsiwn 3: Peidio â mynd i'r afael â'r bwriad polisi nes y ceir ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Ni fyddai'n ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol sefydlu cyd-bwyllgorau pontio statudol i baratoi ar gyfer unrhyw uno a nodir, tan haf 2017. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig y bwriedir iddi rwystro ac atal ymddygiad negyddol hefyd yn cael ei gohirio tan haf 2017.

Costau

157. Bydd gohirio'r broses o weithredu'r bwriad polisi nes y ceir ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn arwain at gostau ychydig yn is o flaen llaw i Lywodraeth Leol. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r manteision a fwriedir a fydd yn cael eu gwireddu. Byddai'r gofyniad i Brif Awdurdodau Lleol presennol sefydlu pwyllgorau pontio'n cael ei gyflwyno flwyddyn yn ddiweddarach nag y byddent dan Opsiwn 2. Dan Opsiwn 2, byddai'n ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol y nodwyd y gellid eu huno sefydlu pwyllgorau pontio pan gaiff ail Fil *ei gyflwyno* i'r Cynulliad Cenedlaethol (ym mis Medi 2016). Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 3), ni fyddai'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu pwyllgorau pontio nes y byddai ail Fil *wedi'i basio* ym mis Mehefin 2017, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol.

158. Yn achos unrhyw uno gwirfoddol, byddai hynny'n golygu na fyddai unrhyw gyd-bwyllgor pontio statudol yn cael ei sefydlu. Erbyn haf 2017, sef yr adeg gynharaf y gallai ail Fil gael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol, byddai'r cyfnod pontio ar gyfer unrhyw uno gwirfoddol wedi pasio a byddai Awdurdodau Cysgodol ar fin cael eu sefydlu. Ychydig iawn o effaith y byddai deddfwriaeth at ddibenion atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn ei chael hefyd, gan na fyddai'n dod i rym tan ddiwedd y cyfnod pontio.

159. Er ei bod yn debygol y byddai'r Prif Awdurdodau Lleol presennol sy'n rhan o unrhyw drefniant uno gwirfoddol yn cydweithio'n agos yn ystod y cyfnod pontio, byddai ansawdd a chysondeb y gwaith paratoi a wneir yn ystod y cyfnod hwnnw'n dibynnu'n fawr ar ddidwylledd a chraffter y Prif Awdurdodau Lleol presennol. Yn achos unrhyw Awdurdodau Lleol a fyddai'n uno drwy ail Fil, ni fyddai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn cael eu cyflwyno tan ddwy flynedd cyn yr uno, a byddai eu heffaith felly'n llai.

160. Byddai gan gyd-bwyllgorau pontio oes fyrrach (dwy flynedd o gymharu â thair blynedd dan Opsiwn 2) i gwblhau gwaith paratoi. Yn ogystal, byddai deddfwriaeth arfaethedig i atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn cael ei chyflwyno ddwy flynedd, yn hytrach na thair blynedd, cyn yr uno. Bydd gofyn i Brif Awdurdodau Lleol sy'n rhan o drefniadau uno ddarparu adnoddau priodol i hwyluso'r cyd-bwyllgorau pontio, fel yn achos Opsiwn 2. Bydd costau hynny'n oddeutu £77,000 y flwyddyn i bob pwyllgor, a byddant yn cael eu rhannu rhwng yr Awdurdodau cyfansoddol. Fodd bynnag, gallai'r costau cyffredinol yn ystod y cyfnod ad-drefnu fod yn llai, gan y byddai'r gofyniad yn cael ei gyflwyno'n rhy hwyr o safbwynt trefniadau uno gwirfoddol. Yn ogystal, byddai gan y cyd-bwyllgorau pontio ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol a ddeddfir drwy ail Fil oes fyrrach.

161. Unwaith eto (fel y nodir yn Opsiwn 2), bydd yn rhaid i'r pwyllgorau pontio drosglwyddo'r prif gyfrifoldeb am waith paratoi i'r Awdurdodau Cysgodol pan fyddant wedi'u sefydlu. Disgwylir i rôl (a chost) y pwyllgorau pontio ostwng i 10% pan fydd yr Awdurdodau Cysgodol wedi'u sefydlu. Bydd hynny'n digwydd rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.

Tabl 11: Costau Cymru gyfan i Lywodraeth Leol yng nghyswllt cyd-bwyllgorau pontio (£).

Math o uno	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm
Un achos o uno gwirfoddol / wyth achos o uno drwy'r brif raglen uno	462,000	616,000	339,000	**1,417,000**
Dau achos o uno gwirfoddol / saith achos o uno drwy'r brif raglen uno	404,000	539,000	296,000	**1,239,000**

162. Er y gallai cost hwyluso'r cyd-bwyllgorau pontio fod yn llai na'r hyn a nodir dan Opsiwn 2, bydd yn golygu y bydd Llywodraeth Leol dan fwy o bwysau i gwblhau gwaith paratoi pwysig mewn cyfnod byrrach. Mae'n bosibl y bydd uwch-swyddogion yn ei chael yn anodd cydbwyso eu llwyth gwaith rhwng gwaith parhaus y Prif Awdurdod Lleol presennol a gwaith cynllunio ar gyfer y Prif Awdurdod Lleol newydd.

163. O safbwynt y ddeddfwriaeth at ddibenion atal a rhwystro ymddygiad negyddol, ni fyddai cyflwyno deddfwriaeth yn hwyrach yn gam digon cynnar i helpu i leihau canfyddiadau bod Prif Awdurdodau Lleol presennol efallai'n ymddwyn mewn modd negyddol a niweidiol yn ystod y cyfnod cyn uno.

164. Dan yr opsiwn hwn, byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno'n rhan o ail Fil flwyddyn yn ddiweddarach (yn ystod haf 2017 yn lle haf 2016). Byddai hynny'n rhoi cyfle i Brif Awdurdodau Lleol presennol (am gyfnod o flwyddyn) ddal gwybodaeth yn ôl a pheidio â'i rhoi i unrhyw Brif Awdurdod Lleol arall sy'n rhan o'r un trefniant uno, ac ymrwymo i drefniadau ariannol na fyddent o fudd i'r Prif Awdurdod Lleol newydd.

165. O safbwynt trefniadau uno gwirfoddol, ni fyddai'n ofynnol i gyd-bwyllgorau pontio gael eu sefydlu. Pe na bai unrhyw waith paratoi'n digwydd cyn i'r Awdurdodau Cysgodol gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2017, byddai'n rhaid iddynt ddechrau gweithio ar frys i baratoi, creu a chyhoeddi Datganiad ar Bolisïau Tâl ar gyfer yr Awdurdod newydd.

166. Byddai hynny'n arwain at benodi staff ar frys, ac mewn rhai achosion gallai arwain at sefyllfa lle cynigir cyflogau uwch mewn hysbysebion er mwyn denu'r arbenigedd cywir i'r swyddi uwch newydd yn yr Awdurdodau newydd. Gallai hynny ddwysáu pryder hirdymor ymysg y cyhoedd ynghylch gweithdrefnau gwneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion.

167. Yn ogystal, ni fyddai gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol y pŵer i gyflwyno argymhellion ynghylch Datganiadau ar Bolisïau Tâl pob un o'r Prif Awdurdodau Lleol presennol, yng nghyswllt taliadau Prif Swyddogion, tan 2017-18. Ni fyddai unrhyw fesurau ychwanegol ar waith ar gyfer 2016-17 i gryfhau'r broses graffu yn y maes hwn, a byddai hynny'n cynyddu'r risg y gallai enw da Llywodraeth Leol gael ei niweidio yn ystod y cyfnod cyn uno a thu hwnt.

168. Dim ond am dair blynedd y byddai angen mwy o gapasiti ar y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (o gymharu â phedair blynedd dan Opsiwn 2). Rhwng 2017-18 a 2019-20 byddai cost flynyddol o £35,000 i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chost gyffredinol o £105,000 dros y cyfnod diwygio.

Manteision

169. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig rhai manteision. Fodd bynnag, byddai'n cynnig llai o fanteision nag Opsiwn 2. Byddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar yr adeg hon yn sicrhau ei bod yn ofynnol i Brif Awdurdodau Lleol presennol, y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol drwy ail Fil, sefydlu cyd-bwyllgorau pontio ddwy flynedd cyn yr uno. Yn ogystal, byddai hefyd i ryw raddau'n lleihau'r risg y gallai sefyllfa ariannol ac enw da Llywodraeth Leol gael eu niweidio yn ystod y cyfnod cyn uno.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

170. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a gaiff ei ffafrio. Er y disgwylir i'r gost fod yn uwch, bydd Opsiwn 2 yn sicrhau y caiff diwylliant o gydweithio ei sefydlu'n gynnar yn y broses bontio. Bydd hefyd yn lleihau'r cyfle i Awdurdodau, cynghorwyr a swyddogion presennol ymddwyn mewn modd negyddol a niweidiol yn ystod y broses ddiwygio gyfan. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y Prif Awdurdodau Lleol newydd yn y sefyllfa orau posibl ar ôl uno.

Bwriad polisi 4: Darparu ar gyfer galluogi Gweinidogion Cymru i uno dau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

Costau

171. Pe na bai Gweinidogion Cymru yn gallu uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol, ni fyddai trefniadau uno gwirfoddol ffurfiol yn bosibl.

172. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i geisiadau ar y cyd gan Awdurdodau Lleol i fwrw ymlaen i uno'n gynnar yn wirfoddol.

173. Bydd hepgor y cyfle i alluogi trefniadau uno gwirfoddol yn gohirio am ddwy flynedd y potensial i wireddu'r manteision a'r arbedion o ran cost sy'n gysylltiedig ag uno (fel y nodir yn *Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol – 'y Prosbectws').*

Manteision

174. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pŵer gwneud rheoliadau. Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth hefyd yn diwygio adran 4 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol.

Costau

175. Byddai'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) yn arwain at gostau cyfle i Lywodraeth Cymru o ran y swyddogion fyddai'n llunio'r rheoliadau.

Tabl 12: Costau cyfle i Lywodraeth Cymru o safbwynt gwneud rheoliadau ynghylch uno'n wirfoddol, 2016.

Gradd	**Cyflog blynyddol gros (£)**	**Amser (diwrnodau)**	**Cost (£)**
Dirprwy Gyfarwyddwr (Gradd 5)	101,000	15	6,000
Uwch-gyfreithiwr (Gradd 6)	86,000	10	4,000
Cyfreithiwr (Gradd 7)	69,000	40	9,000
Swyddog Polisi Gradd 7)	69,000	40	9,000
Cyfanswm			28,000
Cyfanswm y costau a amcangyfrifir*			**28,000 - 56,000**

*Mae'r ddau ffigur hyn yn rhagdybio y bydd un neu ddau achos o uno gwirfoddol ar gost o £28,000 i bob set o reoliadau uno.

176. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Prif Awdurdodau Lleol sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses o uno'n gynnar. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, bydd adolygiad o'r amcangyfrifon cychwynnol yn y cynigion a nodir yn natganiadau o ddiddordeb Awdurdodau Lleol, ynghyd â'r costau a'r manteision a nodir yn yr achosion mwy manwl, dilynol dros newid, yn cael ei ystyried yn rhan o unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhelir pe bai rheoliadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.

177. Yn ystod y cam hwn, nid yw'n bosibl amcangyfrif costau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r broses o ddatblygu a chefnogi trefniadau uno gwirfoddol (ar wahân i'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â gwneud rheoliadau, yn y pen draw, ynghylch uno). Fodd bynnag, mae'r Prosbectws yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru yn barod i helpu i ddarparu 'cyngor arbenigol' a chymorth ynghylch amryw faterion sy'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol. Mae hefyd yn awgrymu y dylid teilwra'r defnydd a wneir o ffrydiau cyllido presennol. Mewn achosion lle bydd trefniadau uno gwirfoddol yn mynd yn eu

blaen, bydd costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r darpariaethau hyn a byddant yn cael eu hystyried yn rhan o unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.

178. Mae costau diwygio adran 4 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, yn ddibwys, a dim ond i'r adnoddau sy'n ymwneud â'r gwaith o ddrafftio a phasio'r ddarpariaeth o fewn y Bil y byddent yn berthnasol. Os bydd angen, o ganlyniad i unrhyw reoliadau uno gwirfoddol, i ddiwygio Gorchmynion Cyfuno Tân ac Achub, byddai darpariaeth o'r fath yn rhan o'r rheoliadau uno. Ceir manylion y costau hynny yn Nhabl 12.

Manteision

179. Byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer angenrheidiol i uno dau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol a'u cynghorau sir/cynghorau bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu Prif Awdurdod Lleol a chyngor newydd yn eu lle.

180. Mae'r Prosbectws yn egluro'r prif resymau dros uno Prif Awdurdodau Lleol, a'r manteision ariannol a'r manteision eraill sy'n gysylltiedig â hynny. Pe bai Prif Awdurdodau Lleol sy'n dymuno uno'n gallu gwneud hynny'n fwy buan, drwy drefniadau uno gwirfoddol, mae'n bosibl y byddai manteision gwneud hynny'n cael eu gwireddu ddwy flynedd yn gynharach.

181. Mae manteision posibl uno'n wirfoddol yn gynnar i Awdurdodau Lleol yn cynnwys y canlynol:

- Pennu'r cyflymder a'r safon ar gyfer Llywodraeth Leol gynaliadwy, gryf ac effeithiol yng Nghymru;
- Bod â rôl allweddol yn y gwaith o lunio'r dyfodol;
- Gwireddu'n gynt y manteision sy'n gysylltiedig â mwy o gapasiti ac effeithlonrwydd;
- Darparu gwasanaethau gwell yn fwy buan i gymunedau;
- Cael y cyfle i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau cymorth a rennir, gan grynhoi arbedion o ran cost yn fwy buan o lawer a chadw'r arbedion hynny'n lleol er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen;
- Sicrhau cyfnod llawer byrrach o ansicrwydd ar gyfer staff a chymunedau;
- Sicrhau statws sy'n gysylltiedig â bod yn Awdurdod blaengar, hoff o gynnydd, sydd â mwy o allu i ddenu a chadw staff ardderchog a denu datblygiadau;
- Cael y cyfle i sefydlu enw da fel un o'r Awdurdodau mwyaf blaenllaw nid yn unig yng Nghymru ond yn y DU, sydd â dyheadau clir i ddarparu'r gwasanaethau lleol gorau posibl i drigolion;
- Gorfod cynnal un set o etholiadau'n unig, yn 2018, yn hytrach nag etholiadau yn 2017 a 2019.

182. Gallai datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol ddileu cost ymchwiliad o'r fath. Ni wyddys beth fyddai costau manwl ymchwiliad ynghylch ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub, oherwydd hyd y gwyddom nid

oes unrhyw ymchwiliad o'r fath erioed wedi'i gynnal yng Nghymru na Lloegr. Mewn cymhariaeth, amcangyfrifir mai cost gwrandawiad cyhoeddus gyda'r Comisiwn Ffiniau Seneddol fyddai £32,600. O gofio maint yr ardaloedd a'r boblogaeth y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn ymdrin â hwy yng Nghymru, gallai'r costau fod lawer yn uwch na hynny.

183. Mae datgymhwyso'r gofyniad yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd angen i Weinidogion gymryd camau cyflym o ganlyniad i gais llwyddiannus i uno'n wirfoddol, sy'n ymwneud â dau Brif Awdurdod Lleol sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'n cefnogi'r egwyddor y dylai trefniadau uno gwirfoddol gael eu gweithredu'n gyflym. Bydd cynnig ynghylch uno gwirfoddol wedi bod yn destun ymgynghoriad lleol estynedig â phawb dan sylw, gan gynnwys unrhyw Awdurdodau Tân ac Achub yr effeithir arnynt.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

184. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a gaiff ei ffafrio. Bydd Prif Awdurdodau Lleol sydd am achub ar y cyfle i ddiwygio'n gallu gwireddu'r manteision a'r arbedion o ran cost sy'n gysylltiedig ag uno, ddwy flynedd yn gynharach na phe baent yn aros am y brif raglen uno. Felly, mae'n cefnogi'r egwyddor y dylai trefniadau uno gwirfoddol gael eu gweithredu'n gyflym. Gallai datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol os caiff ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub eu hamrywio o ganlyniad i uno gwirfoddol ddileu cost ymchwiliad o'r fath.

Bwriad polisi 5: Sicrhau bod modd gweithredu, drwy reoliad, yr adolygiadau a gwblhawyd gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a gafodd ei ailenwi yn 2013 yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) rhwng 2010 a 2012 ynghylch trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Awdurdodau Lleol.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Peidio â diwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"), na fyddai fel y mae wedi'i geirio ar hyn o bryd yn ei gwneud yn bosibl i rai adolygiadau a gwblhawyd gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gael eu gweithredu drwy reoliad.

Costau

185. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 1), efallai na fydd yn bosibl i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion yr adolygiadau hyn. Gan mai diben yr argymhellion yn yr adolygiadau yw sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn y Prif Ardaloedd a adolygwyd, gallai Llywodraeth Cymru gael ei beirniadu am ddiystyru'r gwaith a gwblhawyd.

186. Gallai'r argymhellion ynghylch rhai o'r ardaloedd a adolygwyd eisoes, neu bob un ohonynt, gael effaith fyrdymor o ystyried y rhaglen ddiwygio. Mae cynigion Gweinidogion Cymru yn rhagweld y bydd yr holl Awdurdodau newydd ar ôl y broses uno wedi'u sefydlu erbyn 2020. Fodd bynnag, bydd Prif Awdurdodau Lleol a gaiff eu huno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnal etholiadau (i'r Awdurdodau presennol) ym mis Mai 2017 a dylai'r etholiadau hynny gael eu cynnal ar sail trefniadau etholiadol wedi'u diweddaru sy'n sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal. Ni fyddai hynny'n cael ei gyflawni dan Opsiwn 1. Mae'r adolygiadau'n argymell gostyngiadau bach yn nifer y cynghorwyr ar gyfer pedwar o'r pum Awdurdod (Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych a Phowys) ac yn argymell y dylid cynyddu nifer y cynghorwyr ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Os na chaiff yr adolygiadau eu gweithredu, ceir costau blynyddol cysylltiedig a fydd yn ymwneud â'r ffaith bod Prif Awdurdodau Lleol yn parhau i dalu mwy o aelodau nag yr ystyrir bod eu hangen arnynt, o dybio y bydd yr holl Brif Awdurdodau Lleol wedi mynd drwy broses uno erbyn 2020. Mae Tabl 12 isod yn amlinellu'r costau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020.

Tabl 13: Y gost i Awdurdodau Lleol os na chaiff adolygiadau eu gweithredu, rhwng 2017 a 2020.

	Cynghorwyr – y nifer presennol	Cynghorwyr – y nifer arfaethedig	Newid	Cyflog blynyddol (£)	Cost flynyddol (£)
Sir Gaerfyrddin	74	75	1	13,000	-13,000
Ceredigion	42	37	-5	13,000	65,000
Conwy	59	57	-2	13,000	26,000
Sir Ddinbych	47	42	-5	13,000	65,000
Powys	73	64	-9	13,000	117,000
Cyfanswm costau Cymru gyfan	221	200	-21	13,000	260,000
Cyfanswm costau Cymru gyfan rhwng 2017 a 2020					**780,000**

187. Dan yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i'r pum adolygiad sy'n ymwneud â Cheredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Sir Gaerfyrddin gael eu cynnal eto. Amcangyfrifir bod pob adolygiad yn costio £10,000 ar gyfartaledd. O ganlyniad, mae Opsiwn 1 yn golygu costau ychwanegol o hyd at £50,000. Yn dibynnu ar y rhaglen ddiwygio, gallai cyfanswm y gost hon neu ran ohoni fod yn ddibwys.

Manteision

188. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 er mwyn sicrhau bod modd i adolygiadau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a gwblhawyd ynghylch trefniadau etholiadol, gael eu gweithredu drwy reoliadau.

Costau

189. Ar ôl gweithredu'r adolygiadau, byddai cynnydd yn nifer y cynghorwyr a fyddai gan Sir Gaerfyrddin. Byddai'r Awdurdod Lleol yn cwrdd â'r gost o ran cyflogau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd hwn yn nifer y cynghorwyr.

Tabl 14: Costau blynyddol i Gyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn gweithredu'r adolygiadau, rhwng 2017 a 2020.

	Cynghorwyr: y nifer presennol	Cynghorwyr: y nifer arfaethedig	Cyflog blynyddol (£)	Cost (£)
Sir Gaerfyrddin	74	75	13,000	13,000

Manteision

190. Bydd gweithredu'r argymhellion yn yr adolygiadau'n helpu i sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn y pum Prif Awdurdod Lleol presennol dan sylw.

191. Dan yr opsiwn hwn (Opsiwn 2), ni fyddai'n rhaid cynnal y pum adolygiad sy'n gysylltiedig â Cheredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Sir Gaerfyrddin unwaith eto. Amcangyfrifir bod pob adolygiad yn costio £10,000 ar gyfartaledd. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn yn golygu arbediad o oddeutu £50,000 o ran cost.

192. Gallai'r argymhellion ynghylch rhai o'r ardaloedd a adolygwyd eisoes, neu bob un ohonynt, gael effaith fyrdymor o ystyried y rhaglen ddiwygio. Mae cynigion Gweinidogion Cymru yn rhagweld y bydd y Prif Awdurdodau Lleol newydd ar ôl y broses uno wedi'u sefydlu erbyn 2020. Fodd bynnag, bydd Prif Awdurdodau Lleol a gaiff eu huno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnal etholiadau (i'r Awdurdodau presennol) ym mis Mai 2017 a dylai'r etholiadau hynny gael eu cynnal ar sail trefniadau etholiadol wedi'u diweddaru sy'n sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal. Roedd yr adolygiadau'n argymell gostyngiadau bach yn nifer y cynghorwyr ar gyfer pedwar o'r Awdurdodau presennol, felly pe bai'r argymhellion yn cael eu gweithredu byddai arbediad bach o ran cost flynyddol i'r Prif Awdurdodau Lleol hynny oherwydd gostyngiad mewn taliadau i gynghorwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Tabl 15: Arbedion i Awdurdodau Lleol yn dilyn gweithredu'r adolygiadau.

	Cynghorwyr – y nifer presennol	Cynghorwyr – y nifer arfaethedig	Newid	Cyflog blynyddol (£)	Arbediadau rancost (£)
Ceredigion	42	37	-5	13,000	65,000
Conwy	59	57	-2	13,000	26,000
Sir Ddinbych	47	42	-5	13,000	65,000
Powys	73	64	-9	13,000	117,000
Y cyfanswm ar gyfer Cymru	221	200	-21	13,000	273,000
Cyfanswm arbediad Cymru gyfan rhwng 2017 a 2020					**780,000***

*Mae'r ffigur hwn yn ystyried y costau a amlinellir ym mharagraff 189 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, ac mae'n rhagdybio y bydd pob Awdurdod yn mynd drwy broses uno yn 2020.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

193. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a gaiff ei ffafrio, gan fod y ddarpariaeth yn sicrhau cydraddoldeb etholiadol yn y pum ardal dan sylw a'i bod yn osgoi costau posibl a fyddai'n gysylltiedig â dyblygu gwaith a wnaed eisoes gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Bwriad polisi 6: Ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, ac egluro bod modd i Brif Awdurdod Lleol drefnu bod trydydd parti'n cynnal yr arolwg ar ei ran.

Opsiwn 1: Gwneud dim: Ni fyddai geiriad presennol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei ddiwygio. Byddai Awdurdodau yn parhau i gynnal yr arolwg *ar ôl* etholiadau lleol, a'r *awgrym* o hyd fydd bod yn rhaid i Awdurdodau gynnal eu harolygon eu hunain yn hytrach na'u bod yn gallu defnyddio trydydd partïon i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

Costau

194. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

195. Teimlir nad yw'r fethodoleg bresennol y mae'r Mesur yn ei gorfodi (hy bod yn rhaid gweinyddu'r holiadur ar ôl etholiadau yn hytrach nag yn ystod y cyfnod enwebu) yn gwneud yn fawr o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Awdurdodau Lleol er mwyn cynnal yr arolwg (cyfanswm o £40,000 ar draws Awdurdodau Lleol Cymru) .

196. Nid yw'r opsiwn hwn (Opsiwn 1) yn ystyried argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Manteision

197. Er nad ystyrir bod yr opsiwn hwn yn gwneud yn fawr o'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo Prif Awdurdodau Lleol i gynnal yr arolwg (cyfanswm o £40,000), mae'n ddull sydd wedi'i brofi ac arweiniodd at gyfradd ymateb o 33%.

198. Rhagwelir y bydd dosbarthu'r holiadur yn ystod y cyfnod enwebu (Opsiwn 2) yn arwain at gyfradd ymateb uwch. Fodd bynnag, mae Opsiwn 2 hefyd yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i ofyn i ymgeiswyr ddatgelu pwy ydynt. Gallai hynny wrthbwyso unrhyw gynnydd disgwyliedig mewn cyfranogiad. Nid yw Opsiwn 1 yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i fynnu bod ymgeiswyr yn nodi eu henw yn rhan o'r arolwg.

Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, ac egluro bod modd i Awdurdodau gyflogi trydydd partïon i gynnal yr arolygon ar eu rhan.

Costau

199. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â diwygio Mesur 2011.

200. Er mwyn i'r cynnig hwn weithio'n llwyddiannus, mae'r opsiwn hwn (Opsiwn 2) hefyd yn ceisio dileu'r ddarpariaeth yn adran 1(6) o Fesur 2011, sy'n mynnu bod Awdurdodau yn trefnu bod y wybodaeth yn yr arolwg yn cael ei darparu'n ddienw. Bydd hynny'n helpu'r sawl sy'n cynnal yr arolwg i wybod pa ymatebion a roddwyd gan ymgeiswyr a gafodd eu hethol, a chynnal dadansoddiad ar wahân o'r rheini fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Y dewis arall fyddai cynnal ail arolwg o'r sawl a etholwyd i Brif Awdurdodau Lleol neu gynghorau cymuned, ar ôl yr etholiadau.

201. Os gofynnir i ymgeiswyr ddatgelu pwy ydynt, gallai hynny wrthbwyso unrhyw gynnydd disgwyliedig mewn cyfranogiad. Nid yw Opsiwn 1 yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i ofyn i ymgeiswyr nodi eu henw, wrth gynnal yr arolwg.

202. Os na fydd ymgeiswyr yn dewis datgelu pwy ydynt, bydd yn amhosibl gwybod a yw ymgeisydd wedi cael ei ethol ai peidio yn dilyn etholiadau. Ni fydd yr wybodaeth hon ond yn gallu rhoi disgrifiad o ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

Manteision

203. Mae'r opsiwn hwn yn galluogi Prif Awdurdodau Lleol i gynnal yr arolwg yn ystod y cyfnod enwebu, nad yw'n bosibl ar hyn o bryd dan y ddeddfwriaeth bresennol. Rhagwelir y bydd dosbarthu'r holiadur yn ystod y cyfnod enwebu yn arwain at gyfradd ymateb uwch ac y bydd yn ystyried argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

204. Mae sicrhau'r gyfradd ymateb uchaf posibl ar gyfer yr arolwg yn sicrhau y gwneir yn fawr o'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo Prif Awdurdodau Lleol i gynnal yr arolwg (cyfanswm o £40,000). Mae disgwyl i'r opsiwn hwn gyflawni hynny, ac felly gallai ddarparu dealltwriaeth well o amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

205. Dan yr opsiwn hwn, bydd yn glir i Brif Awdurdodau Lleol bod modd iddynt ddefnyddio trydydd partïon i gynnal yr arolwg ar eu rhan. Rhagwelir y bydd defnyddio trydydd parti'n cynyddu ymhellach y tebygolrwydd o sicrhau cyfradd ymateb well. Y Prif Awdurdodau Lleol a ddefnyddiodd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol wrth gynnal yr arolwg yn 2012 a gafodd y nifer mwyaf o ymatebion. Mae hynny hefyd yn ystyried argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

206. Dan yr opsiwn hwn, byddai'r sawl sy'n cynnal yr arolwg yn gallu llunio barn ynghylch sut y gallent gynyddu'r gyfradd ymateb gan ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

Yr opsiwn a gaiff ei ffafrio

207. Mae disgwyl i Opsiwn 2 arwain at gyfradd ymateb uwch i'r Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Prif Awdurdod Lleol i gynnal yr arolwg yn ystod y cyfnod enwebu ac yn egluro bod modd i Brif Awdurdodau Lleol drefnu bod arolygon yn cael eu cynnal gan drydydd partïon. Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, a oedd o'r farn y byddai newidiadau o'r fath yn cynyddu cyfranogiad yn yr arolwg.

Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r opsiwn a gaiff ei ffafrio

208. Mae'r dystiolaeth ynghylch y manteision a nodwyd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r bwriadau polisi'n ansoddol gan mwyaf, felly nid yw'n bosibl rhoi crynodeb. Fodd bynnag, mae crynodeb o gostau mesuradwy'r opsiynau a gaiff eu ffafrio wedi'i gynnwys isod, er y ceir rhai meysydd (bwriad polisi 4 yn enwedig) lle nad yw wedi bod yn bosibl llunio amcangyfrif hyd yma.

Tabl 16: Tabl sy'n dangos crynodeb o'r costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru

	Bwriad polisi	Opsiwn	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Costau i Lywodraeth Cymru (£)
Cyllid ychwanegol er mwyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau	1	2	121,000	177,000	341,000	71,000	69,000	105,000	884,000
Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo ddechrau ar y gwaith yn gynnar	2	2	Amh.	28,000	28,000	Amh.	Amh.	Amh.	56,000
Sefydlu cyd-bwyllgorau pontio	3	2	9,000	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	9,000
Ehangu swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol	3	2	Amh.	35,000	35,000	35,000	35,000	Amh.	140,000
Drafftio rheoliadau ynghylch uno'n wirfoddol	4	2	28,000	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	28,000
Diwygio trefniadau'n ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub	4	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Gweithredu adolygiadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	5	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Cynnal yr arolwg o ymgeiswyr Llywodraeth Leol	6	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Cyfanswm			**158,000**	**240,000**	**404,000**	**106,000**	**104,000**	**105,000**	**£1,117,000**

* Mae'r cyfanswm hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y ceir un achos o uno gwirfoddol ac wyth achos o uno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Pe bai dau achos o uno gwirfoddol, byddai'r gost yng nghyswllt bwriad polisi 4 yn cynyddu i £56,000, gan arwain at gyfanswm o £1,145,000.

Tabl 17: Tabl sy'n dangos crynodeb o'r costau ychwanegol i Lywodraeth Leol

	Bwriad polisi	Opsiwn	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Costau i Lywodraeth Leol (£)
Cyllid ychwanegol er mwyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau	1	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Cyllid i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol er mwyn iddo ddechrau ar y gwaith yn gynnar	2	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Sefydlu cyd-bwyllgorau pontio*	3	2	Amh.	385,000	659,000	616,000	339,000	1,999,000
Ehangu swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol	3	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Drafftio rheoliadau ynghylch uno'n wirfoddol	4	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Diwygio trefniadau'n ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub	4	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Gweithredu adolygiadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**	5	2	Amh.	-260,000	-260,000	-260,000	Amh.	-780,000
Cynnal yr arolwg o ymgeiswyr Llywodraeth Leol	6	2	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
			Cyfanswm	**125,000**	**399,000**	**356,000**	**339,000**	**1,219,000**

* Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y ceir un achos o uno gwirfoddol ac wyth achos o uno drwy ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Pe bai dau achos o uno gwirfoddol, byddai'r gost yng nghyswllt sefydlu cyd-bwyllgorau pontio'n gostwng £115,000, gan arwain at gyfanswm o £1,104,000.

** Mae'r ffigurau negyddol yn y rhes hon yn cyfeirio at arbedion net. Cydnabyddir na chaiff yr arbedion hyn eu rhannu'n gyfartal ymysg yr holl Awdurdodau Lleol.

8. Asesiadau Penodol o Effaith

209. Mae nifer o asesiadau penodol o effaith wedi'u cwblhau, gan gynnwys y canlynol:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg;
- Asesiad o'r Effaith ar Ardaloedd Gwledig;
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig; ac
- Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy.

210. Mae'r holl asesiadau o effaith yn seiliedig ar y bwriadau polisi fel y cânt eu hegluro yn y Bil hwn yn unig.

211. Mae'r holl asesiadau o effaith a gynhaliwyd wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a gellir cael gafael arnynt drwy'r ddolen gyswllt ganlynol:

http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/?skip=1&lang=cy

212. Pe bai unrhyw reoliadau ynghylch uno'n wirfoddol yn cael eu symud yn eu blaen, byddai asesiad llawn o effaith yn cael ei gynnal bryd hynny.

213. Mae dyletswyddau cyffredinol ar Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â dyletswyddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, preifatrwydd a'r Gymraeg, a bydd yn ofynnol iddynt gynnal asesiadau o effaith os yw hynny'n briodol.

Dyma'r prif bwyntiau a nodwyd yn yr asesiadau o effaith a gynhaliwyd

214. Bydd y cynigion o ran polisi'n helpu i sicrhau bod modd i Brif Awdurdodau Lleol wireddu manteision diwygio, a gwneud yn fawr o gyfleoedd i sefydlu gwasanaethau lleol cost-effeithiol i bob dinesydd. Os bydd Prif Awdurdodau Lleol yn manteisio ar y cyfleoedd dan sylw, mae hynny'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar bob grŵp gwarchodedig, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a chymunedau gwledig ac yn debygol o gefnogi cynaliadwyedd yn y tymor hwy.

215. Bydd sefydlu pwyllgorau pontio ac atal a rhwystro ymddygiad negyddol yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n rhedeg yn ddidrafferth mewn Prif Awdurdodau Lleol, o'r Diwrnod Breinio ymlaen, a bod buddiannau unrhyw Brif Awdurdodau Lleol newydd yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y cyfnodau o baratoi ar gyfer uno.

216. Bydd rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru uno, drwy reoliadau, ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol yn golygu y bydd modd i un neu ragor o drefniadau uno gwirfoddol, cynnar fynd yn eu blaen. Rhagwelir y bydd hynny'n golygu y bydd y manteision sy'n gysylltiedig ag uno'n cael eu gwireddu'n gynnar, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu.

217. Yn ogystal, ceir effeithiau penodol o safbwynt cydraddoldeb, preifatrwydd a'r Gymraeg.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

218. Os bydd yr opsiynau a gaiff eu ffafrio'n cael eu gweithredu, bydd nifer o effeithiau cadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig.

219. Bydd y gofyniad i Brif Awdurdodau Lleol (y nodwyd y gellid eu huno yn y dyfodol) sefydlu cyd-bwyllgorau pontio'n helpu i sicrhau bod rhwymedigaethau o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu bodloni o'r diwrnod y caiff yr Awdurdodau newydd eu sefydlu.

220. Disgwylir i'r broses o ddiwygio'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal yr arolwg o gynghorwyr Llywodraeth Leol ac ymgeiswyr aflwyddiannus cyn yr etholiadau, arwain at fwy o gyfranogiad yn yr arolwg. Rhagwelir y bydd hynny'n gwella ansawdd y data a geir ac a ddefnyddir i lywio polisïau yn y dyfodol, y bwriedir iddynt sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

221. Mae pwerau eang ar gael i Weinidogion Cymru fynnu bod Prif Awdurdod Lleol yng Nghymru yn darparu unrhyw wybodaeth ynghylch unrhyw fater sydd ym meddiant yr Awdurdod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru a Phrif Awdurdodau Lleol eraill y wybodaeth sy'n ofynnol i baratoi ar gyfer uno, ceir darpariaeth yn y Bil a fydd yn mynnu bod Prif Awdurdodau Lleol yn rhannu'r holl wybodaeth ynghylch unrhyw uno arfaethedig â Gweinidogion Cymru a'r Awdurdodau Lleol (perthnasol). Ni fydd y math o wybodaeth a rennir yn cynnwys dim gwybodaeth bersonol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu (ond dim ond o safbwynt nodi strwythurau staffio presennol), statws sengl, pensiynau a pholisïau tâl yn gyffredinol, y modd y caiff gwasanaethau eu dosbarthu ar hyn o bryd, sylfeini'r dreth gyngor, swyddogaethau corfforaethol, systemau TG a rhwymedigaethau ac ymrwymiadau presennol.

222. Mae'r Bil hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Mae gwelliant yn cael ei gynnwys er mwyn dileu'r gofyniad sy'n mynnu bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn ddienw, a'i gwneud yn bosibl gofyn i'r ymgeiswyr ddatgelu pwy ydynt wrth gwblhau'r holiadur ynghylch amrywiaeth. Nid oes yn rhaid i Brif Awdurdodau Lleol gynnal yr arolwg yn y modd hwn. Yr unig beth y bydd y ddeddfwriaeth yn ei wneud yw eu galluogi i wneud hynny. Mae cymryd rhan yn yr Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn weithred wirfoddol.

223. O ran y ddarpariaeth hon, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn nodi mai'r rheolwr data sy'n gyfrifol am gydymffurfio. Yn yr achos hwn, y Prif Awdurdod Lleol yw'r rheolwr data. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata personol, ac oherwydd hynny ni fydd y Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol iddi.

224. Yr unig bryd y gallai Llywodraeth Cymru brosesu data personol fyddai o ganlyniad i'r adroddiad ynghylch yr arolwg, a ddarperir i ni gan y Prif Awdurdodau Lleol. Caiff y sylfaen gyfreithiol ar gyfer yr arolwg hwn ei darparu gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Rhan 1, Pennod 1, Adran 1). Fodd bynnag, mae adran 2(6) o'r Mesur yn nodi fel a ganlyn:

Nid yw unrhyw wybodaeth a geir o dan adran 1 neu'r adran hon i'w chyhoeddi na'i rhannu ar unrhyw ffurf sydd, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall, yn datgelu pwy yw unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei adnabod.

225. Mae hynny'n golygu, o ran y wybodaeth a ddaw i law drwy'r arolwg, na ddylai Llywodraeth Cymru fod yn cael unrhyw ddata personol o gwbl, dim ond data nad yw'n ddata personol. Caiff data cyfanredol ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol, ac ni fydd yn datgelu pwy yw unigolion. Nid yw'r posibilrwydd y gellid adnabod unigolion drwy ddadansoddi'r data yn fwy'n awr nag o'r blaen.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

226. Mae un effaith gadarnhaol wedi'i nodi. Bydd canllawiau a gyhoeddir dan y Bil yn mynnu bod cyd-bwyllgorau pontio'n sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried yng nghyswllt y trefniadau strategol a threfniadaethol ar gyfer y Prif Awdurdodau Lleol newydd. Bydd yn gyfle gwerthfawr i sicrhau bod ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhan o ddiwylliant gweithio'r Awdurdod newydd o'r dechrau'n deg.

Effeithiau eraill

227. Nodwyd y canllawiau ar gyfer asesu effaith polisi ar a) yr amgylchedd a b) bioamrywiaeth. Mae'r adolygiad yn awgrymu nad oes angen cwblhau asesiad llawn o effaith o safbwynt unrhyw un o'r pynciau hyn.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

228. Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar fyd busnes neu elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd a fyddai'n codi materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth. Nid yw'r hidlwr cystadleuaeth wedi'i ddefnyddio.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

229. Mae'r trefniadau monitro a gwerthuso a nodir yn y fan hon yn adlewyrchu'r ffaith mai diben arfaethedig y Bil yw hwyluso gwaith paratoi ar gyfer y Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol a galluogi Gweinidogion Cymru i hwyluso trefniadau uno gwirfoddol.

230. Bydd gwaith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn parhau i gael ei fonitro fel y caiff ei fonitro ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, drwy werthuso'r adroddiadau a ddaw i law gan archwilwyr allanol a mewnol y Comisiwn. Yn ogystal, ceir cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru ar Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiwn. Bydd swyddogion yn parhau i gynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd ag ysgrifenyddiaeth y Comisiwn er mwyn monitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni amcanion y Comisiwn. Caiff adroddiad blynyddol y Comisiwn ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd er mwyn craffu arno.

231. Bydd gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau i gael ei fonitro fel y caiff ei fonitro ar hyn o bryd, wrth i swyddogion Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth gweinyddol ac arweiniad i'r Panel ac wrth i Lywodraeth Cymru barhau i reoli cyllideb y Panel. Caiff aelodau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu penodi gan Weinidogion Cymru, a bydd Gweinidogion Cymru yn parhau'n ymgyngoreion statudol ar gyfer unrhyw adroddiad a gynhyrchir gan y Panel.

232. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Prif Awdurdodau Lleol sy'n cyflwyno cynigion i Weinidogion Cymru ynghylch uno'n wirfoddol. Byddai'r trefniadau monitro ar gyfer effeithiolrwydd gwirioneddol trefniadau uno gwirfoddol, pe baent yn digwydd, yn cael eu hamlinellu'n rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl a fyddai'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau ynghylch uno'n wirfoddol. Yr unig beth y mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn ei wneud yw rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, os oes angen.

233. Caiff effeithiolrwydd cyd-bwyllgorau pontio a sefydlir, o ran hwyluso trefniadau cydweithio, ei fonitro gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau sy'n egluro union gylch gorchwyl a gweithgareddau disgwyliedig y pwyllgorau pontio, y mae'n rhaid i'r pwyllgorau roi sylw iddynt. Bydd y modd y caiff y canllawiau eu gweithredu'n cael ei fonitro'n agos gan Lywodraeth Cymru drwy drafodaeth reolaidd â'r Awdurdodau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i'r pwyllgorau pontio gael eu rhedeg yn effeithiol ac yn yr un modd ag y caiff pwyllgorau eraill Awdurdodau Lleol eu rhedeg, er enghraifft o ran rôl y Cadeirydd, tryloywder trefniadau'r cyfarfod a'r gwaith o gyhoeddi gwybodaeth (agendâu, papurau, cofnodion ac ati).

234. Bydd y darpariaethau yn y Bil i atal a rhwystro ymddygiad negyddol o safbwynt trafodion neu gytundebau ariannol yn ddulliau o ddiogelu rhag unrhyw weithgarwch a allai lesteirio trefniadau cydweithio. Bwriad y trefniadau yw sicrhau bod penderfyniadau perthnasol yn cael eu cymryd mewn modd agored a thryloyw a bod aelodau lleol a phobl leol yn cael cyfle i graffu ar y penderfyniadau.

235. Byddai swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru o ran archwilio gwariant cyhoeddus yn parhau'n gyfraniad pwysig i'r gwaith o fonitro effeithiolrwydd Awdurdodau presennol wrth i drefniadau cydweithio ymddangos fwyfwy. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni rhaglen o archwiliadau yng nghyswllt cyfrifon statudol Prif Awdurdodau Lleol yn flynyddol. Mae'r archwilwyr yn nodi eu canfyddiadau a'u hargymhellion drwy'r dystysgrif archwilio (y farn archwilio) ac adroddiad i'r Awdurdod Lleol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annog archwilwyr i ddatrys problemau gydag Awdurdodau Lleol, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, drwy'r dulliau hyn. Mae'r argymhellion yn statudol ac mae gofyn i Brif Awdurdodau Lleol weithredu ar eu sail.

236. O ran monitro unrhyw effaith a gaiff y Bil ar y modd y bydd gwasanaethau lleol yn cael eu darparu yn ystod y cyfnod pontio ar gyfer trefniadau uno gwirfoddol a threfniadau uno eraill, ni fyddai swyddogaethau presennol yr amryw gyrff arolygu yng Nghymru yn newid (hy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn).

Atodiad A

PENNU COST YR OPSIYNAU

Rhagdybiaethau

237. Mae'r amcangyfrifon o'r costau'n seiliedig ar fethodoleg gadarn a thryloyw. Fodd bynnag, nid ydynt o reidrwydd yn rhagweld y dyfodol. I adlewyrchu hynny, mae'r holl gostau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf er mwyn lleihau'r risg o unrhyw ffug fanylder yn y dadansoddi.

Costau i Lywodraeth Cymru

238. Mae'r costau o ran staff i Lywodraeth Cymru yn ffigurau gros ac maent yn cynnwys argostau megis y rhai sy'n gysylltiedig â TG, safleoedd a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Caiff yr holl ffigurau eu cyflwyno mewn termau real ac maent yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2014-15.

239. Caiff y costau ar gyfer unrhyw dasg benodol eu hamcangyfrif drwy luosi'r gyfradd briodol o ran cyflog â nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg, a hynny ar gyfer pob gradd. Cyfanswm cost y dasg yw cyfanswm y costau ar gyfer pob gradd staff.

Costau i sefydliadau allanol

240. Mae'r amcangyfrifon o gostau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'u darparu gan y sefydliad. Mae'r rhain yn 'gostau gwirioneddol' ac maent wedi ystyried unrhyw gynnydd mewn costau staff a chostau gweithredu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, gan gynnwys cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

241. Caiff costau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol eu hamcangyfrif drwy luosi'r 'gyfradd y diwrnod' ar gyfer pob aelod o'r panel â nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg. Yn ogystal, caiff amcangyfrif o gostau teithio a chynhaliaeth ei gynnwys.

242. Yn Nhabl 18 a 19 ceir esboniad manylach am gostau pwyllgorau pontio a gynhwysir yn Nhabl 8. Mae nifer o ragdybiaethau wedi'u gwneud wrth amcangyfrif y gost:

- Cost flynyddol pwyllgorau pontio i bob uniad cynlluniedig fydd £77,000 (fel y nodir yn Nhabl 7).

- Caiff pwyllgorau pontio mewn perthynas ag uniadau gwirfoddol eu sefydlu fis Ebrill 2016 a byddant yn rhedeg ar y gost lawn tan Medi 2017 (18 mis. Yn ystod 6 mis terfynol eu bodolaeth(Hydref 2017 - Mawrth 2018) caiff y gost ei gostwng i 10% (wrth i bwyllgorau drosglwyddo'r gwaith paratoi i Awdurdodau Cysgodol – gweler paragraff 142).
- Caiff pwyllgorau pontio mewn perthynas â rhaglen y prif uniadau eu sefydlu fis Hydref 2017 a byddant yn rhedeg ar y gost lawn tan Fedi 2019 (3 blynedd). Yn ystod 6 mis terfynol eu bodolaeth (Hydref 2019 - Mawrth 2020) caiff y gost ei gostwng i 10% (gweler uchod a pharagraff 142).

Tabl 18: Senario 1: Costau pwyllgorau pontio os oes un uniad gwirfoddol ac wyth uniad trwy raglen y prif uniadau (£)

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm y gost (£)
Un Uniad gwirfoddol	77,000	43,000*	-	-	120,000
Wyth trwy'r Bil Prif Uniadau	308,000	616,000	616,000	339,000**	1,879,000
Cyfanswm	385,000	659,000	616,000	339,000	**1,999,000**

*Bydd y pwyllgor pontio unigol mewn perthynas ag uniadau gwirfoddol yn rhedeg ar y gost lawn am chwe mis cyntaf 2017-18 (Ebrill 2017-Medi 2017) ar gost o £39,000. Caiff y gost ei gostwng i 10% yn ystod chwe mis olaf 2017-18 (Hydref 2017-Mawrth 2018) ar gost o £4,000. Cyfanswm y gost am 2017-18, felly, yw £43,000.

** Bydd cost wyth pwyllgor pontio mewn perthynas â'r prif uniadau yn rhedeg ar y gost lawn am chwe mis cyntaf 2019-20 (Ebrill 2019- Medi 2020) ar gost o £308,000. Caiff y gost ei gostwng i 10% yn ystod chwe mis olaf (Hydref 2019-Mawrth 2020) ar gost o £31,000. Cyfanswm y gost am 2019-20 yw £339,000.

Tabl 19: Senario 2: Costau pwyllgorau pontio os oes dau uniad gwirfoddol a saith uniad trwy'r Bil Prif Uniadau (£)

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm (£)
Dau uniad gwirfoddol	154,000	85,000*	-	-	239,000
Saith trwy'r rhaglen prif uniadau	270,000	539,000	539,000	297,000**	1,645,000
Cyfanswm	424,000	624,000	539,000	297,000	1,884,000

*Bydd y ddau bwyllgor pontio mewn perthynas ag uniadau gwirfoddol yn rhedeg ar y gost lawn am chwe mis cyntaf 2017-18 (Ebrill 2017-Medi 2017) ar gost o £77,000. Caiff y gost ei gostwng i 10% yn ystod chwe mis olaf 2017-18 (Hydref 2017-Mawrth 2018) ar gost o £8,000. Cyfanswm y gost am 2017-18 felly yw £85,000.

** Bydd cost saith pwyllgor pontio mewn perthynas â'r prif uniadau'n rhedeg ar y gost lawn am 6 mis cyntaf 2019-20 (Ebrill 2019- Medi 2020) ar gost o £270,000. Caiff y gost ei gostwng i 10% yn ystod chwe mis olaf 2019-20 (Hydref 2019-Mawrth 2020) ar gost o £27,000. Cyfanswm y gost am 2019-20 yw £297,000.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 26 Ionawr 2015.

Anecs 1

BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Ionawr 2015. Fe'u paratowyd gan Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os yw'n ymddangos nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Trosolwg

3. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau allweddol y Bil ac yn nodi'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei gyflawni.

Adran 2 – Prif ddiffiniadau

4. Mae'r adran hon yn diffinio'r prif dermau a ddefnyddir yn y Bil.

Adrannau 3 i 10 – Awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol

5. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno dau neu ragor o brif awdurdodau lleol yn wirfoddol er mwyn creu prif awdurdod lleol newydd a diddymu'r awdurdodau presennol sy'n rhan o'r uno gwirfoddol.

Adran 3 – Cynigion ar gyfer uno

6. Mae adran 3 yn galluogi dau neu ragor o brif awdurdodau lleol i wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru, erbyn 30 Tachwedd 2015 neu erbyn dyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, yn cynnig eu bod yn dod ynghyd drwy uno'n wirfoddol i greu prif awdurdod lleol newydd. Cyfrifoldeb cyngor llawn pob awdurdod lleol sy'n gwneud y cais ar y cyd fydd penderfynu gwneud cais; mae is-adran (2) yn golygu na chaiff gweithrediaethau'r awdurdodau lleol hynny gyflawni'r swyddogaeth honno.

7. Mae adran 3(4) yn caniatáu i geisiadau ddod i law cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol ac i unrhyw geisiadau o'r fath gael eu trin fel pe baent wedi dod i law ar ôl i'r Bil ddod i rym. Gwneir hynny er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried ceisiadau cyn gwneud a chymeradwyo rheoliadau

uno cyn i'r Cynulliad dorri ddiwedd mis Mawrth 2016 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, gan alluogi'r prif awdurdodau lleol newydd i fod yn eu lle erbyn mis Ebrill 2018.

Adran 4 – Ymgynghori cyn gwneud cais i uno

8. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau lleol, cyn cyflwyno cais i uno, ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid y mae'r cynnig i uno'n wirfoddol yn debygol o effeithio arnynt. Dyma rai o'r rhanddeiliaid y mae'n rhaid ymgynghori â hwy: y cyhoedd, y prif awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned; awdurdod Parc Cenedlaethol; prif swyddog yr heddlu a'r comisiynydd heddlu a throseddu lleol; yr awdurdod tân ac achub lleol, y bwrdd iechyd lleol, unrhyw undebau llafur neu sefydliadau eraill sy'n cynrychioli staff sy'n cael eu cyflogi gan y prif awdurdodau lleol sy'n gwneud y cynnig ac unrhyw berson arall yr ystyrir ei bod yn briodol ymgynghori ag ef.

9. Rhaid cwblhau'r ymgynghoriad cyn y gellir cyflwyno cais i uno'n wirfoddol i Weinidogion Cymru, ond bydd ymgynghoriadau a gynhelir cyn i'r Bil ddod i rym yn cael eu trin fel pe baent wedi eu cynnal ar ôl iddo ddod i rym. Gwneir hynny er mwyn caniatáu digon o amser i reoliadau uno gael eu gwneud a'u cymeradwyo cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, gan alluogi'r prif awdurdodau lleol newydd i fod yn eu lle erbyn mis Ebrill 2018.

Adran 5 – Canllawiau ynghylch ceisiadau i uno

10. Mae adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i brif awdurdodau lleol ynghylch beth y mae'n rhaid iddynt ei wneud wrth gyflwyno cais ar y cyd i uno'n wirfoddol, gan gynnwys canllawiau ar yr amcanion wrth wneud cais; canllawiau ar y materion y bydd angen i'r prif awdurdodau lleol eu hystyried wrth lunio cais; canllawiau ynghylch sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad y manylir arno yn adran 4; ac unrhyw ganllawiau eraill sy'n berthnasol i ddatblygu cais o dan adran 3. Mae is-adrannau (2) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cyhoeddi mewn perthynas â'r cais i uno'n wirfoddol, gan gynnwys canllawiau a gyhoeddir cyn i'r Bil ddod i rym.

Adran 6 – Pŵer i wneud rheoliadau uno

11. Mae adran 6 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiddymu dau brif awdurdod lleol neu ragor, ynghyd â'r cynghorau sir/bwrdeistref sirol perthnasol, a sefydlu prif ardal a chyngor newydd yn eu lle, pan gyflwynir cais ar y cyd iddynt am uno cynnar gwirfoddol. Rhaid i reoliadau uno gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad yr ardal newydd y bydd y prif awdurdod newydd yn ei chwmpasu (y brif ardal) a diddymu ardaloedd presennol y prif awdurdodau lleol sy'n uno, ffin y brif ardal newydd, enw Cymraeg ac enw Saesneg y brif ardal newydd, a fydd y brif ardal newydd yn sir neu'n fwrdeistref sirol, sefydlu prif awdurdod newydd a darpariaethau ar gyfer dirwyn yr awdurdodau sy'n uno i ben a'u diddymu.

12. Mae adran 6(3) a (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau uno bennu enw'r prif awdurdod lleol newydd. Os mai sir fydd y brif ardal newydd rhaid i

enw'r prif awdurdod lleol gynnwys y geiriau "Cyngor Sir" neu "Cyngor" yn Gymraeg a "County Council" neu "Council" yn Saesneg. Os mai bwrdeistref sirol fydd y brif ardal, rhaid i enw'r prif awdurdod lleol gynnwys y geiriau "Cyngor Bwrdeistref Sirol" neu "Cyngor" yn Gymraeg a "County Borough Council" neu "Council" yn Saesneg.

Adran 7 – Awdurdodau cysgodol

13. Mae adran 7 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau uno gynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu awdurdod cysgodol sy'n cynnwys holl aelodau'r prif awdurdodau lleol a gyflwynodd y cais ar y cyd i uno'n wirfoddol. Rhaid i'r rheoliadau uno gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cysgodol benodi gweithrediaeth gysgodol, pennu swyddogaethau'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol a sut y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer yn ystod y cyfnod cysgodol a gwneud darpariaeth i'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol ddod yn brif awdurdod a gweithrediaeth yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

14. Mae hyn yn golygu mai'r awdurdod cysgodol fydd y prif awdurdod lleol newydd yn y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd y prif awdurdod lleol newydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei swyddogaethau, sef 1 Ebrill fwy na thebyg i gyd-daro a dechrau'r flwyddyn ariannol, a dyddiad cynnal yr etholiadau eu hunain, ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai, gan na fydd yr etholiadau i'r prif awdurdod lleol newydd wedi eu cynnal eto, a'r hen brif awdurdodau lleol a unodd wedi'u diddymu ar 31 Mawrth.

15. Er enghraifft, pe bai'r prif awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol yn cael eu diddymu ar 31 Mawrth 2018 gyda diwrnod breinio (sef y diwrnod y mae awdurdod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei swyddogaethau) y prif awdurdod lleol newydd ar 1 Ebrill 2018, byddai'r awdurdod cysgodol yn dod yn brif awdurdod lleol newydd hyd y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif awdurdod lleol newydd (7 Mai 2018), pan fyddai'r cynghorwyr newydd yn llunio'r prif awdurdod lleol newydd.

16. Mae adran 7(2) a 7(3) yn diffinio'r "cyfnod cysgodol", sef y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd yr awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol yn arfer swyddogaethau am y tro cyntaf o dan y rheoliadau uno a'r dyddiad y trosglwyddir y cyfrifoldebau llawn ar 1 Ebrill 2018, a'r "cyfnod cyn yr etholiad", sef y cyfnod rhwng y dyddiad y mae'r prif awdurdod lleol newydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldebau (1 Ebrill 2018, y cyfeirir ato hefyd fel y "diwrnod breinio") a thri diwrnod ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif awdurdod lleol newydd; bryd hynny bydd y cynghorwyr a etholwyd o'r newydd yn cymryd yr awenau a'r cynghorwyr a etifeddwyd o'r awdurdod cysgodol yn rhoi'r gorau iddi.

17. Mae adran 7(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol a sefydlir o dan y rheoliadau uno, ynghylch eu swyddogaethau, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 26 Ionawr 2015.

Adran 8 – Etholiadau a chynghorwyr

18. Mae adran 8 yn galluogi rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth i ddileu etholiadau cyffredin ar gyfer prif awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol ac i ymestyn tymhorau swyddi cynghorwyr yn yr awdurdodau hynny, darpariaeth i ddatgymhwyso, am gyfnod a bennir yn y rheoliadau uno, y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gofyn am gynnal is-etholiad i lenwi lleoedd gwag achlysurol ar gyngor y prif awdurdodau lleol hynny sy'n uno'n wirfoddol, a darpariaeth i bennu dyddiad yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif awdurdodau lleol newydd a thymhorau swyddi'r cynghorwyr a etholir yn yr etholiad hwnnw. Mae'r ddarpariaeth i ddatgymhwyso'r gofyniad i lenwi lle gwag achlysurol yn angenrheidiol er mwyn osgoi sefyllfa lle gallai fod angen cynnal is-etholiad ychydig ddyddiau cyn i'r prif awdurdodau lleol gael eu diddymu, gan y byddai hynny'n wastraff arian ac adnoddau.

19. Mae adran 8(d) yn galluogi rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth ar gyfer gohirio etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned yn y prif awdurdod lleol newydd ac i ymestyn tymhorau swyddi'r cynghorwyr cymuned presennol. Fel rheol, cyfunir etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned ag etholiadau cyffredin ar gyfer prif awdurdodau lleol, a'u cynnal yr un pryd, am resymau effeithlonrwydd. Mae adran 8(d), felly, yn galluogi symud etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorau cymuned mewn awdurdodau sy'n uno er mwyn iddynt gyd-daro â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau cyffredin i'r prif awdurdod newydd, gan arbed arian ac adnoddau.

Adran 9 – Awdurdodau â model gweithrediaeth maer a chabinet

20. Pan fo un neu ragor o'r prif awdurdodau lleol sy'n uno yn gweithredu trefniant gweithrediaeth maer a chabinet, neu wedi cyflwyno cynigion i wneud hynny, mae adran 9(1) yn galluogi'r rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r prif awdurdod lleol newydd weithredu trefniant maer a gweithrediaeth ai peidio. Mae adran 9(2) yn galluogi'r rheoliadau uno i gynnwys darpariaeth i atal awdurdod sy'n uno rhag datblygu cynigion i weithredu trefniant gweithrediaeth maer a chabinet gan y gallai hynny achosi oedi neu lesteirio'r broses uno.

Adran 10 – Darpariaethau canlyniadol etc. eraill

21. Mae adran 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys y ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol a throsiannol a'r ddarpariaeth arbed honno sy'n briodol yn eu barn hwy yn y rheoliadau uno, ac i wneud rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol sy'n cynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol a throsiannol a darpariaeth arbed at ddibenion rheoliadau uno neu i roi effaith lawn i reoliadau uno. Mae'r adran yn dangos hyd a lled y darpariaethau hynny ac yn egluro bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau y caniateir eu trosglwyddo yn unol â'r rheoliadau hyn yn cynnwys yr hawliau a'r rhwymedigaethau mewn contract cyflogi a bod Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246) yn gymwys i drosglwyddiad staff o dan y rheoliadau hyn.

22. Ceir tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) cyfunol yng Nghymru sy'n cwmpasu ardaloedd y 22 prif awdurdod lleol, a chrëwyd y rhain o dan orchmynion cyfuno a wnaed o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947. O dan Ddeddf Tân ac Achub 2004 caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddiddymu gorchmynion cyfuno. Os nad yw'r ATA neu'r awdurdod lleol perthnasol y mae'r newid i'r gorchymyn cyfuno yn effeithio arno yn cytuno i'r newid, fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad gael ei gynnal i'r amrywiad sy'n cael ei gynnig. Mae adran 10(9) yn atal y gofyniad i gynnal ymchwiliad er mwyn dirymu neu ddiwygio gorchymyn cyfuno Tân ac Achub pan fo'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i uno gwirfoddol. Gwneir hynny er mwyn osgoi unrhyw oedi i'r rhaglen uno.

23. Mae adran 10 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i amrywio rheoliadau uno neu reoliadau a wnaed o dan adran 10(10) ac i amrywio neu i ddirymu rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol a luniwyd o dan adran 10(2).

Adrannau 11 i 15 – Pwyllgorau pontio

24. Mae'r adrannau hyn yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio ynghyd â'u cyfansoddiad a'u swyddogaethau. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Bil ac i uno a allai ddigwydd o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall.

Adran 11 – Pwyllgorau pontio

25. Mae adran 11 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno sefydlu pwyllgor pontio (un ar gyfer pob prif ardal newydd arfaethedig).

Adran 12 – Cyfansoddiad pwyllgorau pontio

26. Mae adran 12 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad y pwyllgorau pontio. Rhaid i bwyllgor pontio gynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau sy'n uno. Rhaid cael nifer cyfartal o aelodau o bob awdurdod sy'n uno ar y pwyllgor, gydag o leiaf 5 aelod o bob awdurdod. Rhaid i'r awdurdodau sy'n uno gytuno ar gyfanswm yr aelodau, ond os na ellir dod i gytundeb bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar faint y pwyllgor. Rhaid i arweinydd gweithredol pob awdurdod sy'n uno fod yn aelod o'r pwyllgor pontio; ac os nad oes gan yr arweinydd gweithredol gyfrifoldeb gweithredol am gyllid rhaid i'r aelod gweithredol sy'n gyfrifol am gyllid a'r arweinydd gweithredol ill dau gael eu penodi i'r pwyllgor pontio. Caiff pwyllgor pontio gyfethol pobl ychwanegol i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor ond heb hawliau pleidleisio. Rhaid i aelodaeth awdurdod sy'n uno o bwyllgor pontio adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod sy'n uno, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Adran 13 – Swyddogaethau pwyllgorau pontio

27. Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau pwyllgor pontio. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio gynghori'r awdurdodau sy'n uno a'r awdurdod cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd, a rhoi argymhellion iddynt, ynghylch:

- trosglwyddo swyddogaethau, staff a hawliau a rhwymedigaethau eiddo mewn modd effeithiol ac effeithlon o'r awdurdodau sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd,
- sicrhau bod y prif awdurdod lleol newydd ynghyd â'i staff mewn sefyllfa i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol o'r adeg pan fo'n eu hysgwyddo; a
- unrhyw ddiben arall y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu drwy gyfarwyddydau.

28. Mae adran 13(2) i (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i bwyllgorau pontio i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd. Caiff y cyfarwyddyd fod yn gymwys i un pwyllgor pontio, i bob pwyllgor pontio o ddisgrifiad penodol a bennir yn y cyfarwyddyd neu i'r holl bwyllgorau pontio. Rhaid i bwyllgor pontio gydymffurfio â'r cyfarwyddydau a roddir a chaniateir i gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (2) gael ei ddirymu neu ei amrywio gan gyfarwyddyd arall ar unrhyw adeg.

29. Mae adran 13(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i bwyllgorau pontio ynghylch arfer eu swyddogaethau; a rhaid i bwyllgor pontio roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

30. Mae adran 13(6) yn atal pwyllgor archwilio neu bwyllgor trosolwg a chraffu mewn awdurdod sy'n uno rhag cyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â gwaith y pwyllgor pontio.

Adran 14 – Is-bwyllgor i bwyllgorau pontio

31. Mae adran 14 yn galluogi pwyllgor pontio i sefydlu un is-bwyllgor neu ragor, er mwyn cynghori'r pwyllgor pontio ar faterion y mae'r pwyllgor pontio yn eu hatgyfeirio ato. Mater i'r pwyllgor pontio fydd pennu aelodaeth is-bwyllgor, ond ni fydd gan unrhyw berson a benodir nad yw'n aelod o'r awdurdodau lleol sy'n uno yr hawl i bleidleisio.

Adran 15 – Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth i bwyllgorau pontio

32. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno dalu costau'r pwyllgorau pontio. Rhaid i'r awdurdodau sy'n uno gytuno ar sut i ddosrannu'r gost rhwng pob un o'r awdurdodau sy'n uno, a phan na ellir dod i gytundeb bydd Gweinidogion Cymru yn pennu pa gyfran o'r costau y bydd pob awdurdod yn ei thalu. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno ddarparu cyfleusterau, adnoddau (gan gynnwys staff), a gwybodaeth y gwneir cais rhesymol amdanynt, i'r pwyllgor pontio neu unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor pontio, i alluogi'r pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.

Adrannau 16 i 23 – Trefniadau etholiadol etc. ar gyfer y brif ardal newydd

33. Mae adrannau 16 i 23 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) a chynnal adolygiadau cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd newydd arfaethedig. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Bil ac i uno a allai ddigwydd o ganlyniad i ddeddfwriaeth

arall. Nodir strwythur a swyddogaethau'r Comisiwn yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a'i swyddogaeth yw adolygu'r holl ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd.

34. Ar hyn o bryd, ni all y Comisiwn ond gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal a sefydlwyd eisoes drwy statud. Mae adran 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal arfaethedig.

35. Mae is-adrannau (2) i (5) o adran 16 yn diffinio'r termau allweddol a ddefnyddir yn yr adrannau hyn o'r Bil. Mae'r term "cyfansoddiad" yn adran 16(3)(b) yn ymwneud â ffurf cynghorau yn hytrach na'u cyfansoddiad cyfreithiol.

36. Mae adran 17 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion y gall cyfarwyddyd a wneir o dan adran 16 ymdrin â hwy. O fewn unrhyw gyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru bennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r Comisiwn ddarparu ei adroddiad ar ei adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig a chaiff gynnwys manylion am faterion penodol y mae'n rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal adolygiad cychwynnol. Caniateir i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch cynnal adolygiadau cychwynnol, gan gynnwys ym mha drefn y mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal yr adolygiadau unigol; fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn cynrychioli awdurdodau lleol, cyn cyhoeddi cyfarwyddyd cyffredinol.

Adran 17 – Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Comisiwn

37. Mae adran 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Comisiwn drwy gyfarwyddyd dilynol. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd pellach i'r Comisiwn ar brif ardal arfaethedig wedi i'r Comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol o'r brif ardal arfaethedig honno, ac adrodd ar yr adolygiad.

38. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan adran 16 neu 17 o'r Bil a rhaid iddo hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir i'r Comisiwn gan Weinidogion Cymru ynghylch cynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig.

Adran 18 – Cynnal adolygiad cychwynnol

39. Mae adran 18 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig gan y Comisiwn. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus, a chaniateir darparu diffiniad o hynny o dan gyfarwyddydau a chanllawiau o dan adran 17 o'r Bil.

40. Rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod y gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i aelodau etholedig ar gyfer prif ardal arfaethedig yr un fath ym mhob

ward etholiadol o'r brif ardal arfaethedig, neu mor agos â phosibl at hynny, gan arwain at sefyllfa lle bydd pob aelod etholedig yn cynrychioli'r un nifer o etholwyr. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd roi sylw i ddymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sy'n hawdd i'w hadnabod, ac nad ydynt yn torri ar draws ffiniau lleol cydnabyddedig. Rhaid ystyried hefyd wahaniaethau yn nifer yr etholwyr cymwys a'r niferoedd gwirioneddol o bersonau sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio, ynghyd ag unrhyw newidiadau tebygol yn nifer neu ddosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol o fewn prif ardal arfaethedig o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi argymhellion yr adroddiad.

41. Diben adolygiad cychwynnol yw llunio cynigion a gwneud argymhellion ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal arfaethedig. Wrth gynnal yr adolygiad, caiff y Comisiwn hefyd gynnig ac argymell newidiadau ar lefel cymuned, ond dim ond pan fo newidiadau o'r fath yn gyfan gwbl o ganlyniad i'r hyn a gynigir neu a argymhellir ar gyfer trefniadau'r brif ardal arfaethedig. Os yw'r Comisiwn o'r farn bod newidiadau canlyniadol o'r fath yn briodol ar lefel cymuned rhaid iddo ystyried materion tebyg i'r rhai sy'n gymwys wrth iddo ystyried y trefniadau ar lefel y brif ardal. Nodir yr ystyriaethau mewn cysylltiad â newidiadau canlyniadol o'r fath yn is-adrannau (5) i (8) o adran 18.

Adran 19 – Y weithdrefn ragadolygu

42. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau, yn ystod y cyfnod cyn cynnal adolygiad cychwynnol, fod yr ymgyngoreion mandadol, fel y'u diffinnir gan adran 19(3), ac unrhyw unigolion eraill yr ystyrir eu bod yn debygol o fod â buddiant yn yr adolygiad, yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal yr adolygiad neu unrhyw gyfarwyddydau eraill a gyhoeddwyd sy'n gysylltiedig â'r adolygiad. Yn ystod y cyfnod rhagadolygu mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn ymgynghori â'r ymgyngoreion mandadol ar y weithdrefn a'r fethodoleg y bwriedir eu dilyn wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol, yn enwedig o ran y dull arfaethedig o benderfynu nifer priodol yr aelodau etholedig ar gyfer y prif awdurdod lleol yn y brif ardal arfaethedig.

Adran 20 – Ymgynghori ac ymchwilio

43. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal arfaethedig rhaid i'r Comisiwn, o dan adran 20, ymgynghori â'r ymgyngoreion mandadol ac unigolion allweddol eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, a rhaid iddo gynnal ymchwiliad priodol. Ar ôl ymgynghori a chynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiwn baratoi adroddiad, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymchwiliad, yn amlinellu ei gasgliadau a'i gynigion ar gyfer trefniadau etholiadol y brif ardal arfaethedig. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion yr adolygiad a gynhaliwyd.

44. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad cychwynnol am gyfnod o ddim llai na 6 wythnos a dim mwy na 12 wythnos (y cyfnod ar gyfer sylwadau), a gwahodd sylwadau ar ei gynigion yn yr adroddiad hwnnw gan Weinidogion Cymru, yr ymgyngoreion mandadol ac unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth fel rhan o'r broses adolygu gychwynnol, gan eu hysbysu beth yw'r cyfnod ar gyfer derbyn sylwadau.

Adran 21 – Adrodd ar adolygiad cychwynnol

45. Yn dilyn y cyfnod ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn, o dan yr adran hon, ailystyried ei adroddiad cychwynnol, yng ngoleuni'r sylwadau a'r adborth a gafwyd, a rhaid iddo wedyn baratoi adroddiad pellach sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer y trefniadau etholiadol yn y brif ardal arfaethedig, gan gynnwys unrhyw argymhellion canlyniadol ar gyfer ffiniau a wardiau cymuned, manylion y dull a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad a'r ymgynghoriad dilynol, a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i'r adroddiad cychwynnol ar ôl gofyn am sylwadau.

46. Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r adroddiad a'i argymhellion i Weinidogion Cymru, cyhoeddi'r adroddiad ar ffurf electronig, sicrhau ei fod ar gael yn swyddfeydd y prif awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r uno am 6 wythnos o leiaf a hynny'n ddi-dâl, ac anfon copi o'r adroddiad at yr ymgyngoreion mandadol, yr Arolwg Ordnans a'r unigolion hynny a gyflwynodd dystiolaeth mewn cysylltiad â'r adolygiad neu a roddodd sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol.

47. Fel arfer, ni chaniateir i unrhyw argymhellion gael eu gwneud neu eu cyhoeddi mewn cysylltiad ag adolygiadau trefniadau etholiadol yn y 9 mis cyn etholiad cyffredin er mwyn sicrhau nad yw'r paratoadau ar gyfer etholiad cyffredin yn cael eu drysu drwy gyhoeddi trefniadau etholiadol gwahanol. Oherwydd yr amserlen ar gyfer uno, fodd bynnag, mae adran 21(5) yn atal y ddarpariaeth berthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 o ran argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas â phrif ardal arfaethedig.

Adran 22 – Gweithredu gan Weinidogion Cymru

48. Mae adran 22 yn galluogi Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad pellach gan y Comisiwn, ac ar ôl caniatáu 6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad pellach, i wneud rheoliadau er mwyn gweithredu'r argymhellion neu ffurf ar yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad pellach. Os yw Gweinidogion Cymru yn dewis addasu'r argymhellion cyn eu gweithredu, rhaid iddynt ystyried y gofynion o dan adran 18 ac, wrth wneud hynny, fod yn fodlon bod yr addasiad yn angenrheidiol. Rhaid i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth berthnasol am yr argymhellion sy'n rhesymol ofynnol gan Weinidogion Cymru, a chaiff Gweinidogion amrywio neu ddirymu rheoliadau sy'n gweithredu argymhellion drwy reoliadau dilynol.

49. Os na fydd y Comisiwn yn gallu darparu adroddiad pellach, gan gynnwys argymhellion, o fewn yr amserlen a roddir gan Weinidogion Cymru yn eu cyfarwyddydau, mae adran 23 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal arfaethedig, ynghyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol perthnasol, yn niffyg argymhellion gan y Comisiwn. Pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi, rhaid i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a gasglwyd hyd yr adeg honno mewn cysylltiad â'r adolygiad cychwynnol. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn hefyd gynnal ei adolygiad cyntaf o'r trefniadau etholiadol

ar gyfer y brif ardal arfaethedig, fel sy'n ofynnol gan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad cyffredin cyntaf y cyngor ar gyfer yr ardal honno a chyn etholiadau nesaf y cyngor ar gyfer yr ardal honno.

50. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan yr adran hon, drwy reoliadau dilynol.

Adran 24 – Cyfnodau adolygu yn y dyfodol

51. Mae adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob un o'r prif ardaloedd o fewn cyfnod adolygu o 10 mlynedd, gan ddechrau â mis Medi 2013. Mae'r rhaglen ddiwygio yn rhagweld y bydd y broses o greu prif awdurdodau newydd wedi'i chwblhau erbyn mis Ebrill 2020, ac y bydd yn rhaid i bob awdurdod newydd fod â threfniadau etholiadol newydd yn eu lle cyn y dyddiad hwnnw. Mae adran 24 yn galluogi Gweinidogion Cymru i symud y dyddiad ar gyfer dechrau cyfnod adolygu 10 mlynedd y Comisiwn, fel y bydd yn rhedeg o ddyddiad newydd unwaith y bydd y rhaglen uno wedi'i chwblhau.

Adran 25 i 27 – Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol etc. ar gyfer prif awdurdodau lleol newydd

52. Mae adrannau 25 i 27 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) a'i swyddogaethau o ran taliadau i aelodau o awdurdodau cysgodol a phrif awdurdodau lleol newydd, pa un a sefydlir y rhain drwy uno gwirfoddol neu fel arall. Sefydlwyd y Panel yn 2007 ac mae cyfrifoldeb statudol arno i bennu ystod a lefel y lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig o brif awdurdodau lleol, aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a chynghorau cymuned a thref.

53. Ar hyn o bryd, dim ond mewn perthynas ag aelodau etholedig o brif awdurdod lleol a sefydlwyd eisoes drwy statud y caiff y Panel gyflawni ei swyddogaethau (gan gynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau). Mae adran 25 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau (sef swyddogaethau o dan adrannau 142 a 143 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) mewn perthynas â phenderfynu ar dâl a phensiynau aelodau o awdurdod cysgodol ac aelodau o brif awdurdod lleol arfaethedig yn y flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n gweithredu. Mae Rhan 8 o Fesur 2011, felly, yn gymwys (gydag addasiadau) i awdurdod cysgodol yn ogystal ag i brif awdurdod lleol.

54. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i aelodau o awdurdodau cysgodol, mae adran 25(4)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol gwneud hynny ar yr awdurdodau cysgodol eu hunain; bydd ystyriaeth debyg yn gymwys i benderfyniadau ynghylch prif awdurdodau lleol newydd.

55. Effaith adran 25(4)(b) yw y bydd yn rhaid i'r Panel osod gofynion er mwyn osgoi dyblygu taliadau i'r rheini sy'n aelodau o fwy nag un awdurdod ar yr

un pryd (megis bod yn aelodau o awdurdod sy'n uno ac o'r awdurdod cysgodol cysylltiedig ar yr un pryd).

56. Yn achos uno gwirfoddol, bydd y prif awdurdod lleol newydd yn bodoli o 1 Ebrill 2018. Rhagwelir y bydd aelodau'r awdurdod cysgodol yn dod yn aelodau o'r prif awdurdod lleol newydd am yr ychydig wythnosau cyntaf, gan arfer holl swyddogaethau'r awdurdod newydd. Yn dilyn yr etholiadau cyntaf i'r awdurdod newydd (ym mis Mai fwy na thebyg), bydd corff newydd o aelodau etholedig yn cymryd yr awenau, a bydd yr aelodau a etifeddwyd o'r awdurdod cysgodol yn rhoi'r gorau iddi. Mae is-adran 25(5) yn rhagweld y sefyllfa honno drwy alluogi'r Panel, wrth wneud penderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf yr awdurdod newydd, i wneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer y cyfnod cyn yr etholiadau cyntaf a'r cyfnod ar ôl hynny.

Adran 26 – Adroddiadau'r Panel

57. Mae adran 26 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gynnwys ei benderfyniadau cyntaf ar dâl a phensiynau ar gyfer aelodau o brif awdurdod lleol newydd arfaethedig yn adroddiad blynyddol y Panel sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol gyntaf y prif awdurdod lleol. Caniateir i'r penderfyniadau cyntaf ynghylch aelodau o awdurdod cysgodol gael eu cynnwys naill ai mewn adroddiad blynyddol neu mewn adroddiad atodol. Rhaid i'r adroddiad sy'n cynnwys y penderfyniadau cyntaf, fodd bynnag, gael ei gyhoeddi yn ddim hwyrach na 6 wythnos cyn i'r awdurdod cysgodol gael ei sefydlu neu ei ethol.

Adran 27 - Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Panel

58. Mae adran 27 yn darparu y caniateir amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 25 gan gyfarwyddyd dilynol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 25. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i'r Panel ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26 ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adran 28 – Datganiadau polisi tâl

59. Mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cysgodol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n uno baratoi a chymeradwyo datganiad polisi tâl (fel y darperir ar gyfer hynny gan Ddeddf Lleoliaeth 2011) ar gyfer y cyfnod cysgodol a blwyddyn ariannol gyntaf y prif awdurdod lleol newydd. Y diben yw sicrhau bod gan yr awdurdod cysgodol ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi polisïau'r awdurdod ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu yn y dyfodol, yn enwedig ei brif swyddogion a'i gyflogeion sydd ar y cyflogau isaf. Er mwyn cynorthwyo'r awdurdod cysgodol, mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio awdurdodau lleol sy'n uno gyhoeddi argymhellion ar gyfer yr awdurdod cysgodol ar y datganiad polisi tâl sydd i'w baratoi gan yr awdurdod cysgodol yn ddim hwyrach na 42 o ddyddiau cyn y diwrnod y sefydlir neu yr etholir yr awdurdod cysgodol. Gwaherddir awdurdodau cysgodol rhag penodi prif swyddog hyd nes y bydd y datganiad polisi tâl wedi ei baratoi a'i gymeradwyo.

60. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i'r pwyllgorau pontio a'r awdurdodau cysgodol ynghylch cyflawni eu dyletswyddau o dan yr adran hon, a rhaid i'r awdurdod cysgodol a'r pwyllgor pontio roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adrannau 29 i 32 – Cyfyngiadau ar drafodion gan awdurdodau sy'n uno

61. Mae adrannau 29 i 32 yn gwneud darpariaeth i ddiogelu yn erbyn y posibilrwydd o ymddygiad negyddol a niweidiol gan awdurdodau lleol sy'n uno. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol o dan y Bil ac i uno a allai ddigwydd o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall.

62. O dan adran 29, pan fo awdurdod sy'n uno yn cynnig gwneud trafodiad o fath a bennir yn adran 29(1) a phan fo gwerth y trafodiad yn fwy na'r swm a bennir yn adran 31, rhaid i'r awdurdod sy'n uno ddarparu manylion y trafodiad arfaethedig i'r pwyllgor pontio perthnasol ac ystyried cyngor y pwyllgor. Os yw awdurdod sy'n uno yn methu â darparu manylion trafodiad sy'n dod o fewn cwmpas adran 29 i'r pwyllgor pontio neu'n methu ag ystyried ei gyngor, bydd canlyniadau i'r awdurdod sy'n uno os bydd yn bwrw ymlaen â'r trafodiad wedi hynny. Bernir bod contract neu gytundeb yr ymrwymwyd iddo yn anorfodadwy, bydd trafodiad tir neu gaffaeliad cyfalaf yn ddi-rym, a bydd grant neu gymorth ariannol arall neu fenthyciad perthnasol yn ad-daladwy. Pan gaiff mater ei atgyfeirio, rhaid i'r pwyllgor pontio ystyried y manylion a rhoi ei farn ar briodoldeb y trafodiad arfaethedig. Rhaid i'r awdurdod sy'n uno ystyried y farn honno; os yw'r awdurdod sy'n uno yn dewis peidio â derbyn y farn honno caiff yr awdurdod sy'n uno fwrw ymlaen â'r trafodiad, ond rhaid iddo gyhoeddi ei resymau dros fwrw ymlaen er gwaethaf y farn honno.

63. Unwaith y bydd yr awdurdod cysgodol wedi ei sefydlu neu ei ethol, bydd y weithdrefn atgyfeirio a sefydlir gan adran 29 yn cael ei disodli gan ofyniad (o dan adran 30) i'r awdurdod sy'n uno gael cydsyniad ysgrifenedig yr awdurdod cysgodol perthnasol i'r trafodiad arfaethedig. Mae'r gofyniad yn ymwneud â'r un mathau o drafodion ag ar gyfer y weithdrefn atgyfeirio, ac mae'r trothwyon yr un fath. Caniateir rhoi cydsyniad gydag amodau neu heb amodau. Ni chaiff yr awdurdod sy'n uno fwrw ymlaen â'r trafodiad heb gydsyniad yr awdurdod cysgodol. Os na roddir cydsyniad i'r awdurdod sy'n uno, a'i fod yn bwrw ymlaen â'r trafodiad er gwaethaf hynny, bydd yn wynebu canlyniadau. Bydd contract neu gytundeb yr ymrwymir iddo yn cael ei ystyried yn anorfodadwy; bydd trafodiad tir neu gaffaeliad cyfalaf yn ddi-rym; a bydd grant neu gymorth ariannol arall neu fenthyciad perthnasol yn ad-daladwy.

64. Mae adrannau 29(1), 30(1) a 31 yn disgrifio'r trafodion y mae'r gweithdrefnau atgyfeirio / cydsynio yn berthnasol iddynt:

- gwerthu neu brynu tir neu adeiladau (trothwy – dros £150,000);
- ymrwymo i gontractau neu gytundebau y mae eu cyfnodau yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo (trothwy – dros £500,000 os yw'n gontract cyfalaf; £150,000 ar gyfer pob contract arall);

- gwneud caffaeliadau cyfalaf, ee, diffinnir hyn fel caffael cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad (trothwy – dros £500,000);
- rhoi grant neu gymorth ariannol arall (trothwy – dros £150,000);
- rhoi benthyciad y mae ei gyfnod yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo (trothwy – dros £150,000).

Diffinnir bod contract yn cynnwys cytundeb fframwaith o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS 2006/5); a diffinnir contract cyfalaf fel un lle bo'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy gan yr awdurdod yn wariant cyfalaf at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 2003.

65. Mae adran 32 yn nodi sut y dylid cyfrifo gwerth cydnabyddiaeth mewn trafodiad penodol. Os nad yw'r cyrff perthnasol yn gallu cytuno ar werth cydnabyddiaeth mewn trafodiad yna Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y gwerth. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu ffigurau trothwy gwahanol a chaiff gyhoeddi canllawiau ynghylch gweithredu adrannau 29 a 30.

Adrannau 33 a 34 – Gofynion gwybodaeth

66. Mae adrannau 33 a 34 yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n uno ddarparu unrhyw wybodaeth iddynt sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi effaith i drosglwyddo swyddogaethau'r awdurdodau sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno rannu gwybodaeth berthnasol sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru â chyrff perthnasol eraill – yr awdurdodau eraill sy'n rhan o'r uno, y pwyllgor pontio priodol a'r awdurdod cysgodol priodol.

Adran 35 – Ymestyn dros dro swyddogaethau Panel sy'n ymwneud â phenaethiaid gwasanaethau i brif swyddogion

67. Mae adran 35 yn ymestyn cwmpas Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gymwys i benaethiaid gwasanaethau cyflogedig, i gynnwys holl brif swyddogion holl brif awdurdodau lleol Cymru hyd 31 Mawrth 2020. O ganlyniad, bydd y Panel yn gallu gwneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi, a amlinellir yn natganiad polisi tâl awdurdod, sy'n ymwneud â chyflog prif swyddog awdurdod ac unrhyw newid i gyflog prif swyddog sydd yn yr arfaeth; a rhaid i'r awdurdod roi sylw i unrhyw argymhelliad o'r fath gan y Panel. Bydd yn rhaid i awdurdod lleol hefyd ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newid i gyflog prif swyddog sydd yn yr arfaeth nad yw'n gymesur â newid i gyflogau staff eraill yr awdurdod. Rhaid i'r awdurdod roi sylw i unrhyw argymhelliad a dderbynnir wedi hynny gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio. Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r Panel ynghylch arfer ei swyddogaethau estynedig a rhaid i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adran 36 – Newid yn nifer aelodau'r Panel

68. Mae adran 36 yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 2 i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn cynyddu maint y Panel o 5 aelod i 6 aelod ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio nifer yr aelodau ymhellach, drwy

reoliadau. Mae angen cynyddu maint y Panel er mwyn ymdrin ag ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n ofynnol gan Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

Adran 37 – Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr

69. Mae'r adran hon yn diwygio adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (dyletswydd i gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr) er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol drefnu i'r arolwg gael ei gynnal gan drydydd parti, i ganiatáu i'r arolwg gael ei gynnal yn llwyr ar ôl yr etholiad neu drwy ofyn i'r ymgeiswyr ateb y cwestiynau rhagnodedig cyn yr etholiad a chrynhoi'r wybodaeth wedi hynny, i gael gwared ar y gofyniad i'r arolwg gael ei gynnal ar ôl pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr, ac i gael gwared ar y gofyniad i arolygon gael eu cwblhau yn ddienw.

Adran 38 – Cynigion a gyflwynwyd cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gychwyn

70. Mae'r adran hon yn diwygio adran 74(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 sy'n arbed Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried adroddiadau a gwblhawyd yn llawn a gyflwynwyd iddynt gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru cyn 30 Medi 2013.

Adran 39 –Rheoliadau

71. Mae'r adran hon yn amlinellu bod unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil yn arferadwy drwy offeryn statudol.

72. Gwaherddir gwneud rheoliadau uno, rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol sy'n ymwneud ag uno gwirfoddol, a rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu pwyllgorau pontio, oni bai bod drafft o'r offeryn statudol yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn cael ei gymeradwyo ganddo.

73. Bydd rheoliadau i ddiwygio'r dyddiad dechrau ar gyfer cyfnod adolygu 10 mlynedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol y prif ardaloedd, ac i ddiwygio'r trothwyon ar gyfer y trafodion y mae'r gweithdrefnau atgyfeirio / cydsyniad ar gyfer pwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol yn berthnasol iddynt, yn destun gweithdrefn penderfyniad negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adran 41 - Cychwyn

74. Mae'r adran hon yn darparu y bydd adrannau 25 i 28 a 33 i 38 yn dod i rym ddeufis ar ôl i'r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol ac y daw'r holl ddarpariaethau eraill i rym drannoeth y diwrnod y bydd yn cael y Cydsyniad Brenhinol.